# Hunanasesu Perfformiad: Ebrill i Medi 2024

Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno ein perfformiad yn erbyn themâu a meysydd llywodraethu ein Cynllun Corfforaethol rhwng Ebrill a Medi 2024.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English. Rydym yn hapus i gynnig y ddogfen mewn print bras, fersiwn sain a Braille, a gofynnwn i chi gysylltu â’r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.**



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd**

**Conwy - a progressive County creating opportunity**

## Rydym eisiau clywed eich barn chi!

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth gyfoethog Conwy ac yn credu ei bod yn hanfodol clywed a chydnabod llais pawb. Hoffem glywed gennych chi am yr hyn sy'n effeithio arnoch chi. Ydi ein nodau hirdymor yn addas ar gyfer eich cymuned chi, ac ydym ni'n gwneud y pethau iawn? I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich barn am unrhyw beth yn ein Cynllun Corfforaethol, cysylltwch â ni.

**Dros e-bost:** sgwrsysir@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 57 4000

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

**Drwy Iaith Arwyddion:** Gall defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain gysylltu â ni'n defnyddio dehonglydd Iaith Arwyddion drwy'r Gwasanaeth *InterpretersLive!* sy'n cael ei gynnig gan *Sign Solutions* – ewch i www.conwy.gov.uk/arwyddio

**Drwy'r post:** Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad
Tîm Perfformiad a Gwella
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Bae Colwyn
LL29 0GG

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith na'r llall.

### Pobl Ifanc

Pobl ifanc yw ein dyfodol ac fe hoffem glywed eich barn chi. Mae'r gwasanaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc eisiau gwrando a rhoi cyfle i chi leisio'ch barn. Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn rhoi llais a dewis i chi yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Os hoffech chi gymryd rhan, ewch i dudalen Facebook y Cyngor Ieuenctid neu i wefan y Gwasanaeth Ieuenctid , neu cysylltwch â ni:

**Dros e-bost:** gwasanaethieuenctid@conwy.gov.uk

**Dros y ffôn:** 01492 575100

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome telephone calls in English and Welsh.

Gall cwsmeriaid Gwasanaeth BT Relay sydd â nam ar eu clyw neu eu lleferydd gysylltu ag unrhyw un o wasanaethau'r Cyngor drwy ddeialu **18001** cyn y rhif y maent ei angen.

**Drwy Facebook ac Instagram:** @GIConwyYS

## I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Ewch i'n gwefan i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i'n tudalen gwe 'Dweud eich dweud'

Cofrestrwch i greu cyfrif ar Fy Nghonwy er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf sydd fwyaf perthnasol i chi, yn ogystal â llunio a rheoli eich ceisiadau gwasanaeth ar lein.

# Cynnwys


Mesur Perfformiad ....................5

Crynodeb o'r sefyllfa ....................7

1. Amgylchedd sy'n cael ei werthfawrogi a'i warchod ....................9

2. Economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi ....................17

3. Addysg a Sgiliau ....................27

4. Llety fforddiadwy ac addas o safon uchel ....................37

5. Diogel ac yn teimlo'n ddiogel ....................44

6. Iach ....................51

7. Y Gymraeg yn ffynnu ....................64

8. Yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys, yn cael llais a chyfrannu at gymuned ....................68

9. Cyngor gwydn ....................75

10. Swyddogaethau Llywodraethu ....................90

11. Camau Gwella ....................107

12. Cloi ....................107

## Mesur Perfformiad

Rydym yn defnyddio ymagwedd tri lliw - coch, oren, gwyrdd (COG) wrth fesur ein perfformiad a'n gweithgareddau. Ar gyfer diben yr adroddiad hwn mae ein hymagwedd i fesur prosiectau wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd, a hynny hefyd yn cyd-fynd ag adrodd ar ein system rheoli perfformiad (CAMMS). Pan fydd mesur yn cael ei nodi fel 'cyfrif yn unig' tydi statws COG a dangosyddion o dueddiadau ddim yn berthnasol.

### Mesuriadau

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu fod y targed wedi'i gyflawni.
- Mae statws **oren** yn golygu bod y perfformiad o fewn goddefiant i gwrdd â'i darged.
- Mae statws **coch** yn golygu bod perfformiad heb gyflawni ei darged a ddim o fewn goddefiant.

### Gweithgaredd (defnyddio methodoleg prosiect)

- Mae statws **gwyrdd** yn golygu bod yr elfen hon ar y trywydd iawn.
- Mae statws **oren** yn golygu bod problem bosib wedi cael ei nodi.
- Mae statws **coch** yn golygu bod problem amlwg wedi'i nodi ac angen sylw.

### Disgrifiadau o dueddiadau

Mae'r adroddiad hefyd yn cymharu pwynt data (canlyniad) gyda'r cyn-gyfnod ar gael. Mewn achos o fesurau bob chwe mis cronnus byddwn yn cymharu gyda'r un cyfnod (h.y. y mesurau canol blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau canol blwyddyn flaenorol, y mesurau diwedd blwyddyn ddiweddaraf gyda'r mesurau diwedd blwyddyn flaenorol). Nid yw'n disgrifio unrhyw symudiad neu newid yn y statws COG.

- Caiff **'gwell'** ei ddefnyddio pan fo'r newid yn y canlyniad yn welliant. Pan mae canrannau neu niferoedd uwch yn ddymunol bydd y ffigwr yn uwch na'r ffigwr blaenorol. Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na'r ffigwr blaenorol.
- Mae **'yr un fath'** yn cael ei ddefnyddio pan na fydd newid yn y canlyniad, gyda pherfformiad yn cyd-fynd â'r cyfnod blaenorol sydd ar gael.
- Mae **'gwaeth'** yn cael ei ddefnyddio pan fydd newid yn y canlyniad yn dangos dirywiad. Pan y mae canrannau neu niferoedd is yn annymunol bydd y ffigwr yn is

na’r ffigwr blaenorol.  Pan mae canrannau neu niferoedd is yn ddymunol bydd y ffigwr yn is na’r ffigwr blaenorol.

# Crynodeb o'r sefyllfa

Mae'r penodau isod yn darparu crynodeb o weithgaredd sydd wedi cymryd lle yn ystod mis Ebrill i fis Medi 2024 sy'n cefnogi blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ac yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad yn erbyn swyddogaethau llywodraethu allweddol. Mae pob pennod yn cael ei gefnogi gan grynodeb o straeon newyddion sy'n berthnasol i'n perfformiad, crynodeb o eitemau wedi'u craffu neu gymeradwyo gan ein prif bwyllgorau a diweddariadau ar ein perfformiad yn erbyn mesurau a phrosiectau allweddol.

## Crynodeb o themâu'r Cynllun Corfforaethol

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob thema isod yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu. Mae gwerthuso camau gweithredu wedi cael ei bennu gan statws ein gweithgareddau trwy ddefnyddio ein methodoleg prosiect.

### 1. Amgylchedd sy'n derbyn gofal ac yn cael ei werthfawrogi

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 2. Economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 3. Addysg a Sgiliau

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 4. Llety fforddiadwy, priodol ac o safon dda

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 5. Diogelwch a theimlo'n ddiogel

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**6. Yn iach**

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**7. Y Gymraeg yn Ffynnu**

Mesurau: Dim statws

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**8. Yn y gymuned maen nhw'n teimlo'n wybodus, yn rhan ohono, gyda llais ac yn cymryd rhan**

Mesurau: Dim statws

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**9. Cyngor cadarn**

Mesurau: Dim statws

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

# 1. Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 1.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae un eitem newydd o ddata i'w chyflwyno gyda'r adroddiad hwn, sy'n ymwneud â'r newid canrannol mewn allyriadau carbon o'n gweithgareddau o gymharu â'n blwyddyn sylfaen (2019 i 2020). Mae data ar gyfer 2023 i 2024 yn dangos gostyngiad pellach mewn allyriadau o 19%. Fodd bynnag, mae hyn yn is na'n targed. Bydd adroddiad ar wahân ar gynnydd ein rhaglen yn cael ei gyflwyno i'r aelodau yn fuan.

Roeddem yn falch iawn o gyhoeddi ym mis Ebrill bod y casgliad ailgylchu ymyl y ffordd "Podback" bob pythefnos wedi dathlu ailgylchu mwy nag 1 miliwn o godennau coffi o'r sir. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r elusen leol Crest, a'r arbenigwyr ailgylchu codennau Podback i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae mwy na 2900 o gartrefi wedi ymuno â'r gwasanaeth, gan wneud arbediad o 16.4 tunnell o losgi gwastraff.

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Canran y gwastraff a gafodd ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**<br>**Targed 70%** | 69%<br>Oren<br>Yr un fath | 70%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Canran y strydoedd sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol sy'n lân – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**<br>**Targed 95%** | 97%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 99%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Y newid mewn canran o allyriadau carbon o'n gweithgareddau o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaen (2019 i 2020) - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol**<br>**Targed 0 erbyn 2030** | -24%<br>Oren<br>Gwell | -19%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Nifer yr eiddo lle mae'r perygl o lifogydd wedi lleihau yn dilyn gweithredu mesurau amddiffyn rhag llifogydd - **Cyfrif yn Unig** | 282 | 604 |

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Hyd y llwybr mewn cilometrau (KM) sydd wedi’i ychwanegu at deithio llesol - **Cyfrif yn Unig** | 113 | 135 |
| Nifer y gwobrau a gyflawnwyd am ein parciau a’n mannau gwyrdd - **Cyfrif yn Unig** | 26 | 21 |

## 1.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae naw cam gweithredu wedi’u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae saith ar y trywydd iawn; un yn Oren; ac mae un yn newydd gyda diweddariad yn yr arfaeth yn y cyfnod adrodd nesaf.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Trwy ein Rhaglen Her yr Hinsawdd, byddwn yn gweithio i fod yn sefydliad carbon sero net erbyn 2030. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Ychwanegwyd 2 safle gwefru trydan ychwanegol ar gyfer yr 17 cerbyd trydan yn ein fflyd.<br>Mae cam 1 y prosiect datgarboneiddio wedi dechrau yn Ysgol Bro Aled, ac mae paneli solar ffotofoltaig wedi’u gosod mewn 7 ysgol.<br>Comisiynwyd astudiaethau dichonoldeb datgarboneiddio ar gyfer y 4 pwll nofio, gan gynnwys arolygon to i asesu eu haddasrwydd ar gyfer paneli solar ffotofoltaig.<br>Mae paneli solar ffotofoltaig hefyd wedi'u gosod yn Theatr Colwyn. |
| Cyllidebu ar gyfer Sero Net | Newydd: Aros am y wybodaeth ddiweddaraf | Nododd ein hadroddiad Sicrwydd ac Asesiad Risg blynyddol gan Archwilio Cymru yn 2023, er bod gennym weledigaeth glir a chefnogaeth strategol ar gyfer ein hymagwedd i ddatgarboneiddio ac i gyflawni sero net erbyn 2030, mae angen i ni brisio ein cynllun gweithredu yn llawn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd cynnydd a wneir ar yr argymhelliad hwn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Defnyddio buddsoddiad cyfalaf mewn isadeiledd mewn ffordd sy'n cefnogi gwytnwch yr hinsawdd yn ogystal â gadael etifeddiaeth gymdeithasol ac economaidd | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae prosiectau datblygu llwybrau teithio llesol yn parhau mewn wyth ardal.<br>Mae cynlluniau arfordirol ac amddiffyn rhag llifogydd yn parhau yn Llanfairfechan, Llandudno, Bae Cinmel, Llanrwst, Penmaenmawr, Dolwyddelan a Betws-y-coed.<br>Mae [Newyddlen Her Hinsawdd] cyntaf Conwy wedi'i chyhoeddi.<br>Cyflwynwyd casgliad gwastraff swmpus ar gyfer gwastraff masnachol i gefnogi busnesau. |
| Darparu ein Cynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae nifer o brosiectau a ariannwyd gan grant wedi'u cyflawni'n llwyddiannus i sicrhau bod rheolaeth ein tir yn cynnal ac yn gwella maint, cyflwr a chysylltedd y cynefinoedd a'r rhywogaethau lled-naturiol.<br>Yn ogystal, mae asesiadau cyflwr ecolegol wedi'u cynnal ar draws nifer o'n Gwarchodfeydd Natur Lleol, a fydd yn llywio cynlluniau rheoli cynefinoedd newydd.<br>Cyflwynwyd sesiwn Gwybodaeth a Datblygiad i aelodau yn ddiweddar gan y Cefnogwr Bioamrywiaeth. |
| Datblygu a gweithredu isadeiledd teithio llesol er mwyn annog cerdded a beicio a lleihau'r defnydd o geir. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Wyth llwybr teithio llesol sydd ar waith: Glan Conwy; Pont Conwy; Dyffryn Conwy; Dolgarrog; Towyn a Bae Cinmel; Bae Penrhyn; Bae Colwyn; a Chraig y Don.<br>Rydym yn parhau i hyrwyddo gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd, ac rydym bellach yn monitro ac yn gwerthuso llwybrau teithio llesol presennol. |
| Cynyddu cyfleoedd i drigolion, ymwelwyr a busnesau i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Conwy bellach wedi cyflwyno opsiwn gwastraff swmpus sy'n cynnig y dewis i fusnesau gasglu ac ailgylchu gwastraff swmpus masnachol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cefnogi ffordd o fyw iach drwy ddarparu amgylchedd glân a deniadol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn parhau i weithio gyda grwpiau gwirfoddol i ddarparu gwaith casglu sbwriel helaeth ar draws y sir, gan gynnwys glanhau traethau a gwaith strydlun h.y. peintio pyst lampau, meinciau ac ati.<br>Mae grwpiau gwirfoddolwyr yn darparu tua 38,400 o oriau gwirfoddoli yng Nghonwy bob blwyddyn gan 400 o wirfoddolwyr. |
| Cefnogi datblygiad morlyn llanw yng Ngogledd Cymru a datblygu prosiectau gwyrdd er mwyn helpu i ddatblygu'r economi a helpu i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae Morlyn Llanw arfordirol Gogledd Cymru yn brosiect a arweinir yn breifat sydd angen cefnogaeth polisi a chyllid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi gofyn yn flaenorol am ddatganiadau o ddiddordeb gan ddatblygwyr cyhoeddus a phreifat yn ôl yn 2020. Er bod Cynllun Morol wedi'i symud ymlaen gan LlC, nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y cynlluniau a gyflwynwyd i'r datganiad o ddiddordeb.<br><br>Mae angen buddsoddiad o ran adnoddau ac ariannol sylweddol ar y prosiect i baratoi'r cynllun sylfaen dystiolaeth h.y. y dystiolaeth sylfaenol ategol i ddangos effaith, lliniaru a'r gallu i'w gyflawni. Byddai buddsoddiad o'r fath yn dod o ffynonellau cyhoeddus a phreifat amrywiol, ond nid yw'r rhain wedi'u cadarnhau.<br><br>Mae'r risg arall gyda'r prosiect morlyn llanw yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng y pris streic ynni a'r cymhorthdal sydd ei angen. Mae gan brosiectau morlynnoedd llanw brisiau streic uwch na'r cymhorthdal sydd ei angen o gymharu â gwynt a solar. Mater i Lywodraeth Cymru yw ystyried y bwlch pris streic i gymhorthdal wrth benderfynu ar gymorth ar gyfer prosiect morlyn llanw. Ymhellach, mae'r prosiectau llai a mwy datblygedig yn Ne Cymru yn fwy tebygol o gael eu dewis dros brosiectau llai datblygedig yng Ngogledd Cymru<br><br>O safbwynt Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) a Chynllun Corfforaethol, cefnogir y morlyn llanw. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes cefnogaeth gadarn yn rhanbarthol nac yn genedlaethol i'r cynllun, ac felly rhoddir statws oren iddo. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu ymagwedd rhaglen gadarn gan gynnwys Cynllun Ynni Ardal Leol er mwyn cyflawni targed cenedlaethol net sero erbyn 2050. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r LAEP yn cynnwys 7 ymyriad sy'n cefnogi nodau sero net hyd at 2030 a 2050. Mae sail sylweddol wedi'u gwneud dros roi tystiolaeth, polisïau a dyraniadau tir ar waith i gefnogi sero net.<br>Fodd bynnag, erys risgiau o ran adnoddau ac ariannol wrth gyflawni datblygiadau ôl-osod, Cerbydau Trydan a phympiau gwres ar gyfer y gymuned ehangach (nid yw hyn yn cynnwys asedau CBSC fel y datblygwyd drwy'r Cynllun Rheoli Carbon). Cyfarfu Llywodraeth Cymru (LIC) a'r holl bartneriaid rhanbarthol ar 20 Tachwedd 2024 i ddeall y risgiau cyflawni hyn ac ystyried atebion cydweithredol. Mae'n amlwg bod pob awdurdod lleol mewn sefyllfa debyg o ran darparu 2 ymyriad allweddol (cerbydau trydan cymunedol ehangach, ôl-osod a gosod pympiau gwres). Mae LIC yn ystyried y risgiau cyflawni hyn wrth baratoi Strategaeth Datgarboneiddio Gogledd Cymru, gan gynnwys cymorth a chefnogaeth ariannol. |

## 1.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Digwyddodd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 1.3.1. Annog Ymddygiadau Ailgylchu Cadarnhaol

Ym mis Gorffennaf fe wnaethom annog trigolion i ymatal rhag rhoi batris yn eu biniau, a'u hatgoffa i gael gwared ar eu batris gan ddefnyddio'r gwasanaeth casglu batris i'w ailgylchu a gynigir yn wythnosol i'r holl breswylwyr. Roedd hyn wedi i ddwy lori finiau fynd ar dân a ddigwyddodd yn Neganwy a Llandudno. Canfuwyd bod y loriau'n cynnwys batris lithiwm-ion, a geir yn gyffredin mewn gwrthrychau fel fêps, teganau a brwsys dannedd trydan. Rydym yn parhau i addysgu ein preswylwyr ar fuddion ailgylchu, a sut i wneud hynny'n ddiogel. Ym mis Ebrill fe wnaethom hefyd annog trigolion ac ymwelwyr i gadw amgylchedd glân a deniadol ac i gymryd cyfrifoldeb am gael gwared ar eu sbwriel yn briodol yn ystod. penwythnos gŵyl y banc.

### 1.3.2. Gwaith Lliniaru Llifogydd

Mae gwaith wedi parhau gyda gwella ein hamddiffynfeydd morol. Ym mis Ebrill cyhoeddwyd y byddai ffordd a llwybr promenâd Hen Golwyn yn cael eu hailagor a bod gwaith gwella amddiffynfeydd arfordirol Hen Golwyn ar fin cael ei gwblhau. Dechreuodd

gwelliannau pellach ym Mhenmorfa Llandudno  ym mis Gorffennaf a Thraeth y Gogledd ym mis Medi.  Ym mis Ebrill, adolygodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle y Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd.  Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i'n hamcanion a'n camau gweithredu i leihau'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol i bobl a chymunedau Conwy, yn unol â'r gofynion Cenedlaethol, ac i hwyluso'r Strategaeth Ddrafft Leol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd.  Cymeradwywyd yr adroddiad wedi hynny gan y Cabinet ym mis Mai. Hefyd yn ystod yr haf, dechreuwyd ar y gwaith o wella draeniad llifogydd mewndirol ar y B5106 fel rhan o gynllun lliniaru llifogydd Trefriw. Mae hwn yn gynllun graddol sy'n cael ei gynnal yn dilyn llwyddiant cais Cronfa Ffyniant Bro i leihau'r risg y gallai Trefriw ddod yn ynysig yn ystod y llifogydd.  Mae gwaith yn parhau a bydd diweddariadau yn cael eu darparu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

### 1.3.3. Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd

Roeddem yn falch o gyhoeddi ym mis Ebrill ein bod wedi cadw ardystiad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Lefel 5 am y ddegfed flwyddyn yn olynol.  Cawsom ein canmol am lawer o enghreifftiau o arfer da megis yr ymrwymiad i wella rheolaeth amgylcheddol yn barhaus, a lefel yr ymwybyddiaeth o sut mae ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd.  Y safon yw'r ardystiad uchaf mewn system rheoli amgylcheddol yng Nghymru ac mae'n dangos ein bod wedi cael ein cydnabod yn genedlaethol am ein hymrwymiad i reolaeth amgylcheddol dda, hyrwyddo gwelliant amgylcheddol, cymryd cyfrifoldeb am yr amgylchedd, a'n hamcan i ddod yn Sero Net erbyn 2030.

### 1.3.4. Bioamrywiaeth

Yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf fe wnaethom atgoffa trigolion y byddai ardaloedd glaswelltog yn parhau heb eu torri er mwyn hybu bioamrywiaeth. Mae'r ardaloedd glaswelltir yn cael eu rheoli fel dolydd a chaniateir i'r glaswellt dyfu'n hir yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf i warchod a denu peillwyr i'r ardal.

### 1.3.5. Wythnos Gerdded Genedlaethol Teithio Llesol

Er mwyn annog teithio llesol, fe wnaethom atgoffa ein trigolion ac ymwelwyr bod y Mis Cerdded Cenedlaethol yn cael ei gynnal trwy gydol mis Mai. Darparom wybodaeth am y gwahanol lwybrau hanesyddol a phanoramig, golygfeydd, a chanllawiau cerdded sydd ar gael iddynt yn ein sir hardd.

### 1.3.6. Llwybrau Bws wedi'u hadfer

Yn dilyn y cyfyngiadau 20mya a gyflwynwyd ym mis Medi 2023, adolygwyd llwybrau bysiau i sicrhau bod prydlondeb cyffredinol yn parhau. Cytunwyd bryd hynny na fyddai Llwybr Bws 14, a oedd yn gwasanaethu ar hyd Ochr y Penrhyn, yn cael ei ddarparu mwyach. Fodd bynnag, yn dilyn pryderon a fynegwyd gan ddefnyddwyr, rydym wedi trafod gydag Arriva ac yn falch bod y llwybr wedi'i adfer, i weithredu ar hyd Ffordd Bryn y Bia o fis Gorffennaf 2024.

### 1.3.7. Cynllun Ynni Ardal Leol Adolygiad tir a dull polisi ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y tir.

Nododd y Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) weledigaeth a llwybr tuag at ddatgarboneiddio'r system Ynni yng Nghonwy erbyn 2050. Un o'r camau gweithredu oedd datblygu dull o gefnogi ynni gwynt ar y tir ac ynni solar. Rydym wedi cynnal asesiad o dir i nodi ardaloedd a allai gefnogi ynni gwynt ar y tir ac ynni solar drwy weithio gyda Scottish Power Energy Network, ac wedi gwneud gwaith ymarferoldeb a thechnegol arbenigol i ddarparu argymhellion ynghylch sut y gellid lleoli gosodiadau ynni adnewyddadwy ychwanegol ar gyfer ynni gwynt a solar yng Nghonwy. Bydd hyn yn cefnogi darpariaeth y Cynllun Ynni Ardal Leol a dull gweithredu'r polisi CDLl Newydd. Cefnogwyd y canfyddiadau allweddol, y dull polisi a'r argymhellion polisi gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a Lle ym mis Awst, a chytunwyd arnynt gan y Cabinet ym mis Medi. Byddant yn awr yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i'w archwilio gan y cyhoedd a gynlluniwyd ar gyfer diwedd 2024.

### 1.3.8. Partneriaethau Bwyd Conwy

Mae Partneriaeth Bwyd Conwy wedi'i datblygu i ddod ag aelodau o'r gymuned, sefydliadau a busnesau at ei gilydd i helpu i adeiladu system fwyd leol gryfach. Mae nodau'r bartneriaeth yn cynnwys lleihau'r pellter mae bwyd yn ei deithio, gwneud bwyd iach a fforddiadwy yn fwy hygyrch, a rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl dyfu, prynu a choginio eu bwyd eu hunain. Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r bartneriaeth eisoes wedi cefnogi prosiectau amrywiol, megis prosiectau garddio cymunedol mewn ysgolion, sesiynau coginio a bwyta a gerddi cymunedol. Ym mis Gorffennaf gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer y rownd ddiweddaraf o gyllid i gefnogi gweithgareddau sy'n dod â chymunedau at ei gilydd trwy fwyd maethlon.

### 1.3.9. Gwelliannau Maes Parcio ar Bromenâd Llanfairfechan

Dechreuodd gwaith i adnewyddu maes parcio'r promenâd yn Llanfairfechan ym mis Medi. Bydd hyn yn cynnwys gwella draeniad, rhoi wyneb newydd, peintio llinellau, a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Bydd y maes parcio ar gau yn ystod dyddiau'r wythnos a bydd rhan o faes parcio Ffordd yr Orsaf hefyd ar gau er mwyn rhoi lle i'r contractwyr weithio. Bydd mynediad ar gael i fusnesau lleol ac ar hyd y promenâd i'r ddau gyfeiriad. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd yn amodol ar y tywydd.

### 1.3.10. Plannu Coed mewn Ardaloedd Trefol

Cyflwynwyd rhybudd o gynnig gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023 mewn perthynas â phlannu coed trefol yng Nghonwy, cytunwyd i gyfeirio'r cynnig i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a Lle ym mis Mai 2024. Cydnabu'r pwyllgor ein bod wedi ymrwymo i fioamrywiaeth, fodd bynnag ni fyddai'r costau sy'n gysylltiedig â phlannu coed yn ein galluogi i fwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Nodwyd pe bai cyfleoedd ariannu yn codi y byddem yn rhagweithiol. Collwyd y cynnig i gefnogi'r cynnig, ond gwnaeth y pwyllgor argymhelliad a gefnogwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024 i ystyried y rhybudd o gynnig mewn perthynas â phlannu coed mewn ardaloedd trefol wrth ailddatblygu'r cynllun Bioamrywiaeth 3 blynedd newydd.

# 2. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi

Mesurau: Gwyrdd: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 2.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae cynnydd sylweddol yn nifer y busnesau a gefnogwyd gyda chyngor a chymorth yng nghanol y flwyddyn (1,244) o gymharu â'r un cyfnod yn 2023 i 2024. Yn ystod y cyfnod cynhaliwyd cymorthfeydd pellach a gweminar ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Cyfarfuom hefyd â nifer o fusnesau yn ardal Bae Cinmel i drafod cyllid a meysydd cymorth eraill. Yn ogystal, cynhaliom nifer o ddigwyddiadau partner.

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd cadarnhaol yn nifer yr ymwelwyr â Chonwy yn ystod misoedd y Gaeaf (Hydref i Chwefror), gan godi o 1,033,580 i 1,070,000.

### Mesurau bob dwy flynedd

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2022 i 2023 | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o fusnesau a gefnogwyd trwy gyngor a chymorth - **cyfrif yn unig** | 1,978 | 658 | 1,939 | 1,244 |

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer o fusnesau a gefnogwyd gyda grantiau - **cyfrif yn unig** | 59 | 57 |
| Canran o unedau yn ein portffolio unedau diwydiannol wedi'i meddiannu - **meincnodi'n lleol**<br>**Targed 85%** | 91%<br>Coch<br>Gwaeth | 96%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer o ymwelwyr i Gonwy yn ystod misoedd y gaeaf (Hydref i Chwefror) – **cyfrif yn unig** | 1,033,580 | 1,070,000 |

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer yr ymholiadau i'r tîm gwybodaeth a llyfrgelloedd - **meincnodi'n lleol**<br>**Targed 100,000** | 96,820<br>Amherthnasol<br>Blwyddyn sylfaen | 110,280<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer y camau gweithredu yn y cynllun cyflawni Strategaeth Creu Conwy a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn - **meincnodi'n lleol**<br>**Targed 15** | 9<br>Amherthnasol<br>Blwyddyn sylfaen | 16<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Cyfanswm y cyllid allanol a ddenwyd a rheolwyd gan ein timoedd i gefnogi adfywiad ac adferiad - **cyfrif yn unig** | £44 miliwn | £41.3 miliwn |
| Lefel y cyllid allanol ar gyfer y celfyddydau a threftadaeth wedi'i sicrhau gennym - **cyfrif yn unig** | £1.33 miliwn | £1.38 miliwn |
| Nifer y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn: Gweithgareddau celfyddydau creadigol, treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, Venue Cymru, Theatr Colwyn yn ystod y flwyddyn - **cyfrif yn unig** | 36,974 | 251,985 |

## 2.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae saith cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae un wedi'i gwblhau a'r chwech arall ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu economi'r nos a chynnig twristiaeth dros fisoedd y gaeaf, gan wneud Conwy yn gyrchfan i ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn a chefnogi adfywio cymunedol ar draws y sir. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r holl waith ymgysylltu â Budd-ddeiliaid perthnasol bellach wedi'i gwblhau ar gyfer yr Astudiaeth Ddichonoldeb i wella'r economi gyda'r nos. Mae'r adroddiad drafft yn cael ei adolygu i nodi camau gweithredu allweddol y gellir eu symud ymlaen.<br>Cwblhawyd Cam 1 o gynhyrchu ein hymgyrch marchnata twristiaeth gaeaf ddiwedd mis Chwefror 2024. Mae Cam 2 ar y gweill, gyda gweithgaredd yn rhedeg trwy fis Medi i fis Rhagfyr 2024. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Creu’r amgylchedd iawn i gefnogi twf a denu busnesau newydd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ceisiadau terfynol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael eu hadolygu i'w cymeradwyo, a fydd yn arwain at ymrwymo arian yn llawn.  Mae tua 85 o fusnesau yn cael cymorth gyda chyfanswm o tua £3 miliwn.<br>Mae diddordeb sylweddol hefyd yn parhau yng ngrant Cefnogi Busnes Conwy.<br>Mae gwaith y Fforwm Busnesau yn parhau mewn trefi allweddol. Bellach mae gan y Fforwm Busnes ym Mae Colwyn 81 o fusnesau wedi'u cofrestru.<br>Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid allweddol i dynnu sylw at ystod o gefnogaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau partner, dosbarthu gwybodaeth trwy newyddlenni, cefnogi a phartneru ar ddigwyddiadau.<br>Mae gwaith ar Strategaeth Fuddsoddi Sirol ar y gweill ond mae pwysau gwaith yn achosi oedi. |
| Gweithio gyda’n partneriaid yn y sector gyhoeddus i adfywio canol ein trefi ar draws y sir er mwyn ysgogi twf a chreu trefi bywiog ‘gwyrdd’. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Er gwaethaf yr adnoddau bach sydd ar gael, rydym wedi cefnogi sawl prosiect canol tref ar draws y sir trwy grantiau Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi, Grantiau Datblygu Eiddo Masnachol, Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a hefyd Pethau Pwysig Croeso Cymru.<br>Rydym hefyd yn gweithio i wneud y mwyaf o unrhyw gyfleoedd am gyllid a ddaw gyda chyllid lliniaru llifogydd y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol. |
| Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu er mwyn cael golwg hirdymor ar ein hymrwymiadau cyfalaf. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Trwy gyfleoedd ariannu rydym wedi gallu cyflawni rhai prosiectau allweddol:<br>• Mae prosiectau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yr ymgymerwyd â hwy yn cynnwys - gwella mannau chwarae, gwelliannau i byllau padlo ac ail-wynebu'r trac athletau.<br>• Mae grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru wedi galluogi gwaith yn Llyfrgell Bae Colwyn. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu ein Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy a'n Strategaeth Wybodaeth a Llyfrgelloedd, gan wneud y defnydd gorau o'n hasedau diwylliannol er mwyn gwella adferiad economaidd a lles cymunedol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac arian cyfatebol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (Pethau Pwysig) a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth. Mae hyn wedi cynnwys:<br>• Llenwi: Prosiect Arwyddion Cyrchfan. Gweithdai dan arweiniad artistiaid mewn lleoliadau cymunedol ac mewn 5 ysgol a chyfle i gyfrannu syniadau ar-lein.<br>• Creu Conwy Ifanc. Cyflwyno sesiynau dan arweiniad artistiaid yn barhaus i blant a phobl ifanc.  Roedd cyfanswm o 577 o bresenoldebau rhwng Ebrill a Medi.<br>• Taith: Siwrneiau creadigol tuag at les. Mae prosiect partneriaeth gyda Mind Conwy a'n tîm Lles Meddyliol wedi cryfhau ein cynnig Celfyddydau mewn Iechyd a Phresgripsiynu Cymdeithasol. Cofnodwyd 261 o bresenoldebau. Pecyn adnoddau yn cael ei gwblhau i gefnogi canlyniadau cynaliadwy yn y dyfodol.<br>• Creu Conwy Cymunedol: Cynnig blociau o sesiynau dan arweiniad artistiaid mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol i gyrraedd buddiolwyr targed.  Roedd y ddarpariaeth yn cynnwys cyfnewid dawns a diwylliannol ar gyfer grŵp ffoaduriaid o Wcrain; sesiynau celf weledol ar gyfer grŵp anabledd dysgu; a sesiynau pontio'r cenedlaethau rhwng ysgol a chartref gofal.<br>• Mae Oriel Colwyn yn parhau i gyflwyno rhaglen o arddangosfeydd ffotograffiaeth, a digwyddiadau Talk Photo bob pythefnos gyda dros 1200 yn cymryd rhan rhwng Ebrill a Medi. |
| Archwilio cyfleoedd i arallgyfeirio ein heconomi o ganlyniad i'n profiadau o'r pandemig. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gwaith ar Strategaeth Fuddsoddi Sirol ar y gweill ond mae pwysau gwaith yn achosi oedi.<br>Mae'r Fforymau Ardal Lleol a'r Byrddau Adfywio wedi cael eu huno a byddwn yn parhau i'w cefnogi. |

## 2.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 2.3.1. Strategaeth Twf Economaidd

Derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle ym mis Ebrill y diweddaraf ar gyflawni yn erbyn Strategaeth Twf Economaidd Conwy. Roedd y strategaeth wedi'i chymeradwyo yn 2017 ac yn rhoi gweledigaeth 10 mlynedd glir ar gyfer twf a ffyniant. Fodd bynnag, wrth gwrs, ers hynny mae nifer o ddigwyddiadau arwyddocaol wedi effeithio ar economïau rhyngwladol. Serch hynny, adroddwyd bod 76% o'n rhaglen wedi'i chwblhau. Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad manylach o gynnydd yn erbyn pob un o'r 13 uchelgais yn y strategaeth.

### 2.3.2. Bargen Dwf Gogledd Cymru

Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ddiweddariad rheolaidd ar Fargen Dwf Gogledd Cymru yn ei gyfarfod ym mis Ebrill. Roedd yr adroddiad yn nodi bod yr Achosion Busnes amlinellol ar gyfer y Rhwydwaith Talent Twristiaeth, Gwaith Treulio Anaerobig Glannau Dyfrdwy, a phrosiectau Egni wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd. Cymeradwyodd y Bwrdd hefyd yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Canolfan Peirianneg Menter ac Optig. Adroddwyd bod tri phrosiect yn goch oherwydd naill ai risgiau i gwmpas y prosiect neu oedi sylweddol i amserlenni prosiectau:

- Cysylltu'r % diwethaf
- Canolfan Economi Gwledig Glynllifon.
- Porth y Gorllewin, Wrecsam

### 2.3.3. Adfywio

Mae gwaith adnewyddu gwerth £330,000 ar drac athletau Stadiwm CSM ym Mharc Eirias wedi'i gwblhau diolch i Grant Cronfa Allweddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Mae'r trac rhedeg wedi cael wyneb hollol newydd, gan gynnwys is-strwythur a haen uchaf newydd. Mae mannau neidio'r trac, gan gynnwys y pwll traws gwlad, hefyd wedi cael eu hadnewyddu. Mae'r trac rhedeg yn Eirias yn ased cymunedol allweddol, sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan ysgolion a chlybiau athletau, ac roedd wedi bod yn hen bryd ar gyfer buddsoddi i ddiogelu'r cyfleuster hanesyddol hwn am y blynyddoedd i ddod.

Gobeithir bydd y cyfleuster ar ei newydd wedd yn sbardun ar gyfer twf pellach mewn cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol a llythrennedd corfforol i bobl ifanc ledled y rhanbarth, yn ogystal â gweld cystadlaethau athletau trwyddedig yn dychwelyd. Gwnaed y gwaith adnewyddu gan Hunts Contractors Ltd., a'r ymgynghorydd caeau chwaraeon oedd Surfacing Standards Ltd.  Mae’r trac ar gael i holl aelodau Ffit Conwy ac mae’n bosib ei archebu ochr yn ochr â’r amrywiaeth eang o gyfarpar a chyfleusterau sydd ar gael. Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiectau llwyddiannus ar ein gwefan: Cronfa Allweddol Adfywio Cymunedol.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Ebrill, cadarnhaodd y Cabinet ym mis Mai y byddai Rhaglenni Adfywio Trefi yn cau a'u huno i Fforymau Ardal priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi dyblygu gwaith i swyddogion, a chytunwyd y byddai'r strwythur a'r fframwaith o amgylch y Fforymau Ardal yn cael eu hadolygu.

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, cefnogodd y Cabinet newidiadau i ddyluniad cysyniad Adroddiad Ymgynghori Rheoli Traffig, Parcio a Strydlun Canol Tref Bae Colwyn i alluogi'r prosiect i symud ymlaen i'r cam dylunio manwl.  Cynhelir ymgynghoriad pellach gyda'r Fforwm Ardal ar y dyluniadau hyn cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Cabinet. Roedd yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn gynharach ym mis Ebrill.

### 2.3.4. Cyllid Llywodraeth y DU

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, buom yn llwyddiannus wrth sicrhau £10 miliwn o gyllid gan Lywodraeth y DU i ddarparu cyfleusterau gwell yn Venue Cymru. Ym mis Gorffennaf, gofynnwyd i'r Cabinet gefnogi cynigion ar gyfer y safle, a chyflwyno achos busnes manwl i gael mynediad at yr arian.  Mae Venue Cymru yn croesawu ymwelwyr o bob rhan o’r Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol bob blwyddyn, gan ddarparu dros £30m o fudd economaidd i fusnesau lleol, yn ogystal â chynnig amrywiaeth gyffrous ac amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol i ymwelwyr a’n cymuned leol. Mae Venue Cymru’n croesawu ymwelwyr o’r DU ac yn rhyngwladol bob blwyddyn, gan ddarparu dros £30 miliwn mewn budd economaidd i fusnesau lleol, yn ogystal â chynnig ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol cyffrous i ymwelwyr a’r gymuned leol.

Rhoddodd y Cabinet eu cymeradwyaeth i ymgynghori â'r cyhoedd ar y posibilrwydd o symud y llyfrgell ardal i'r adeilad. Lansiwyd yr ymgynghoriad ym mis Awst am chwe wythnos, gan ddod i ben ar 23 Medi.

Fodd bynnag, yn dilyn Cyllideb yr Hydref 2024, cadarnhawyd bod Gweinidogion wedi adolygu'r cyllid ar gyfer prosiectau diwylliant a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Gwanwyn 2024 a'u bod yn bwriadu tynnu'r cyllid yn ôl, gan gynnwys y £10m a ddyrannwyd ar gyfer Venue Cymru. Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi cynnal ymarfer ymgynghori, yr ydym wedi bod yn ymwneud yn llawn ag ef, i sefydlu a ddylid gwneud unrhyw eithriadau. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i archwilio llwybrau ariannu posibl, wrth inni aros am ganlyniad y broses ymgynghori.

Darparwyd diweddariad ar ganlyniadau ac allbynnau prosiectau a ariennir drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Mai. Mae 31 o brosiectau ar waith yng Nghonwy a thros £23 miliwn wedi'i ddyrannu i wneud gwahaniaeth gweladwy mewn cymunedau a busnesau ym mhob rhan o'r sir. Er bod yr adroddiad yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran canlyniadau ac allbynnau, mae llawer eto i'w gwireddu gan ein bod yn dal yn y cyfnod cyflawni cynnar iawn. Nododd yr adroddiad hefyd ein bod wedi arwain ar dair Cronfa Allweddol Conwy gyda dros £6.6 miliwn yn cael ei ddyrannu er budd 99 o brosiectau. Cafodd y gwaith ardderchog a wnaed gan y swyddogion mewn perthynas â cheisiadau am gyllid ei gydnabod gan y pwyllgor.

### 2.3.5. Datblygu Cymunedol

Mae ein tîm Datblygu Economaidd wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU ar gyfer ein prosiect Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned. Nod y prosiect yw rhoi cyfle i grwpiau lleol wneud cais am arian refeniw ar gyfer gweithgareddau, digwyddiadau, adnoddau, prosiectau, astudiaethau dichonoldeb, a mynediad i hyfforddiant a fydd o fudd. Gall ymgeiswyr wneud cais am uchafswm o £10,000 o gyllid refeniw sy'n gorfod ceisio mynd i'r afael ag un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- Galluogi cyrff eraill i ddarparu gwasanaethau anstatudol.
- Goresgyn costau byw.
- Argyfwng newid hinsawdd.
- Mynediad digidol (corfforol a thrwy sgiliau cymunedol).
- Darparu mynediad at gludiant.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y dudalen Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned ar y wefan.

### 2.3.6. Digwyddiadau Diwylliannol Lleol

Cynhaliodd Tramffordd y Gogarth ei phumed penwythnos cymunedol blynyddol ym mis Medi, gan gynnig tocynnau am hanner y pris i drigolion Sir Conwy. Bob blwyddyn, mae'r atyniad arobryn yn cludo tua 200,000 o ymwelwyr o bob rhan o'r byd i Gopa'r Gogarth. A hithau'n dathlu ei phen-blwydd yn 122, y dramffordd yw'r unig dramffordd sy'n cael ei thynnu gan gebl yn y Deyrnas Unedig sy'n rhedeg ar ffordd gyhoeddus, ac yn un o dri yn unig sydd ar ôl yn y byd.

Yn ystod mis Mehefin, croesawodd y Sir gymal agoriadol Merched Taith Prydain 2024 o'r Trallwng i Landudno, gyda gorffeniad ysblennydd ar y promenâd. Yn ystod y digwyddiad, bu prif feicwyr y byd yn mynd i'r afael â rhai o ffyrdd a dringfeydd mwyaf eiconig Cymru, gyda miloedd ar y strydoedd i groesawu'r ras. Roedd gweithgareddau ar gael ar y promenâd drwy'r prynhawn, ac er diogelwch y beicwyr roedd nifer fach o ffyrdd ar gau a chyfyngiadau parcio ar waith ar hyd y llwybr, gyda mynediad yn cael ei gynnal cyhyd â phosibl ar gyfer trigolion a busnesau. Mae digwyddiadau mawr fel hyn yn cefnogi ein heconomi leol ac yn arddangos Conwy fel cyrchfan i'r byd ehangach.

### 2.3.7. Cefnogaeth gyda Chyflogaeth

Ym mis Ebrill, ymwelodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru â'r Clwb Ieuenctid yn Llandudno. Roedd yn gyfle da i bobl ifanc ofyn cwestiynau a chael gwybod am yrfa yn y gwasanaeth tân, yn ogystal â darparu gwybodaeth bwysig ar atal tâl a diogelwch tân. Cymerodd tri deg wyth o bobl ifanc ran ac roeddent yn ymgysylltu'n fawr.

Ym mis Mehefin, fe wnaethom gynnal Arddangosfa Swyddi yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy, a oedd yn canolbwyntio ar swyddi gwag gofal cymdeithasol mewn cyfleusterau gofal lleol. Cynhaliwyd sesiwn galw heibio hefyd ar y stryd fawr yn Llandudno yn ystod mis Gorffennaf ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn dilyn gyrfa werth chweil mewn gofal cymdeithasol. Roedd ein mentor Cyflogaeth Gofal Cymdeithasol wrth law yn y ddau ddigwyddiad i ateb unrhyw gwestiynau a rhoi cymorth a chyngor gyda ffurflenni cais a'r broses recriwtio.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023 i 2024 ar Gyflogadwyedd a Sgiliau, a oedd yn cydnabod yr amrywiaeth ardderchog o wasanaethau a gynigir drwy ein Gwasanaeth Cyflogaeth. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 444 o bobl gymorth gan y gwasanaeth, gyda 189 o'r rheiny'n mynd i gyflogaeth gynaliadwy. Cynhaliom ein trydydd Arddangosfa Swyddi ym

Mae Colwyn ble daeth dros 1000 o bobl i gael gwybodaeth a chyngor ar hyfforddiant, prentisiaethau, cymorth cyflogaeth neu waith. Llwyddwyd i ddenu cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU i gyflawni ein prosiect Llwybrau at Gyflogaeth. Mae'r cyrsiau a gyflwynwyd hyd yn hyn yn cynnwys adeiladu modiwlaidd, adeiladu, diogelwch, teledu cylch caeëdig, a Dechrau Busnes ar gyfer Hunangyflogaeth. Roedd 269 o bobl wedi cwblhau cyrsiau'n llwyddiannus, gyda 99 o bobl yn ennill cymhwyster, 68 o bobl yn dechrau cyflogaeth, a 104 yn nodi bod rhwystrau i waith wedi lleihau. Gan ei fod yn ddibynnol ar arian grant, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau ffynonellau refeniw newydd er mwyn parhau â'r gwaith rhagorol a wneir gan y tîm.

### 2.3.8. Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, ym mis Ebrill lansiwyd ein Cynllun Gwarantu Cyfweliad newydd, sy'n cael ei ddarparu gan ein Canolbwynt Cyflogaeth. Nod y cynllun yw bod o fudd i gyflogwyr drwy warantu y bydd ymgeiswyr yn addas ar gyfer y swyddi y maent yn eu hysbysebu. Mae'r cynllun wedi'i greu i gynyddu hyder ymysg rhai sy'n edrych am waith a symleiddio'r broses ymgeisio i gwmnïau sy'n dymuno penodi staff. Rydym wedi cael adborth cadarnhaol iawn hyd yn hyn gyda rhai cwmnïau lleol gwych yn ymuno o amrywiaeth o ddiwydiannau. Rydym yn annog cymaint o gyflogwyr â phosib i gysylltu a chymryd mantais o'r cyfle hwn, beth bynnag fo maint y busnes neu sefydliad. I gael rhagor o wybodaeth e-bostiwch cyflogwyr@conwy.gov.uk, neu ewch i wefan Canolbwynt Cyflogaeth Conwy.

### 2.3.9. Prosiect Llenwi Creu Conwy

Mae ein Prosiect Llenwi (a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU), yn brosiect newydd gan Creu Conwy a fydd yn creu ac yn gosod arwyddion cyrchfan sy'n cynnwys gwaith celf ar raddfa fawr ledled Sir Conwy. Arweinir y prosiect gan yr artist realiti estynedig lleol, Livi Wilmore ac un sy'n creu arwyddion traddodiadol, Tomos Jones. Byddant yn cydweithio ac yn cynnal gweithdai creadigol fel y gall cymunedau ysbrydoli'r gwaith celf a'r arwyddion terfynol. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar yr ardaloedd yma: Abergele, Bae Colwyn, Llandudno, Conwy a Llanrwst. Fel rhan o'r cyfnod ymchwil, mae'r artistiaid yn gobeithio dod i adnabod pob ardal a chasglu straeon, dywediadau, ymadroddion, atgofion, lluniau, ac unrhyw beth arall am yr ardaloedd hyn. Does dim cyfyngiad ar beth yr hyn y gellir ei gasglu, na sut y caiff ei gyflwyno. Ewch i wefan Diwylliant Conwy i gymryd rhan.

### 2.3.10. Archwilio Cymru:  Datblygu Cynaliadwy

Yn gynharach yn y flwyddyn, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad cenedlaethol o dir llwyd ac adeiladau gwag, a ddaeth i'r casgliad, er gwaethaf llawer o ddatblygiadau tir llwyd yn cael eu cyflawni gan gynghorau, y gellid cynyddu adfywio'n sylweddol gyda dull mwy systematig, ymyraethol a chydweithredol gan gynghorau.  Targedodd Archwilio Cymru eu gwaith maes ar wyth cyngor, ac er nad oeddem yn un o'r awdurdodau a ddewiswyd, darparwyd tystiolaeth ddogfennol gennym i gefnogi'r adolygiad hwn.  Rhannwyd yr adroddiad terfynol â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, ac rydym wedi nodi camau gweithredu i ymateb i'r tri argymhelliad a wnaed i gynghorau. Bydd y rhain yn cael eu monitro drwy ein proses reoleiddio.

### 2.3.11. Cronfa'r Degwm

Rydym yn gweinyddu Cronfa'r Degwm, sef cronfa sy'n gallu cynnig cymorth ariannol at wahanol ddibenion elusennol, gan gynnwys lleddfu tlodi; hyrwyddo crefydd; materion esthetig, pensaernïol, hanesyddol a gwyddonol; achosion cymdeithasol a hamdden; neu argyfyngau a thrychinebau. Yn y gorffennol, mae ceisiadau wedi eu cyflwyno gan grwpiau cymunedol, corau, amgueddfeydd, Eisteddfodau a grwpiau eglwysig. Mae'r grantiau fel arfer yn amrywio rhwng £50 a £1,000. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalen Cronfa'r Degwm ar ein gwefan. Am ymholiadau pellach a ffurflenni cais, cysylltwch â welshchurchactsfund@conwy.gov.uk.

### 2.3.12. Harbwr Conwy

Yn dilyn argymhelliad gan Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Conwy, cytunodd y Cabinet ym mis Mai i ymchwilio i opsiynau ariannu i osod Wi-Fi ar y Cei, ynghyd â chamera byw i ddefnyddwyr.  Fodd bynnag, er yn gwerthfawrogi'r gwerth y byddai'r buddsoddiad hwn yn ei ychwanegu, pwysleisiwyd na ddylai hyn fod yn flaenoriaeth ar unwaith gan fod swyddogion eisoes wedi ymrwymo i weithio ar brosiectau eraill. Bydd yn cael ei symud ymlaen fel y bydd llwythi gwaith yn caniatáu.

### 2.3.13. Gigs y Gaeaf a Chyfleoedd Gwirfoddoli

Ym mis Medi fe wnaethom gyhoeddi dechrau Gigs y Gaeaf, sef cyfres o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw o amgylch y sir (yn dechrau ym mis Hydref) gyda chyfleoedd i bobl gymryd rhan drwy wirfoddoli.  Bydd amrywiaeth o gyfleoedd ar gael, o stiwardio digwyddiadau roi cefnogaeth cefn llwyfan.

# 3. Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 3.1 Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae cyfanswm nifer yr ymweliadau â 'HwB' (Platfform Dysgu Cymru gyfan a ddefnyddir gan ysgolion) wedi cynyddu 20% i 1.128.813 o drawiadau yn ystod 2023 i 2024. Rydym yn defnyddio HwB yn fwy ar gyfer gwahanol wasanaethau a bydd hyn yn cynyddu ymhellach dros y nesaf 12 mis wrth iddo ehangu ymhellach.

Canran y bobl ifanc sy'n teimlo eu bod wedi cael eu hannog i fyw bywyd mwy iach ar ôl cymryd rhan yn ein gweithgareddau ieuenctid yn parhau ar 89%.

Bu gwelliant bychan yng nghanran y disgyblion cynradd sy'n mynychu'r ysgol, i fyny o 91.5% i 91.7%.  Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i sicrhau bod gweithdrefnau presenoldeb cadarn yn cael eu rhoi ar waith.

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Canran ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant - **cyfrif yn unig** | 1.3% | 2.0% |
| Cyfanswm ymweliadau i 'HwB' - y Platfform Dysgu Cymru Gyfan - **cyfrif yn unig** | 940,334 | 1,128,813 |
| Canran y lleoliadau addysgol sy'n cymryd rhan mewn arolygon lles - **meincnodi yn lleol**<br>**Targed 100%** | 47%<br>Amherthnasol<br>Newydd | 100%<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Canran y bobl ifanc sy'n teimlo eu bod wedi cael eu hannog i fyw bywyd mwy iach ar ôl cymryd rhan yn ein gweithgareddau ieuenctid - **cyfrif yn unig** | 89% | 89% |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd – **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 95%** | 91.5%<br>Amherthnasol<br>Covid-19 | 91.7%<br>Coch<br>Gwell |

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd – **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 94.5%** | 87.3%<br>Amherthnasol<br>Covid-19 | 86.6%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran y disgyblion sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar gyfrifiad ysgol) - **cyfrif yn unig** | 23% | 22% |
| Canran y disgyblion meithrin a derbyn sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - **cyfrif yn unig** | 29% | 29% |
| Canran y disgyblion oedran cynradd sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - **cyfrif yn unig** | 25% | 25% |
| Canran y disgyblion oedran uwchradd sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg (yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - **cyfrif yn unig** | 20% | 20% |
| Canran o athrawon mewn ysgolion yng Nghonwy sydd â gallu Cymraeg lefel uwch neu fwy (fel y casglwyd fel rhan o gasgliad gweithlu'r ysgol) - **cyfrif yn unig** | 50% | 50% |

## 3.2 Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae yna wyth o gamau gweithredu wedi'u rhestru o fewn y flaenoriaeth hon yn y Cynllun Corfforaethol, mae 1 wedi'i gwblhau ac mae 7 ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cefnogi ysgolion i weithredu Cwricwlwm i Gymru. | Wedi'i gwblhau | Yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru, mae pob ysgol bellach wedi gweithredu Cwricwlwm i Gymru.<br>Mae cefnogaeth benodol yn parhau i fodoli ar gyfer ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddylunio, cynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cefnogi plant a phobl ifanc i wella neu reoli eu Hiechyd Meddwl a'u Lles. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Conwy yn cefnogi ysgolion i roi canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Dull Ysgol Gyfan (DYG) at Les Meddyliol ar waith.<br>Mae holl ysgolion Conwy wedi penodi arweinwyr lles; fodd bynnag, mae pwysau cynyddol ar ysgolion wedi ei gwneud yn heriol i staff fynychu cyfarfodydd rhwydwaith a sesiynau hyfforddi.<br>I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi recriwtio Swyddog Datblygu Iechyd a Lles newydd, a fydd yn gweithio gydag ysgolion i sefydlu strwythurau mwy lleol a chynaliadwy ym mhob clwstwr. Bydd y rôl hon hefyd yn cefnogi gweithredu a dadansoddi arolygon lles a gynhelir gyda dysgwyr, gan alluogi ysgolion a'r awdurdod lleol i nodi anghenion newidiol ein dysgwyr, rhoi ymyriadau mwy effeithiol ar waith, a monitro eu heffaith. |
| Cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael mynediad at addysg a gweithgareddau yn y gymuned. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Dim diweddariad pellach |
| Gweithio gydag ysgolion i ddarparu rhaglen sy'n gwella sgiliau digidol dysgwyr. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae strategaeth ddigidol Conwy wedi'i hadolygu ar gyfer 2024/25 bellach yn cael ei rhannu ag ysgolion. Gweithredwyd y dyraniad diweddaraf o grant HwB yn llwyddiannus. Nid ydym wedi gorfod defnyddio'r achos busnes refeniw, a bydd hyn yn sicrhau sicrwydd cyllid hirdymor gan ysgolion.<br>Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd budd-ddeiliaid gyda Llywodraeth Cymru.<br>Rydym yn parhau i aros am gynlluniau i weld sut y bydd gwaith yn y dyfodol ochr yn ochr â chonsortia rhanbarthol o ran y Cynllun Strategol Addysg TG yn sicrhau bod ysgolion yn gwella eu set sgiliau athrawon i sicrhau safonau cymhwysedd TG ymhlith staff a disgyblion. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r holl ddysgwyr ag ADY i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial yn llawn. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod ar y trywydd iawn i drosglwyddo pob dysgwr o fewn y cyfnod trosglwyddo (Awst 31, 2025). Yn dilyn cadarnhau a gwirio data Ystadegau mis Medi, cynhelir archwiliad o gynnydd ysgolion a'r camau a gymerwyd i gefnogi'r cyfnodau terfynol lle bo angen. Mae'r Fframwaith Monitro arfaethedig wedi'i ddatblygu ymhellach a disgwylir iddo gael ei rannu ym mis Tachwedd 2024. |
| Sicrhau bod gan bobl ifanc ymwybyddiaeth dda o gyfleoedd cyflogaeth a'r sgiliau priodol i gael mynediad at y byd gwaith. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Prosiect Cymunedau am Waith a Mwy: Mae ein tîm o swyddogion ymgysylltu â chyflogwyr yn sicrhau bod unrhyw hyfforddiant yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion cyflogwyr, yn ogystal â hyrwyddo diwydiannau twf a chyfleoedd i'n pobl ifanc. Rydym wedi cefnogi 38 o bobl ifanc (20-24 oed) i gyflogaeth gynaliadwy (16 awr yr wythnos a mwy) ers mis Ebrill.<br><br>Mae'r Prosiect Llwybrau at Gyflogaeth, sy'n cael ei ariannu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cefnogi 119 o bobl ifanc 16+ oed sydd wedi cofrestru ar gyrsiau, ac enillodd 67 ohonynt gymhwyster. Enillodd llawer o'r rhain gymwysterau lluosog gyda chyfanswm o 189 o gymwysterau.<br><br>Mae'r prosiect ymgysylltu â phobl ifanc (a ariennir drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin) wedi ymgysylltu â 128 o bobl ifanc 16+ oed. Gwneir hyn trwy gefnogaeth un-i-un a gwaith grŵp i wella hyder, gwytnwch, lles, byw'n annibynnol, sgiliau cyflogadwyedd, a'u paratoi ar gyfer byd gwaith.<br><br>Mae Canolbwynt Cyflogaeth Conwy yn parhau i gynnal ffeiriau swyddi misol llai ar draws y Sir i bobl o unrhyw oedran, ac mae'r rhain wedi parhau i gael ymgysylltiad a phresenoldeb da. Mae ymwybyddiaeth yn parhau i gael ei godi trwy'r nodwedd cyflogadwyedd wythnosol ar radio Sound FM sydd â chyrhaeddiad eang i bawb, ac sy'n cynnwys darparwyr busnes a hyfforddiant sy'n amlygu swyddi gwag a chyfleoedd yn lleol ac yn rhanbarthol. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Hyrwyddo a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ymhellach gan annog plant a phobl ifanc i fod yn falch o'r Gymraeg, ei threftadaeth a diwylliant. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn parhau i weithio ar ein cynllun strategol 10 mlynedd a gweithio gyda'n clystyrau o ysgolion. Mae'r meysydd presennol i'w datblygu yn ystod y flwyddyn academaidd hon fel a ganlyn:<br>• Datblygu darpariaeth Cylch Chwarae Cymraeg trwy Plethu Croesi'r Bont mewn ychydig o leoliadau i gefnogi ysgolion categori T2 Cymraeg ar eu taith.<br>• Cefnogi'r holl ysgolion Cymraeg categori T2 ymhellach i sicrhau bod eu darpariaeth Gymraeg ar darged ar gyfer 50% o'r cwricwlwm. Sicrhau bod marchnata a chyfathrebu â budd-ddeiliaid yn dryloyw. Defnyddio budd-ddeiliaid allanol (Yr Urdd/Menter Iaith) i wella darpariaeth achlysurol.<br>• Cefnogi ychydig o ysgolion ar hyd y Continwwm Iaith e.e. rhai yn symud o gategori iaith Gymraeg T2 i T3 mewn dosbarthiadau babanod.<br>• Cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i wella eu hethos a'u diwylliant Cymreig.<br>• Gwella mynediad i staff traws-sector i ddysgu Cymraeg.<br>• Cynllunio'n strategol i wella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ar lefel uwchradd. |
| Gweithredu'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel bod amgylcheddau dysgu yn addas i'r diben yn cynnwys canolbwyntio ar leihau carbon ac ynni adnewyddadwy. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r cynllun amlinellol strategol newydd bellach wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru a'n Cabinet. Mae hwn yn rhoi arweiniad clir ar y seilwaith a'n datblygiad asedau ar gyfer y 9 mlynedd nesaf. Bydd ysgolion newydd yn y rhaglen yn darparu canolfannau addysgol hirdymor i blant ac yn darparu canolbwyntiau cymunedol lle bo'n briodol. Bydd gwaith adnewyddu a phrosiectau ailfodelu yn ymestyn bywyd yr adeiladau presennol ym Mhortffolio'r Ystâd Addysg ac yn lleihau ôl-troed carbon unrhyw ysgol a fydd yn cymryd rhan, gan sicrhau budd hirdymor. Rhagwelir y bydd y rhaglen yn defnyddio mwy ar adeiladau'r ysgol y tu allan i oriau addysgu, gan greu cyfleusterau cymunedol gwerthfawr. |

## 3.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a’r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r flaenoriaeth hon.

### 3.3.1. Estyn: Arolwg Awdurdod Lleol

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, yn dilyn arolwg ym mis Tachwedd 2023, roeddem yn falch iawn o gael adroddiad cadarnhaol gan Arolygwyr Estyn. Darganfyddiadau’r adroddiad oedd: ein bod yn cynnig cefnogaeth gadarn i wella safon addysgu ac arweinyddiaeth yn ein hysgolion a lleoliadau; ein bod yn gweithio’n dda gyda gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i ddarparu ystod briodol o gefnogaeth unigryw ac wedi’i dargedu i arweinwyr a staff; bod gan arweinwyr ysgol ddealltwriaeth dda o sut i gael mynediad at gefnogaeth arbenigol awdurdod lleol a chroesawu cyngor ac arweiniad amserol gan swyddogion; mae diwylliant effeithiol sydd wedi’i sefydlu’n dda o weithio ar draws gwasanaethau ac mae’r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghanolfannau Teuluoedd Conwy yn dystiolaeth o hynny; a bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu ystod eang o weithgareddau sydd o fudd i bobl ifanc. Cododd dau argymhelliad o’r arolwg:

1. Gwella prosesau i wella presenoldeb yn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yr awdurdod.
2. Gwella dulliau sy’n mynd i’r afael â gwella cynllunio a sicrhau bod monitro a gwerthuso parhaus yn canolbwyntio ar effaith gwaith yr awdurdod lleol ar ddeilliannau a chynnydd dysgwyr.

Ystyriwyd yr adroddiad terfynol a'r cynllun gweithredu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mai. Gellir darllen yr adroddiad terfynol ar wefan Estyn.

### 3.3.2. Gwobrau Addysgu

Cafodd dau athro o Gonwy eu cydnabod yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Roeddem yn falch bod Dr Gareth Evans o Ysgol y Creuddyn, Llandudno, wedi’i enwi’n Athro’r Flwyddyn mewn Ysgol Uwchradd; ac Amy Grimwald o Ysgol Aberconwy, Conwy, a enillodd Wobr Betty Campbell (MBE) am hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

### 3.3.3. Sialens Ddarllen yr Haf

Unwaith eto cymerodd Llyfrgelloedd Conwy ran yn Sialens Ddarllen yr Haf. Dechreuodd Sialens Ddarllen yr Haf 'Crefftwyr Campus' eleni ar 6 Gorffennaf 2024 ac fe'i cyflwynwyd mewn partneriaeth â Create, elusen gelfyddydol flaenllaw. Gofynnwyd i'r plant ddarllen 6 llyfr (neu fwy!) cyn diwedd yr haf, a rhoddwyd poster casglwr arbennig iddynt wrth ymuno, sticeri pan fyddant yn ymweld â'r llyfrgell am ragor o lyfrau, a thystysgrif a gwobr ar ôl cwblhau'r her. Cawsant eu hannog hefyd i archwilio llyfrau a straeon newydd yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau am ddim, o gelf a chrefft i gerddoriaeth, dawns a mwy. Mae Sialens Ddarllen yr Haf yn anelu at atal dirywiad yn lefelau dysgu plant dros y gwyliau pan nad yw'r ysgol ar agor. Gyda chefnogaeth llyfrgelloedd, mae'n cynnig ffordd hwyliog, am ddim o gadw meddyliau ifanc yn brysur. Ewch i: www.llyfrgelloeddconwy.com i ddarganfod yr holl weithgareddau teuluol sydd ar gael.

### 3.3.4. Grant Hanfodion Ysgol

Ym mis Mai fe wnaethom annog rhieni a gofalwyr cymwys i beidio â cholli allan ar Grant Hanfodion Ysgol Llywodraeth Cymru. Roedd 88% o'r rhai oedd yn gymwys eisoes wedi hawlio eu grant Hanfodion Ysgol am ddim i helpu gyda chostau fel gwisg ysgol, esgidiau, bagiau, cit chwaraeon, ac offer. Mae plant o deuluoedd sydd ar incymau is sy'n cael budd-dal penodol, y rhai sy'n ceisio lloches, a phlant mewn gofal yn gallu hawlio £125 y flwyddyn i helpu gyda chostau ysgol. Oherwydd y costau ychwanegol y gall teuluoedd eu hwynebu pan fydd eu plant yn dechrau mewn ysgol uwchradd, mae £200 ar gael i ddisgyblion cymwys a fydd yn dechrau ym mlwyddyn 7. Gallai hefyd olygu cyllid ychwanegol i ysgolion. I gael gwybod mwy am y Grant Hanfodion Ysgol ac i wirio cymhwysedd, ewch i: www.llyw.cymru/hawliwch-help-gyda-chostau-ysgol.

### 3.3.5. Cludiant Ysgol

Mae £6.8 miliwn yn cael ei wario'n flynyddol ar gludiant ysgol, hanner ohono'n ymwneud â darpariaeth ddewisol. Fel un o'n costau a dyfodd gyflymaf, daeth yn angenrheidiol i lansio adolygiad o wasanaethau, gydag ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn. Cawsom ymateb ardderchog i'r ymgynghoriad gyda sylwadau manwl a thra ystyriol yn cael eu darparu, ac rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gymryd rhan. Rhannwyd adborth o'r ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau ym mis Gorffennaf, gyda'r diwygiadau a ganlyn i ddarpariaeth ddewisol yn cael eu hargymell i'r polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol:

- Dileu’r ddarpariaeth cludiant  i ddysgwyr sy’n newid cyfeiriad yn ystod blynyddoedd arholiadau eu haddysg er mwyn eu galluogi i aros yn yr un ysgol.
- Gofyn am dystiolaeth o ffydd i ddarparu cludiant i ysgolion enwadol dros y pellter statudol.
- Cyfyngu'r ddarpariaeth cludiant i ddau breswylfa lle mae rhieni'n byw ar wahân i Fwrdeistref Sirol Conwy yn unig.
- Diwygio'r ddarpariaeth cludiant ôl-16 i'r sefydliad addysgol agosaf dros y pellter statudol.

Argymhellwyd hefyd y dylid adolygu'r ddarpariaeth cludiant ar gyfer disgyblion â chyflyrau meddygol, anghenion dysgu ychwanegol, neu am resymau penodol eraill, yn unol â'r polisi presennol.  Cymeradwyodd y Cabinet y newidiadau hyn yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Nid yw’r newidiadau hyn yn effeithio ar gludiant ysgol statudol, ond anogir dysgwyr sy’n gwneud cais am gludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol i ymgyfarwyddo â’r polisi wedi’i ddiweddaru ar ein gwefan, lle ceir hefyd rai atebion i gwestiynau cyffredin, a fydd, gobeithio, o gymorth.

Yn dilyn proses dendro, dyfarnodd y Cabinet gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau cludiant ysgol yn ei gyfarfod ym mis Awst.

Hefyd ym mis Awst fe wnaethom atgoffa disgyblion a rhieni y bydd angen dangos tocynnau bws ar gyfer pob taith ar fysiau ysgol.  Bydd y polisi 'Dim Pas, Dim Teithio' yn cael ei orfodi ar holl fysiau ysgol Conwy o’r diwrnod cyntaf yn ôl i’r ysgol ym mis Medi i wneud yn siŵr bod gan ddisgyblion sydd â hawl i deithio sedd a bod digon o le ar bob bws. Mae’r polisi hwn wedi bod yn ei le ers blynyddoedd lawer ac mae’n ceisio osgoi gorlenwi annerbyniol, gan beryglu diogelwch disgyblion.

### 3.3.6. Benthyciadau Pontio Ysgol

Ym mis Gorffennaf, adolygodd y Cabinet argymhellion y Panel Benthyciadau Ysgolion i gymeradwyo ceisiadau am fenthyciadau pontio o £200,000 ar gyfer Ysgol Aberconwy, a £351,000 ar gyfer Ysgol Eirias.  Cafodd y Panel Benthyciadau Ysgolion sicrwydd bod y ceisiadau wedi’u cefnogi gan gynlluniau adfer realistig a chyflawnadwy. Cytunodd yr aelodau ei bod yn bwysig cefnogi'r ddwy ysgol yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn a chymeradwywyd y benthyciadau a'r cynlluniau ad-dalu.

### 3.3.7. Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a Threfniadaeth Ysgolion

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, cefnogodd y Cabinet ffurfio Gweithgor Cynllunio Ysgolion i sicrhau bod trefniadaeth ysgolion yng Nghonwy wedi'i chynllunio'n briodol, gan ymateb i newidiadau demograffig a gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018). Bydd y grŵp yn ymwneud ag adolygu a diweddaru ein strategaeth ar gyfer moderneiddio ysgolion, sydd wedi bod ar waith ers 2015.

Ym mis Gorffennaf, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau, cymeradwyodd y Cabinet ein Rhaglen Amlinellol Strategol naw mlynedd o dan Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen yn strategaeth hirdymor i wella seilwaith addysgol trwy greu ysgolion modern, cynaliadwy sy'n cefnogi anghenion addysgol y gymuned. Cynigir dwy ysgol, sef Ysgol y Gogarth ac Ysgol Eirias, i fod yn ffocws ym mlynyddoedd 1 i 3 y rhaglen, gyda dwy ysgol arall, sef Ysgol Deganwy ac Ardal Llanfairfechan, ym mlynyddoedd 4 i 6. Yna bydd adolygiad ardal o ysgolion Llandudno ym mlynyddoedd 7 i 9. Wrth ystyried yr adroddiad nodwyd, oherwydd ffactorau economaidd, nad oedd bellach yn bosibl cyflawni gwelliannau ysgol a gynlluniwyd yn wreiddiol, a bod manylion llawn am gostau a sut y byddai prosiectau cael ei ariannu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ar yr adeg briodol.

Yn dilyn ystyriaeth gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle, ym mis Awst cymeradwyodd y Cabinet bapur yn amlinellu effaith bosibl newid yn y boblogaeth ar addysg, gan ystyried lefelau twf tai. Dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlD) disgwylir i'r boblogaeth dyfu o 4950 o drigolion. Rhagwelir y bydd cynnydd o 400 o blant oed ysgol uwchradd, ond gostyngiad o 850 o blant oed ysgol gynradd. Y mesurau lliniaru arfaethedig dros gyfnod y CDLlN yw neilltuo tir yn Llanfairfechan ar gyfer ysgol newydd, a diogelu tir ar gyfer estyniad gerllaw Ysgol Sŵn y Don. Trafododd yr Aelodau hefyd y rhwymedigaethau ar ddatblygwyr, y defnydd o arian adran 106, a'r effeithiau ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.

Ym mis Medi, adolygodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau gynigion i fynd allan i ymgynghoriad ar ffederaleiddio a chyfuno chwe ysgol: Ysgol Llanddoged ac Ysgol Ysbyty Ifan; Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod; ac Ysgol Y Foryd ac Ysgol Maes Owen.

### 3.3.8. Estyn: Canolfan Addysg Nant y Bryniau

Yn dilyn arolwg o Ganolfan Addysg Nant-y-Bryniau yn 2023, cyhoeddodd Estyn adroddiad yn canmol gwaith y ganolfan gan amlygu'r ddarpariaeth addysgol ragorol ar gyfer

disgyblion ag anghenion iechyd meddwl sylweddol.  Mae’r staff ymroddedig, sydd â lefel uchel o sgiliau, yn darparu amgylchedd dysgu diogel, gofalgar a chynhwysol gan adnabod anghenion y disgyblion a darparu cwricwlwm hynod effeithiol sy’n cefnogi’r disgyblion ac yn deall eu hanghenion., Gwelwyd gweithio mewn partneriaeth yn gryfder sylweddol, a chanmolwyd arweinyddiaeth am fod yn hynod o gryf.  Gwnaed un argymhelliad yn yr adroddiad i gryfhau rôl y pwyllgor rheoli ymhellach.  Ystyriwyd yr adroddiad a'r cynllun gweithredu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mai.

# 4. Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy’n gwella safon eu bywyd

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 4.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae nifer yr ymgeiswyr ar y gofrestr tai cymdeithasol cyffredin ar hyn o bryd yn 1,673, i lawr o 1,951 yn flaenorol. Nid yw hyn yn ymwneud â gostyngiad yn y galw, ond yn hytrach â chanlyniadau ymarfer adolygu achos a gynhaliwyd gan Dîm y Gofrestr Tai.

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a dreulir mewn llety gwely a brecwast wedi cynyddu i 172.2, i fyny o 145.6 ar ddiwedd 2023 i 2024. Bydd hyn yn gysylltiedig â'r ddemograffeg newidiol a'r gostyngiad yn nifer y teuluoedd sy'n cael eu cartrefu mewn llety gwely a brecwast. Mae aelwydydd sengl yn cyfrif am 90% o’r defnydd gwely a brecwast a’r rhain yw’r rhai mwyaf heriol i sicrhau symud ymlaen amserol oherwydd diffyg cyfatebiaeth difrifol yn y cyflenwad a’r galw. Eleni gallwn weld amrywiaeth sylweddol yn hyd arhosiad yn dibynnu ar faint yr eiddo sydd ei angen.

Bu gostyngiad yn nifer cyfartalog y diwrnodau a dreuliodd aelwydydd digartref mewn llety amgen, i lawr o 616.5 i 531.2. Mae cymorth symud ymlaen wedi bod yn ffocws drwy swyddi a ariennir â grant yn gweithio mewn llety ar brydles, llety gwely a brecwast, ac eiddo'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn dod i ddefnydd hefyd, gan ddarparu opsiynau ychwanegol. Bydd y cyfartaledd wedi’i effeithio gan gynnydd mewn symud ymlaen drwy osod tai cymdeithasol yn uniongyrchol ar gyfer cartrefi dwy ystafell wely, gyda nifer o achosion yn aros o dan 6 mis.

Mae canran yr achosion lle cafodd digartrefedd ei atal yn gyson â'r un pwynt y llynedd, sef 82.9%. Atal fydd ffocws y Tîm Atebion Tai o hyd, ond mae hyn yn parhau i fod yn heriol oherwydd amgylchiadau cymhleth yn aml y rhai sy'n cyflwyno.

## Mesurau bob dwy flynedd

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2022 i 2023 | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr am dai cymdeithasol ar y gofrestr tai cyffredin - **cyfrif yn unig** | 1,964 | 1,922 | 1,951 | 1,673 |
| Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast - **cyfrif yn unig** | 141.9 | 152.6 | 145.6 | 172.25 |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a dreuliodd pob aelwyd ddigartref mewn mathau eraill o lety - **cyfrif yn unig** | 703.4 | 669.4 | 616.5 | 531.24 |
| Canran yr achosion lle mae digartrefedd wedi cael ei atal - **cyfrif yn unig** | 68% | 82.43 | 77% | 82.9 |

## Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai newydd yn ystod y flwyddyn - **cyfrif yn unig** | 38% | 33% |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a gafodd eu hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP)) a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth - Cymdeithasol (yn cynnwys tai â chymorth ar gyfer pobl ddiamddiffyn) - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 75** | 57<br>Coch<br>Gwaeth | 37<br>Coch<br>Gwaeth |

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd (a gafodd eu hariannu trwy Raglen Datblygu Tai Fforddiadwy Conwy a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP)) a ddarparwyd yn ôl maint a deiliadaeth - Canolradd (rhent neu berchnogaeth gartref ar gost isel) - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 40** | 35<br>Coch<br>Gwaeth | 10<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran o unedau tai fforddiadwy newydd (ariannwyd drwy bolisïau Cynllun Datblygu Lleol) - Canolradd a Chymdeithasol - **cyfrif yn unig** | 43% | 38% |
| Nifer o eiddo gwag yn y sector breifat sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ac sydd wedi dychwelyd i ddefnydd preswyl yn ystod y flwyddyn drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 20** | 37<br>Gwyrdd<br>Gwaeth | 78<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Nifer yr unedau tai fforddiadwy a grëwyd gan ddod ag anheddau gwag ac eiddo gwag di-breswyl yn ôl i ddefnydd - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 10** | 10<br>Gwyrdd<br>Gwell | 15<br>Gwyrdd<br>Gwell |

## 4.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pum cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae pob un ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| **Teitl** | **Statws** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| Gweithio i gynyddu'r cyflenwad o lety fforddiadwy a hygyrch. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae gwaith y prosiectau Tai Fforddiadwy ac Ansawdd Tai, Caffael ac Addasu yn parhau i ganolbwyntio ar ddod â thir ac asedau sy'n eiddo i'r Cyngor yn eu blaen i gael eu defnyddio eto.  Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynlluniau i ni weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddefnyddio £5.2m o Raglen Cyllido Cyfalaf Llety Dros Dro i gynyddu'r cyflenwad yn gyflym drwy ddod ag asedau yn ôl i ddefnydd a chaffaeliadau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithio gyda pherchnogion eiddo a landlordiaid preifat i gael eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Tîm Tai Gwag yn parhau i dargedu cartrefi i'w hailddefnyddio. Mae'r tîm wedi bod yn ymgynghori â phartneriaid a budd-ddeiliaid ar ddatblygu Strategaeth Tai Gwag newydd, a fydd yn archwilio sut rydym yn parhau i adeiladu ar y canlyniadau gwell yn ystod y flwyddyn flaenorol. |
| Wrth weithio mewn partneriaeth byddwn yn adolygu ein gwasanaethau er mwyn cryfhau ein dull atal digartrefedd ymhellach wrth geisio cynllunio ar gyfer newid tuag at ailgartrefu cyflym i'r rhai sy'n profi digartrefedd fel ei fod yn brin, cryno a ddim yn ailadrodd. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | O dan y Bwrdd Tai a Digartrefedd (a sefydlwyd i gefnogi a monitro gweithrediad y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym), cytunwyd ar gynllun gweithredu. Mae swyddogion arweiniol wedi'u nodi ar gyfer prosiectau a rennir ar draws partneriaid, gan gynnwys llety amgen ar gyfer aelwydydd sengl a chreu cyflenwad o fewn y stoc tai cymdeithasol presennol trwy gynlluniau rheoli asedau wedi'u halinio. Mae camau gweithredu yn cael eu datblygu i symleiddio ac adolygu'r Gwasanaeth Datrysiadau Tai a datblygu opsiynau amgen i lety gwely a brecwast.<br><br>Ym mis Gorffennaf, gofynnwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau nodi cynnydd yr amcanion yn Adroddiad y Rhaglen Tai a Digartrefedd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gan weithio mewn partneriaeth i gefnogi sefydlogrwydd ac ansawdd y sector cartrefi gofal. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Fe wnaethom ddechrau ymgynghoriad gyda chartrefi gofal ym mis Medi i adolygu'r cyfraddau ffioedd presennol. Mae hyn yn rhan o broses dryloyw o bennu ffioedd yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cynnwys arolwg, yn ogystal â chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i wneud argymhelliad am ffi gytbwys er mwyn ystyried pwysau'r farchnad ar gartrefi gofal a'r pwysau ariannu ar yr Awdurdod Lleol.<br><br>Ar hyn o bryd mae prinder darpariaeth mewn cartrefi gofal i gefnogi pobl â dementia, sydd wedi arwain at nifer o bobl yn cael eu cefnogi y tu allan i'r sir (mewn cartrefi gofal yn Sir Ddinbych a Gwynedd yn bennaf). Rydym yn gweithio gyda nifer fach o gartrefi gofal i ehangu'r ddarpariaeth leol, sy'n edrych i greu gwelyau ychwanegol ar gyfer Ebrill 2025.<br><br>Yn anffodus, bu'n rhaid i ni fynd â dau gartref drwy'r broses Pryderon Cynyddol i gefnogi gwella ansawdd. |
| Gweithio i annog a chefnogi twristiaeth barchus sy'n diogelu ein lleoliadau mwyaf poblogaidd a hyrwyddo holl ardaloedd yn ein sir hardd er mwyn ehangu'r effeithiau cadarnhaol i ymwelwyr â'r ardal. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Nid oes diweddariad pellach i ddarparu ar gyfer y cam gweithredu hwn ar hyn o bryd. Darperir diweddariad ar ddiwedd y flwyddyn. |

## 4.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 4.3.1. Y Cyfeiriad ar gyfer Ail Gartrefi a/neu Llety Gwyliau Tymor Byr

Gan gydnabod y gall crynodiadau uchel o ail gartrefi a gosodiadau gwyliau tymor byr gael effaith negyddol ar ein cymunedau a'r Gymraeg, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bwerau cynllunio newydd i awdurdodau lleol sy'n cynnig ystod o opsiynau. Gall Awdurdodau Lleol wneud cais am Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardaloedd penodol (yn amodol ar

dystiolaeth), lle byddai angen caniatâd cynllunio i newid defnydd eiddo o breswylfa barhaol i ail gartref neu lety gwyliau. Ym mis Ebrill, ystyriodd y Cabinet yr opsiynau oedd ar gael a chytunwyd ar y ffordd orau ymlaen i Gonwy. Penderfynwyd cynnwys agwedd polisi newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd gyda Chyfarwyddyd Erthygl 4 posibl yn y dyfodol, gydag adolygiad blynyddol rheolaidd o ddangosyddion.

### 4.3.2. Cynllun Datblygu Lleol: Fframwaith Cynllunio Tai Fforddiadwy

Ym mis Gorffennaf, bu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a Lle yn craffu ar adroddiad a oedd yn manylu ar Fframwaith Cynllunio Tai Fforddiadwy a Phapurau Sail Tystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'r fframwaith yn cynnig cyfres o fecanweithiau tir a pholisi i hyrwyddo symudiad tuag at gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy, a chefnogi tai fforddiadwy a datblygiadau ar gyfer angen lleol. Roedd y pwyllgor yn cefnogi gosod targed tai fforddiadwy o 1,500 o leiaf. Cymeradwywyd yr adroddiad wedyn gan y Cabinet.

### 4.3.3. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2022-27

Bu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Economi a Lle yn ystyried yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer 2022 i 2037 yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn bwysig i ni gan ei fod yn asesu'r angen am dai yn y sir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ac yn nodi'r angen am dai fforddiadwy ychwanegol dros y pymtheng mlynedd nesaf. Fe'i lluniwyd mewn cydweithrediad â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol ac mae'n dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2024. Wrth graffu ar yr adroddiad, amlygodd yr aelodau yr angen i ddatblygwyr ac ymgeiswyr fod yn gydymdeimladol ac ystyried yr ardal gyfagos ac eiddo cyfagos wrth ddylunio datblygiadau, tra hefyd yn cydnabod yr heriau a'r anawsterau y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu o ran digartrefedd. Cymeradwyodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

### 4.3.4. Treth y Cyngor Ail Gartrefi

Ym mis Gorffennaf, lansiwyd ymgynghoriad gennym ar bremiymau treth y cyngor i'w godi ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor ar gyfer 2025 i 2026. Roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'n flaenorol ym mis Hydref 2023 gynnydd dangosol o 100% i 200% o fis Ebrill 2025, yn amodol ar adolygiad. Byddai unrhyw eiddo sydd wedi bod yn wag am 5 mlynedd neu fwy yn destun 300%. Bydd canlyniadau'r arolwg ac ymchwil arall yn cael eu hystyried gan gynghorwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

### 4.3.5. Cartrefi Gwag

Cyhoeddom ddatganiad i'r wasg ym mis Gorffennaf yn hyrwyddo'r Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol. Mae'r grant hwn (rhwng £1,000 a £25,000) ar gael ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag ers 12 mis neu fwy. Mae hefyd ar gael i berchnogion sy'n bwriadu byw yn yr eiddo eu hunain am o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r gwaith adnewyddu. Bydd y grantiau'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith atgyweirio sydd wedi'i nodi gennym ni fel gwaith sy'n angenrheidiol i wneud yr eiddo'n saff a diogel, ac ar gyfer gwaith gwella effeithlonrwydd ynni. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun grant ar gael ar ein gwefan.

# 5. Mae pobl yng Nghonwy'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Mesurau: Oren: O fewn goddefiant

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 5.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae canran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol wedi parhau i wella o gymharu’r cyfnod diwethaf hwn â’r un cyfnod y llynedd, i fyny o 56% i 59%. Tra bod y data yn dangos patrwm o ddirywiad canol blwyddyn, gellir rhoi sicrwydd nad yw hyn yn peri pryder. Cyfleoedd cyfyngedig a gaiff ysgolion a thimau addysg eraill i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol, a gwblheir yn aml yn ystod diwrnodau hyfforddi athrawon. Cesglir y data cwblhau o ysgolion bob tymor, ac yna caiff ei uwchlwytho i'n system ein hunain. Mae hyn yn digwydd y tu allan i'r cyfnod adrodd canol blwyddyn a dyma'r rheswm dros y gostyngiad canol blwyddyn yn y nifer a gwblhawyd. Erbyn diwedd y flwyddyn, mae’r rhan fwyaf o’r data hwnnw wedi’i rannu â ni, a dyna pryd y byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y rhai a gwblhawyd.

Gostyngodd canran y staff a ddechreuodd yn eu swyddi gyda dau eirda ychydig o 100% i 98% yn y cyfnod hwn. Mae hyn yn cynrychioli 317 o staff allan o 322 o ddechreuwyr newydd. Mae gwiriadau ar y gweill i sicrhau bod geirdaon wedi’u cael lle bo angen.

### Mesurau bob dwy flynedd

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2022 i 2023 | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Canran staff newydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol - **wedi’i feincnodi’n lleol**<br>**Targed 100%** | 56%<br>Coch<br>Newydd | 56%<br>Oren<br>Yr un fath | 70%<br>Oren<br>Gwell | 59%<br>Oren<br>Gwell |
| Canran o staff yn dechrau mewn swydd gyda 2 eirda - **wedi’i feincnodi’n lleol**<br>**Targed 100%** | 100%<br>Gwyrdd<br>Da | 100%<br>Oren<br>Da | 100%<br>Gwyrdd<br>Da | 98.40<br>Coch<br>Gwaeth |

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer y bobl sydd wedi osgoi canlyniadau niweidiol o godymau heb oruchwyliaeth am fod ganddyn nhw fynediad i wasanaethau teleofal - **cyfrif yn unig** | 391 | 424 |
| Nifer o adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac wedi'u dynodi fel 'llefydd diogel' - **cyfrif yn unig** | 10 | 10 |
| Canran y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant hanfodion Seiber (staff sydd â gofyniad arnyn nhw i'w gwblhau) - **Wedi'i feincnodi'n Lleol**<br>**Targed 100%** | 65%<br>Oren<br>Gwell | 76%<br>Oren<br>Gwell |

## 5.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pedwar cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae tri ar y trywydd iawn ac un o fewn goddefiant.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Parhau i hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth fod diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. | Oren<br>O fewn goddefiant | Mae diogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithiwr, gwirfoddolwr ac aelod etholedig gael yr hyfforddiant diogelu gorfodol, gan gefnogi'r cysyniad bod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb. Gellir cyflwyno hyfforddiant diogelu mewn gwahanol ffyrdd, o e-ddysgu, wyneb yn wyneb, i'r cyflwyniad diogelwch. Fel rydym yn ei wneud bob blwyddyn, fe wnaethom gefnogi Wythnos Genedlaethol Diogelu, gan ddarparu gwybodaeth i Staff bob dydd. Mae tîm y prosiect a'r Bwrdd hefyd yn derbyn diweddariadau addysgol rheolaidd gan siaradwyr gwadd. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithio tuag at wneud holl adeiladau cyhoeddus yn 'Lefydd Diogel' | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Conwy wedi cadw cofrestriad cynllun Llefydd Diogel cenedlaethol ers mis Gorffennaf 2024, gyda llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden wedi'u rhestru ar yr ap cenedlaethol a'r map ar-lein. Rydym yn bwrw ymlaen â gwaith i ychwanegu ein Canolfannau Teuluoedd a Choed Pella ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf. |
| Gweithio i sicrhau diogelwch a darpariaeth ansawdd gofal ac i weithio gyda darparwyr i gael gwared ar yr angen am ofal heb ei reoleiddio. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r gwasanaeth yn parhau i flaenoriaethu gweithio gyda darparwyr a reoleiddir; fodd bynnag, erys sefyllfaoedd brys pan fo angen defnyddio darparwyr heb eu rheoleiddio o hyd. Bellach mae system sicrhau ansawdd ac adrodd gadarn ar waith i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu lleoli gyda darparwyr o'r fath am y cyfnod lleiaf o amser a'u bod yn cael eu diogelu.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu Glan yr Afon, sydd i fod i agor ym mis Chwefror 2025, gan gynnig 4 gwely arall. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Sir Ddinbych a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu Bwthyn y Ddôl. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i ddatblygu cymhellion i ofalwyr maeth gyda'r nod o gynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth gofal maeth mewnol.<br><br>Mae cynllun deng mlynedd wedi'i ddatblygu i alluogi'r gwasanaeth i fodloni gofynion gofal plant Conwy sy'n derbyn gofal yn y dyfodol. |
| Sicrhau fod mesurau mewn lle i ddiogelu data personol a sensitif ar ein systemau. Codi ymwybyddiaeth o seiberddiogelwch a'i hyrwyddo ymysg defnyddwyr TG ledled y Cyngor. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i fesurau diogelwch TG i wrthsefyll bygythiadau seiber sy'n dod i'r amlwg, sy'n cael eu monitro'n barhaus. Mae ymwybyddiaeth o ddiogelwch a diweddariadau wedi'u darparu mewn fforymau amrywiol, ac mae hyfforddiant ychwanegol wedi'i gynnal a'i drefnu ar gyfer grwpiau penodol. Mae staff allweddol wedi mynychu ymarfer seiber, gyda'r adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau pellach i'n trefniadau parodrwydd. |

## 5.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 5.3.1. Achrediad Rhuban Gwyn

Gwnaed Rhybudd o Gynnig yn y Cyngor ym mis Mai yn gofyn am gymeradwyaeth i ni ennill Statws Rhuban Gwyn y DU fel cyngor. Mae Rhuban Gwyn y DU yn symbol a gydnabyddir yn fyd-eang ac mae'n elusen sy'n gweithio i roi terfyn ar drais a cham-drin gan ddynion yn erbyn merched trwy newid y diwylliannau sy'n arwain at gamdriniaeth o'r fath. Roedd y cynnig yn cynnwys ystyriaeth i ddatblygu cynllun gweithredu tair blynedd i gefnogi'r mudiad. Penderfynodd y Cyngor y dylid cefnogi'r cynnig mewn egwyddor, yn amodol ar wybodaeth bellach ynghylch goblygiadau o ran adnoddau i swyddogion. Cyflwynwyd y wybodaeth ychwanegol i'r Cyngor ym mis Rhagfyr yn hysbysu er bod y Cyngor yn cefnogi'r Rhuban Gwyn a'u hymgyrch ymwybyddiaeth, nid oes digon o arian a chapasiti i wneud cais am achrediad. Roedd y wybodaeth ychwanegol yn rhoi sicrwydd bod yna gynllun gweithredu rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, er gwaethaf peidio â cheisio'r achrediad. I grynhoi, mae'r cynllun gweithredu yn manylu ar:

- Bod ein holl gyllid cam-drin domestig a swyddogion wedi bod yn rhan o dîm cyflawni rhanbarthol ers 2016, a bod y cynnydd hwnnw'n cael ei fonitro gan y Bwrdd Pobl Ddiamddiffyn a Chamfanteisio Rhanbarthol.
- Rydym yn chwarae rhan weithredol wrth gyflawni prosiectau a mentrau rhanbarthol trwy grŵp comisiynu.
- Rydym hefyd yn gweithio i ddarparu rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol gyda'r nod o leihau trais ac wedi'i dargedu'n bennaf tuag at atal ieuenctid a pherthnasau diogel.

Mae pob awdurdod lleol yn parhau i gefnogi wythnos y Rhuban Gwyn (Tachwedd 25 bob blwyddyn). Eleni roedd stondin yng Nghyntedd Coed Pella a Bodlondeb, gyda deunyddiau gwybodaeth a negeseuon cyfathrebu ategol i'r cyhoedd a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd.

Cymeradwyodd y Cabinet Bolisi Gwrth-aflonyddu wedi'i ddiweddaru ym mis Tachwedd 2024, a oedd yn cynnwys ein rhwymedigaeth fel cyflogwr i atal aflonyddu rhywiol.  Mae asesiadau risg gwasanaeth a hyfforddiant yn cael eu cynnal.

### 5.3.2. Polisi Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cabinet ddiwygiadau i'n Polisi Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) 2000.  Diben RIPA yw sicrhau bod unrhyw angen i ddefnyddio technegau ymchwilio cudd yn gyfreithlon a bod rheolaethau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu rheoli a'u monitro'n briodol. Adolygwyd y polisi ac ychwanegwyd adrannau ychwanegol mewn perthynas â storio a dinistrio dogfennau ac i gynnwys Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA.  Nododd yr adroddiad fod awdurdodiadau RIPA yn brin iawn yng Nghonwy ac nad ydym wedi awdurdodi gwyliadwriaeth ers 2013.

### 5.3.3. Teledu Cylch Caeëdig

Gan weithio mewn partneriaeth â Thîm Plismona Bro Gorllewin Conwy a Chyngor Tref Bae Colwyn, rydym wedi gallu gosod cyfres o gamerâu newydd ar draws Bae Colwyn. Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg ym mis Mai i hysbysu pobl am y datblygiad, a ariannwyd drwy Strydoedd Mwy Diogel y DU.

### 5.3.4. Gwyliadwriaeth Yn Erbyn Sgamiau

Mae'r Tîm Safonau Masnach yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd yn rheolaidd, ac ym mis Mai fe wnaethom annog trigolion i wirio'n llawn y cwmnïau sy'n cynnig gosod offer effeithlonrwydd ynni rhad ac am ddim neu gost isel neu welliannau eraill.  Fe wnaethom ddarparu rhai awgrymiadau da ac arwyddion i gadw llygad amdanynt, a oedd yn cynnwys cyfeirio pobl at wefan Prynwch Efo Hyder: www.buywithconfidence.gov.uk

### 5.3.5. Cyflogi Rhai yn eu Harddegau – Cyngor i Fusnesau

Ym mis Mehefin cyhoeddwyd datganiad i'r wasg gennym i atgoffa busnesau am gyfrifoldebau cyfreithiol wrth gyflogi pobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed. Mae angen trwydded waith ar fusnesau ar gyfer pob plentyn y maent yn ei gyflogi, gydag yswiriant a chanlyniadau ariannol posibl os nad yw'r rhain yn eu lle. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan. Trwydded Cyflogi Plant.

### 5.3.6. Sgamiau Parcio

Yn ystod Awst a Medi cyhoeddwyd rhybuddion gennym am ddau fath o sgamiau yn ymwneud â pharcio.  Ym mis Awst fe wnaethom rybuddio trigolion ac ymwelwyr i fod yn ofalus wrth dalu am barcio er mwyn osgoi dod yn ddioddefwr sgam cod QR ffug. Roedd codau twyllodrus, a gynlluniwyd i dwyllo defnyddwyr i ddarparu eu manylion talu ar wefannau ffug, wedi'u canfod mewn nifer o leoliadau yn y sir.  Yn lle hynny, rydym yn cynghori pobl i dalu ag arian parod, cerdyn, neu dros y ffôn trwy'r ap PayByPhone.

Ym mis Medi fe wnaethom gyhoeddi rhybudd am sgam neges destun taliadau cosb parcio. Mae'r sgam yma'n defnyddio gwefan sy'n argyhoeddi ac sy'n cyfeirio at y cyngor; fodd bynnag, nid ydym yn anfon dirwyon parcio trwy negeseuon testun.  Roedd ein datganiad i'r wasg yn rhoi cyngor ar beth i'w wneud os bydd arian yn cael ei golli oherwydd sgam a sut i roi gwybod amdano.

### 5.3.7. Atafaelu Nwyddau Anghyfreithlon

Ym mis Medi fe wnaethom dynnu sylw at waith gwerthfawr Safonau Masnach, gan weithio gyda phartneriaid, i atafaelu nwyddau anghyfreithlon, gan gynnwys sigaréts anniogel, tybaco a fêps anghyfreithlon o dri busnes ac un annedd yn y sir.  Mae'r masnachu anghyfreithlon mewn cynhyrchion tybaco a fêps yn cael effaith uniongyrchol ar fusnesau lleol, ond mae hefyd yn gysylltiedig â materion diogelu ehangach, yn ogystal â throseddau cyfunderfnol.

### 5.3.8 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Corfforaethol 2023 i 2024

Ym mis Medi, croesawodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar gyfer 2023 i 2024.  Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o weithgareddau diogelu a oedd wedi digwydd o amgylch 4 thema allweddol y Cynllun Gweithredu, yn cwmpasu Dysgu a Datblygu; Blaenoriaethau Diogelu; Recriwtio Diogel; a'r Fframwaith Perfformiad Diogelu.  Roedd yr adroddiad yn pwysleisio diogelu fel cyfrifoldeb pawb.  Yn ystod y 12 mis nesaf mae'r meysydd ymarfer canlynol wedi'u nodi fel blaenoriaethau allweddol i'r Bwrdd:

- Dysgu a Datblygu
- Sicrhau bod gennym ddull cadarn, cryf a chyson o ran themâu sy'n codi ym maes diogelu.

- Parhau â’n gwaith i fod ag adeiladu cyhoeddus priodol gan Gonwy yn ‘Lleoedd Diogel’.

Nododd y pwyllgor y gwaith a wnaed a diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaeth a'i thîm am eu gwaith amhrisiadwy a'u hymrwymiad i ddiogelu.  Roedd sesiwn friffio ar waith y Tîm Diogelu wedi'i threfnu ar gyfer y Fforwm Gwybodaeth a Datblygu Aelodau ym mis Hydref.

# 6. Mae pobl yng Nghonwy yn iach

Mesurau: Targed wedi'i gwrdd

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 6.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae nifer aelodau iau Ffit Conwy wedi codi'n sylweddol o 550 ar ddiwedd Medi 2023 i 819 yn 2024. Yn ogystal, bu cynnydd parhaus mewn ymweliadau â'n canolfannau chwaraeon a hamdden (i fyny o 3,815 i 4,247 ar gyfer y cyfnod chwe mis)

Mae nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc newydd a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi wedi codi o 7 i 21 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Rydym yn dal i aros am ddata yn ymwneud â mesurau ein Gwasanaeth Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff isod o ffynhonnell allanol. Bu newid yn y system feddalwedd ac mae'r data bellach yn hwyr. Yn anffodus, nid oes unrhyw eglurder eto ynghylch pryd y bydd ar gael.

### Mesurau bob dwy flynedd

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2022 i 2023 | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc (11-16 oed) sydd ag Aelodaeth Iau Ffit Conwy - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 750** | 488<br>Gwyrdd<br>Gwell | 550<br>Oren<br>Gwell | 732<br>Oren<br>Gwell | 819<br>Oren<br>Gwell |
| Canran y cleientiaid sydd wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Atgyfeirio Cleientiaid i wneud Ymarfer Corff - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 60%** | 64%<br>Gwyrdd<br>Gwell | Aros am ddata | Aros am ddata | Aros am ddata |
| Canran y cleientiaid Gwasanaeth Atgyfeirio Cleientiaid i wneud Ymarfer Corff lle mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen - **wedi'i feincnodi'n lleol**.<br>**Targed 75%** | 68%<br>Gwyrdd<br>Gwell | Aros am ddata | Aros am ddata | Aros am ddata |

| Teitl | Diwedd blwyddyn 2022 i 2023 | Canol blwyddyn 2023 i 2024 | Diwedd blwyddyn 2023 i 2024 | Canol blwyddyn 2024 i 2025 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc newydd a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn - **cyfrif yn unig** | 121 | 7 | 38 | 21 |
| Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn yr Awdurdod Lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 7,343.74** | 6,475<br>Gwyrdd<br>Gwell | 3,815<br>Gwyrdd<br>Gwell | 8,525<br>Gwyrdd<br>Gwell | 4,237<br>Gwyrdd<br>Gwell |

## Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer y bobl gydag Aelodaeth Ffit Conwy - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 6,600** | 6,047<br>Gwyrdd<br>Gwell | 7,708<br>Gwyrdd<br>Gwell |
| Cyfanswm o wasanaethau i oedolion wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn - Cartref Gofal i Oedolion - **cyfrif yn unig** | Dim data<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | 983 |
| Cyfanswm y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i oedolion yn ystod y flwyddyn - Gofal Cartref - **cyfrif yn** unig | Dim data<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | 1,674 |
| Y cyfanswm o wasanaethau i oedolion sy'n cael eu darparu yn ystod y flwyddyn - Gofal Seibiant - **cyfrif yn unig** | Dim data<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | 219 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth wedi lleihau - **cyfrif yn unig** | 57 | 75 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth yr un fath - **cyfrif yn unig** | 136 | 164 |

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth wedi'i liniaru - **cyfrif yn unig** | 213 | 311 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ail alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yr angen am gymorth heb leihau, heb ei gynnal na'i liniaru - **cyfrif yn unig** | 203 | 198 |

## 6.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae wyth cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae saith ar y trywydd iawn, ac mae un wedi'i gyflawni.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Cydweithio trwy ein gwasanaethau cymunedol a chynhwysol er mwyn lleihau tlodi a chefnogi pobl mewn tlodi. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ymgysylltu'n parhau ar y strategaeth ddrafft ar leihau tlodi.<br>Mae Conwy yn cymryd rhan yn y cynllun Banc Data Cenedlaethol i gynorthwyo unigolion na allant fforddio mynediad at ddata digidol i wneud hynny.<br>Mae Partneriaeth Bwyd Conwy wedi deillio o waith Partneriaeth Bwyd Cynaliadwy. Ei nodau yw cynyddu mynediad at fwyd maethlon, a dyfir yn lleol i bawb (yn enwedig y rhai sy'n profi ansicrwydd bwyd), grymuso'r gymuned gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i goginio prydau iach, i godi ymwybyddiaeth o argaeledd a buddion bwyd a gynhyrchir yn lleol, a lleihau milltiroedd bwyd a gwastraff bwyd a phecynnu. Mae Partneriaeth Bwyd Conwy wedi cefnogi prosiectau amrywiol sy'n bodloni'r amcanion hyn gyda chyllid.<br>Cyflwynodd y Tîm Lles Cymunedol y sesiwn Bwyta'n Gall, Arbed yn Well yng Nghonwy. Nod y sesiwn oedd helpu mynychwyr i archwilio sut i fwyta'n iach tra'n siopa ar gyllideb. Derbyniodd pawb a fynychodd hefyd lyfr ryseitiau am ddim a chanllaw darluniadol i fynd adref gyda nhw, ynghyd â bag o gynhwysion i wneud un o'r ryseitiau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau fod holl wasanaethau sy’n wynebu’r cyhoedd yn canfod cefnogwr ar gyfer tlodi a chynhwysiant cymdeithasol. | Wedi'i gwblhau | Cwblhawyd y cam gweithredu hwn |
| Dod yn sefydliad sy’n Ymwybodol o Gyflyrau ar y Sbectrwm Awtistiaeth a chynnal ein statws deall dementia. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r modiwlau e-ddysgu awtistiaeth bellach yn orfodol i staff gofal cymdeithasol. Mae hwn ar gael i holl staff Conwy ac mae'n helpu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.<br>Mae staff o Gonwy a Sir Ddinbych wedi gweithio gyda’i gilydd i drefnu a chyflwyno digwyddiad niwrowahaniaeth a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr, ac wedi cynhyrchu canllaw niwrowahaniaeth i gyflogwyr. Sicrhawyd cyllid i godi ymwybyddiaeth o brofiadau dysgwyr niwrowahanol mewn ysgolion prif ffrwd (trwy gyfres o ffilmiau a gynhyrchwyd ar y cyd). Yn ogystal, mae ymchwil yn cael ei wneud i ddeall y rhesymau y tu ôl i absenoldeb hirdymor o'r ysgol ymhlith dysgwyr niwrowahanol. |
| Cefnogi lles meddyliol gofalwyr di-dâl fel eu bod yn gallu cyflawni eu rôl bwysig a’u bod yn gallu cael cymorth pan fo argyfwng ac osgoi methiannau o ran gofal. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym ar hyn o bryd yn gwahodd tendrau i adnewyddu'r contract ar gyfer cymorth gofalwyr Iechyd Meddwl. Os bydd yr ymarfer caffael yn llwyddiannus, bydd contract newydd yn ei le o fis Ebrill 2025. |
| Datblygu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau am dlodi a chynhwysiant cymdeithasol. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu sy'n dod â gwaith presennol a gwaith yn y dyfodol ynghyd i lenwi bylchau a chyflawni'r weledigaeth. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud yn awr i fapio’r gwaith presennol y mae pob adran yn ei wneud, a bydd hyn yn helpu i gydnabod y gwaith yr ydym eisoes yn ei wneud, yn ogystal â nodi bylchau lle mae angen inni ganolbwyntio ein gwaith. Unwaith y bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu wedi'u cytuno a'u mabwysiadu'n ffurfiol, byddwn yn cynnal hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff ac aelodau. |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu strategaeth i gefnogi cynaliadwyedd plant ac oedolion yn y sector gofal. Bydd hyn yn canolbwyntio ar weithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chyllido, parch cydradd gydag iechyd, a rhoi ymyraethau cynnar ar waith sy'n canolbwyntio ar atal ac ail-alluogi. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | **Gofal Preswyl Plant**<br>Rydym ar hyn o bryd yn diweddaru ein strategaeth.<br>Mae Bwthyn y Ddôl bron wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith o ailadeiladu Glan yr Afon yn parhau a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2025.<br>Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr allanol lleol fel Kickstart yn Abergele a Poseidon House ym Mae Colwyn ac yn parhau i archwilio opsiynau gyda darparwyr di-elw eraill yn unol ag agenda Llywodraeth Cymru.<br>Rydym yn gwneud y mwyaf o'r defnydd o arian grant i gefnogi ein gwasanaethau Gofal Maeth a gwella'r cynnig i'n gofalwyr maeth mewnol er mwyn darparu sefydlogrwydd a gwneud y sefyllfa'n fwy deniadol.<br>**Gwasanaethau Anableddau**<br>Mae gwasanaeth seibiant Bron y Nant wedi ei agor, ynghyd â gwasanaethau cyfleoedd gwaith Bron y Nant a Bryn Euryn.<br>Mae gwaith ar Sylva Gardens (Cartref Plant Cofrestredig ar gyfer 3 o blant hyd at 18 oed) yn mynd rhagddo.<br>Rydym yn gweithio mewn partneriaeth yn fewnol ac yn allanol i sefydlu ystod o lwybrau i gefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at waith cyflogedig. Rydym yn bwrw ymlaen â chomisiynu contractau byw â chymorth newydd ac adolygiad o'r contractau byw â chymorth presennol.<br>**Gwasanaethau Pobl Hŷn**<br>Mae'r symudiad drosodd i weithio mewn ardaloedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer Gofal Cartref wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran dod â sefydlogrwydd i'r farchnad a gwella'r profiad i unigolion. Mae'r adolygiadau o ffioedd ar gyfer cartrefi gofal wedi dod â sefydlogrwydd eleni ac wedi lleihau'n sylweddol nifer y taliadau atodol. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein gwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau seibiant a chymorth i ofalwyr. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gofyn i'r holl wasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd i adolygu eu cynnig ac i wirio yn erbyn adborth o gwynion neu ymgynghoriad ynglŷn â chynhwysiant (prisiau, mynediad a chynnig). | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Dim diweddariad pellach ar gyfer y cyfnod. |
| Gweithio i wneud ein timoedd hamdden a diwylliannol yn gynaliadwy yn ariannol a mynd i'r afael â rhwystrau i ymarfer corff a lles fel y gallwn gadw darpariaeth cymunedol fforddiadwy ar gyfer pawb a darparu cymunedau gydag ystod eang o ddewisiadau lles ac ymarfer corff. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ein lefel aelodaeth bresennol dros 8,000 ac ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed diwedd blwyddyn o 8,500. Mae dros 3,000 o wersi nofio.<br>Mae datblygu hamdden a chwarae yn parhau i ddarparu cyfleoedd rhagorol yn ein cymunedau. Mae rôl y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi profi ymrwymiad Conwy i sicrhau ymrwymiad i bawb yng Nghonwy fod yn iach. Mae model cynhwysiant newydd yn cael ei ddatblygu a fydd yn helpu i nodi gweithgareddau sy'n rhannol gynhwysol ac yn gwbl gynhwysol i breswylwyr. Mae'r model hwn yn cael ei weld fel model o arfer dda yn barod gan bartneriaid fel Actif Gogledd Cymru a Chwaraeon Cymru. |

## 6.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 6.3.1. Adroddiad Blynyddol Rhianta Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ddau adroddiad blynyddol Rhianta Corfforaethol yn y cyfnod hwn, yn cwmpasu 2022 i 2023, a 2023 i 2024. Ystyriwyd y cyntaf ym mis Ebrill, a'r ail ym mis Medi. Amlygodd yr adroddiadau feysydd llwyddiant a gyflawnwyd gan y Tîm Rhieni Corfforaethol a'r blaenoriaethau allweddol wrth symud ymlaen. Wrth graffu ar yr adroddiadau, cydnabu'r pwyllgor yr heriau a'r risgiau o orfod bodloni'r galw a chomisiynu lleoliadau maeth a phreswyl annibynnol. Canmolodd y Pwyllgor hefyd y gwaith a wnaed ynghylch lleoliadau maeth, gan gynnwys penodi dau swyddog recriwtio newydd, ymgyrchoedd marchnata diweddar, a'r adolygiad o lwfansau a budd-daliadau i Ofalwyr Maeth.

### 6.3.2. Adroddiad Blynyddol y Panel Aml-asiantaeth Strategol 2022 i 2023

Ym mis Ebrill, bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystyried Adroddiad Blynyddol y Panel Aml-asiantaeth Strategol ar gyfer 2022 i 2023. Nod cyfarfodydd panel yw cydlynu ymrwymiad aml-asiantaeth i ddiwallu anghenion Iechyd, Cymdeithasol ac Addysgol y plant hynny mewn Lleoliadau Preswyl Allanol ac Annibynnol. Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teulu a Diogelu fanylion mewn perthynas ag aelodaeth y Panel, ei swyddogaethau craidd, manylion o'r gwariant a'r pwysau ariannol, yn ogystal â gwybodaeth ystadegol ynglŷn â'r nifer o blant mewn lleoliadau preswyl tu allan i Sir Conwy. Yn bresennol roedd y Cyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol ar gyfer y Dalgylch Canol (Plant) o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i gefnogi'r angen i wella'r ymagwedd aml-asiantaeth at y dyfodol. Mynegodd y pwyllgor bryder ynghylch oedi wrth i bobl ifanc gael asesiadau amserol a nododd y cynnydd mewn anghenion cymhleth, heriau ymddygiad, a'r galw am leoliadau preswyl a diffyg cyflenwad yn lleol. Cefnogodd y Cabinet yr adroddiad yn ei gyfarfod ym mis Mai a diolchodd i'r timau dan sylw a phartneriaid am eu gwaith caled yn cefnogi'r ddarpariaeth werthfawr sydd ei hangen ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

### 6.3.3. Arolygiad Gofal Cartref

Yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai, cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol drosolwg o'r adroddiad rheoleiddio a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan ein rheolydd allanol. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru arolygiad o Ofal Cartref ym mis Tachwedd 2023, a daeth yr adroddiad i'r casgliad ein bod yn darparu gofal cyson gan staff sy'n adnabod eu cleifion yn dda; bod staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y rheolwyr; bod y tîm rheoli yn gyson a thrylwyr ac yn effeithiol wrth recriwtio a chynnal lefelau staffio; a bod rheolaeth wedi'i sefydlu a bod ganddi fecanweithiau cadarn yn eu lle ar gyfer monitro i sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd da. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio.

### 6.3.4. Gofalwyr Maeth

Ym mis Mai, fel rhan o Bythefnos Gofal Maeth™, fe wnaethom annog pobl i feddwl am faethu trwy hyrwyddo rhyddhau llyfr coginio newydd, Bring Something to the Table, sy'n llawn ryseitiau ac adegau sy'n newid bywydau gan ofalwyr a phobl sydd wedi cael profiad o ofal. Mae un o ofalwyr Conwy ei hun wedi cyfrannu rysáit i'r llyfr. Mae rhagor o wybodaeth am faethu ar gael yn Maethu yng Nghonwy | Maethu Cymru Conwy

Ym mis Gorffennaf derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg Cyllid ac Adnoddau adroddiad yn cynnig ystod o gymhellion newydd i ofalwyr maeth. Amlygodd yr adroddiad yr angen i leihau ein dibyniaeth ar gomisiynu maethu annibynnol a lleoliadau preswyl ac felly cynyddu nifer y gofalwyr maeth.  Hysbyswyd yr aelodau y gallai denu dim ond un gofalwr maeth ychwanegol sicrhau arbedion (ffioedd lleoliad preswyl) o £520,000 y flwyddyn, a byddai'n arwain at ganlyniadau gwell i'r plentyn. Roedd y cymhellion yn cynnwys:

- Gostyngiad dewisol o 100% yn Nhreth y Cyngor (lle mae'r Gofalwr Maeth ar Gofrestr Treth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); a
- Dewis o 6 o wahanol drwyddedau parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am ddim.
- Aelodaeth chwaraeon a hamdden Ffit Conwy am ddim

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad gan nodi, er y byddai menter gostyngiadau Treth y Cyngor yn arwain i ddechrau at ostyngiad mewn incwm i ni, byddai arbedion tymor hir yn cael eu gwireddu mewn perthynas â lleoliadau preswyl i blant.  Cymeradwywyd y cymhellion hyn gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Gorffennaf, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn Gofal Maeth Cymru / Cymorth a Gwobrau.

Yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Gorffennaf, gofynnwyd hefyd i'r aelodau graffu ar Bolisi sy'n Ystyrlon o Faethu.  Mae'r polisi yn rhan o'n hymgyrch i recriwtio mwy o ofalwyr maeth ac mae'n strategaeth gadarnhaol i ddenu gweithwyr Conwy i ddod yn ofalwyr maeth.  Mae'n cydnabod yr ymrwymiadau a'r gofynion ychwanegol o ofalu am blant sy'n derbyn gofal trwy ddarparu gwyliau â thâl arbennig i weithwyr sy'n ddarpar ofalwyr maeth a'r rhai sy'n bodoli eisoes ac sy'n ofalwyr maeth personau cysylltiedig Maethu Cymru Conwy.  Croesawodd y Cabinet yr adroddiad, gan gydnabod bod yr argymhellion yn cefnogi plant diamddiffyn drwy eu gosod yn eu cymunedau eu hunain.

### 6.3.5. Newid yn y Boblogaeth: Effaith Tai, Iechyd a Gofal Sylfaenol

Ym mis Gorffennaf, bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar opsiynau twf y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) a'u heffaith bosibl a'u heffaith liniaru ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Sylfaenol. Mae hwn yn un o nifer o bapurau cefndir i hysbysu'r CDLl Newydd. Roedd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd hefyd yn bresennol. Yn dilyn y drafodaeth, cytunodd y pwyllgor ar nifer o gwestiynau i'w hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn perthynas â

materion iechyd. Gwnaethant yr argymhelliad i'r Cabinet y dylid gohirio'r penderfyniad, tra'n aros am ymateb boddhaol gan BIPBC mewn perthynas â'r pryderon a godwyd a'r mesurau lliniaru i fynd i'r afael â goblygiadau polisïau'r CDLl Newydd ar ddarpariaeth defnydd tir y gwasanaeth iechyd yn y sir.

### 6.3.6. Grant Plant a Chymunedau

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd ym mis Gorffennaf, cafodd yr aelodau drosolwg o Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ar gyfer 2023 i 2024 a chynllun amlinellol ar gyfer 2024 i 2025. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg byr rhaglen waith a darpariaeth mewn canolfannau teulu ar draws y sir, gan amlygu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, atal a chefnogaeth. Cafodd yr aelodau hefyd y newyddion diweddaraf am y tanwariant grant, oherwydd diffyg lleoedd gofal plant mewn cymunedau a nodwyd. Nodwyd bod staff yn gweithio'n galed iawn gyda darparwyr lleol i gynyddu capasiti ar gyfer Gofal Plant Dechrau'n Deg.

### 6.3.7. Strategaeth Toiledau Lleol

Roedd ein Strategaeth Toiledau Cyhoeddus wedi'i chymeradwyo'n flaenorol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom hysbysu'r cyhoedd fod y bwriad i gau nifer o doiledau cyhoeddus yn cael ei adolygu ac y byddai'r toiledau cyhoeddus hynny y trefnwyd eu cau yn aros ar agor yn y cyfamser, a ysgogodd Rybudd o Gynnig i'w godi yn y Cyngor ym mis Awst. Derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle hefyd ddiweddariad ym mis Awst ar gyflawni'r Strategaeth Toiledau Lleol, lle bu'r aelodau'n trafod y goblygiadau ariannol i'r Awdurdod Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned o gadw toiledau ar agor. O ran cyfathrebu a deialog, mynegodd rhai aelodau siom ynghylch y methiant i ymgynghori mewn modd priodol gydag aelodau lleol a budd-ddeiliaid. Roedd rhai Cynghorau Tref a Chymuned fodd bynnag wedi mynd ati i gymryd rhan mewn trafodaethau, gan ddangos awydd i gydweithio mwy â ni. Nododd y pwyllgor yr adroddiad a bod y Strategaeth Toiledau Lleol yn cael ei chyflawni yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd yn y ddogfen strategaeth.

Ym mis Medi, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau y Rhybudd o Gynnig a godwyd yn y Cyngor, ac argymhellodd y dylid atal cau toiledau nes bod ystadegau'n cael eu darparu ar y defnydd o doiledau a bod ymgynghoriad ystyrlon wedi'i gynnal gyda Chynghorwyr Sir a Chynghorau Tref a Chymuned. Fodd bynnag, o gofio'r argymhelliad, ni allai'r Cabinet gefnogi'r ymagwedd hon gan fod yn rhaid gwneud arbedion.

Cytunwyd, felly, y byddai'r polisïau a amlinellir yn Strategaeth Toiledau Lleol, fel y'u cymeradwywyd yn flaenorol, yn parhau.

### 6.3.8. Ailstrwythuro Staffio Glan yr Afon

Ym mis Awst, ystyriodd y Cabinet adroddiad am staffio ar gyfer Glan yr Afon.  Mae hwn yn gartref preswyl 4 ystafell wely i blant. Mae'n cael ei adeiladu'n bwrpasol ar hyn o bryd a gobeithio y caiff ei gwblhau ym mis Chwefror 2025. Bydd yn galluogi pobl ifanc i aros yn eu hardal leol, a chreu 13 o swyddi llawn amser yn y sir.  Bydd Glan yr Afon yn chwaer-gartref i ganolfan asesu Bwthyn y Ddôl, felly bydd y recriwtiaid newydd yn ffurfio rhan o strategaeth recriwtio a hyfforddi gydlynol i sicrhau bod y tîm yn gallu gweithio o'r naill leoliad i'r llall. Cymeradwyodd y Cabinet strwythur staffio Glan yr Afon fel bod modd i'r gwasanaeth fwrw ymlaen i recriwtio.

### 6.3.9. Cefnogi Hamdden

Cyhoeddwyd diweddariadau gennym ym mis Ebrill, Mehefin a Gorffennaf yn rhoi gwybod am gynnydd y gwaith parhaus ar ein pyllau padlo.  Yn dilyn buddsoddiad mawr (y mwyafrif yn cael ei ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU), ail-agorodd y pyllau padlo yn Llanfairfechan, Penmaenmawr a Llandrillo-yn-Rhos ym mis Mai, a Chraig-y-Don ym mis Gorffennaf mewn pryd ar gyfer gwyliau'r ysgol.

Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd rhaglen o weithgareddau haf i blant dros wyliau'r haf, gan gynnwys crefftau, chwarae, nofio, diwrnodau allan a mwy.  Ers 2016, mae ein Tîm Datblygu Hamdden wedi trefnu digwyddiad chwaraeon rhad ac am ddim ar y traeth ym Mae Colwyn - ein Strafagansa Chwaraeon Traeth! Yn sgil llwyddiant y digwyddiad eleni, a gynhaliwyd ym mis Mai, bu dros 250 o blant a'u teuluoedd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o chwaraeon, gan amlygu'r llu o gyfleoedd sydd ar gael yn y sir.  Mae rhagor o wybodaeth am chwaraeon yng Nghonwy ar gael yn www.sportconwy.org.uk/sports.

Yn dilyn gwaith adnewyddu a reolir gan y Gymdeithas Tennis Lawnt (LTA) a ninnau, roeddem yn gallu cyhoeddi ym mis Gorffennaf bod Cyrtiau Tennis Bodlondeb wedi'u hailagor yn swyddogol.   Mae nifer o gyrtiau ar draws Conwy (gan gynnwys yn Llandrillo-yn-Rhos, Min y Don a Phentre Mawr) sy'n darparu cyfleoedd am ddim i bobl godi raced a chwarae. Gellir archebu trwy LTA Play Tennis. Mae'r dechnoleg archebu newydd hon, ynghyd â thechnoleg mynediad giât newydd yn golygu ei bod bellach yn haws cyrraedd y cwrt trwy archebu ymlaen llaw i warantu argaeledd.  Mae'r cyrtiau yn rhad ac am ddim i'w

defnyddio rhwng 7am a 9am, ac 1pm a 2pm bob dydd, gyda thâl o £4 yn berthnasol ar adegau eraill.

### 6.3.10. Cronfa Ragoriaeth Conwy a Gwobr Chwaraeon

Fe wnaethom gyhoeddi dwy rownd o gyfleoedd grant ar gyfer pobl dalentog mewn chwaraeon, addysg a'r celfyddydau ym mis Mai a Gorffennaf. Mae Cronfa Ragoriaeth Conwy yn cynnig cymorth grant i rai o dan 30 oed sydd un ai'n cystadlu ar lefel genedlaethol mewn chwaraeon neu sy'n dalentog yn y maes celfyddydau, dawns, cerddoriaeth, drama ac addysg. Cynigir grantiau gwerth hyd at £800. Rhoddwyd arian o'r gronfa i 35 o bobl yn 2023/24.

Mae ein Gwobrau Chwaraeon hefyd yn gyfle i gydnabod campwyr talentog lleol, clybiau, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr yn y sir, ac ym mis Medi fe wnaethom atgoffa'r cyhoedd i gyflwyno eu henwebiadau cyn y dyddiad cau.

### 6.3.11. Canolfan Deuluoedd Llanrwst

Ym mis Mai ymwelodd Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Sarah Murphy, â Chanolfan Deuluoedd Llanrwst. Dyma'r hynaf o bedair canolfan deulu Conwy ac fe'i hariennir trwy Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru. Mae'r ganolfan yn ganolbwynt ar gyfer darparu gwasanaethau a chymorth i deuluoedd, ac mae'n darparu lle i asiantaethau eraill ddarparu cymorth i'r gymuned leol, megis hawliau lles, gwasanaethau ymweliadau iechyd cyffredinol, a nyrs ysgol. Roedd yr ymweliad gweinidogol yn gyfle gwych i arddangos gwaith y ganolfan.

### 6.8.12. Digwyddiadau Cerddoriaeth a Gwirfoddoli

Gan barhau â'r thema o fod yn egnïol, ym mis Gorffennaf, ymunodd Conwy â chyfres o ddigwyddiadau ledled y wlad dan arweiniad Age UK i gynnig Disgo Dydd i bobl dros 50. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghaffi Sheldon ym Mae Colwyn ym mis Gorffennaf. Mae ein Tîm Lles hefyd wedi bod yn gweithio gyda Goldies Cymru i ddod â sesiynau canu a cherddoriaeth i bobl hŷn ac iau yn y sir. Mae Goldies Cymru yn elusen sy'n trefnu sesiynau canu a gweithgareddau yn ystod y dydd gyda'r nod o wella lles ar gyfer unrhyw un a allai deimlo'n unig neu wedi'u hynysu. Hyd yn hyn maent wedi cynnal digwyddiadau yn Llandrillo-yn-Rhos, Llanrwst a Bae Colwyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo arosyniach@conwy.gov.uk.

Ym mis Medi lansiwyd Gigs y Gaeaf, sef cyfres o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw rhad ac am ddim mewn lleoliadau ledled y sir. Fe wnaethom annog pobl i gymryd rhan a gwirfoddoli i gefnogi'r digwyddiadau cymunedol hyn, gydag ystod o gyfleoedd o stiwardio i roi cefnogaeth cefn llwyfan.

### 6.8.13. Llyfrgelloedd yn Cefnogi Lles

Roedd yn bleser gennym gyhoeddi ym mis Mehefin bod un o'n prosiectau llyfrgell wedi'i ddewis i'w gynnwys fel rhan o Wythnos Llyfrgelloedd yn Newid Bywydau. Mae sesiwn Croeso Cynnes / Warm Welcome yn Llyfrgell Llanfairfechan yn dal i redeg yn llwyddiannus ar ôl cael ei sefydlu (ynghyd â sesiynau tebyg ar draws holl lyfrgelloedd Conwy) yn ystod camau cynnar yr argyfwng costau byw. I gael rhagor o wybodaeth am lyfrgelloedd, grwpiau a gweithgareddau Conwy, ewch i'ch llyfrgell leol neu www.llyfrgelloeddconwy.com.

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, derbyniodd y Cabinet ein datganiad blynyddol ac Asesiad Llywodraeth Cymru o Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022 i 2023. Llwyddodd Conwy i fodloni pob un o’r 12 hawl graidd yn llawn, ac o’r 10 dangosydd ansawdd, cyflawnwyd naw yn llawn, a un yn rhannol. Roedd y dangosydd a oedd wedi'i fodloni'n rhannol yn ymwneud â bodloni gofynion staffio a chymwysterau proffesiynol. Cydnabuwyd bod toriadau yn y gyllideb wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn o fewn y gwasanaeth. Canmolwyd y gwaith amrywiol a wneir gan staff llyfrgelloedd gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru, ac roedd yn amlwg bod ymrwymiad cryf i iechyd a lles, yn enwedig iechyd meddwl, wedi’i gyflawni drwy lawer o bartneriaethau allanol buddiol. Nodwyd hefyd bod ymgysylltu digidol yn cynyddu o fewn y gwasanaeth.

### 6.3.14. Credyd Pensiwn

Ym mis Medi fe wnaethom annog trigolion hŷn i gofrestru cais am Gredyd Pensiwn oddi wrth y Llywodraeth. Gall pobl fod yn gymwys os ydynt dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac ar incwm isel. Gall Credyd Pensiwn fod yn werth hyd at £3,900 y flwyddyn a gall ddarparu mynediad i ystod o fudd-daliadau eraill. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/pension-credit.

### 6.3.15. Planhigfa a Chaffi Bryn Euryn

Fis Awst, agorodd y Gwasanaeth Anabledd Blanhigfa Bryn Euryn ar ei newydd wedd yn dilyn ei hailddatblygu. Mae’r ganolfan arddio, y siop a’r caffi’n fenter ardderchog sy’n rhoi’r

cyfle i bobl ag anableddau sydd eisiau cyflogaeth gael eu mentora ym myd gwaith. Maent yn falch o fod yn arwain newid cadarnhaol ar gyfer y rhai ag anableddau sydd am ddechrau eu gyrfaoedd, gan hefyd sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael profiad siopa o'r ansawdd gorau. Mae'r caffi'n cael ei redeg gan yr asiantaeth bartner HF Trust, ac mae'n arddangos y cynnyrch gorau sydd wedi ei dyfu gartref a'i wneud yn lleol, yn ogystal â gwerthu eitemau gan fusnesau a darparwyr lleol dethol.

## 7. Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae'r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg

Mesurau: Dim statws

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### 7.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Mae nifer y gweithgareddau hyrwyddo cyhoeddus Cymraeg (Cymraeg) a gynhelir rhwng Ebrill a Medi wedi gostwng. Mae hyn yn rhannol oherwydd adnewyddu llyfrgelloedd a chau estynedig. Mae gweithgareddau llyfrgelloedd a gwybodaeth wedi cynnwys Amser Stori ddwyieithog yn wythnosol, digwyddiadau un-tro i hyrwyddo gwasanaethau i'r gymuned e.e. gydag ymweliadau ysgolion lleol, cymdeithasau hanesyddol, a gweithgareddau ar y cyd â rhaglen Creu Conwy a gweithgareddau Darllen ar y Cyd dwyieithog. Mae ein staff mewnol i hybu'r Gymraeg a'n harlwy o wersi Cymraeg yn parhau i dyfu.

**Mesurau bob dwy flynedd**

| **Teitl** | **Diwedd blwyddyn 2022 i 2023** | **Canol blwyddyn 2023 i 2024** | **Diwedd blwyddyn 2023 i 2024** | **Canol blwyddyn 2024 i 2025** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg - **cyfrif yn unig** | 612 | 601 | 1,167 | 502 |

**Mesurau Blynyddol**

| **Teitl** | **2022 i 2023** | **2023 i 2024** |
|---|---|---|
| Canran y swyddi a ddynodwyd fel 'Cymraeg yn Hanfodol' a gafodd eu llenwi gan siaradwr Cymraeg - **wedi'i feincnodi'n lleol**<br>**Targed 100%** | 100%<br>Gwyrdd<br>Gwell | 93%<br>Coch<br>Gwaeth |
| Canran y staff sy'n gallu siarad Cymraeg rhugl (ac eithrio staff ysgol) (lefelau 4 a 5) - **cyfrif yn unig** | 26% | 26% |
| Canran y staff sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg (1, 2, 3) – **cyfrif yn unig** | 50% | 51% |

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Nifer y staff sy’n derbyn y cynnig o hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle - **cyfrif yn unig** | 75% | 78% |

## 7.2. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae dau gam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r ddau ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg ac i hybu’r Gymraeg i gefnogi Cymraeg 2050 sef targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae ystod o opsiynau i staff ddysgu Cymraeg trwy amrywiaeth o gyrsiau gwahanol, a chynlluniau cyfaill, sy'n parhau i fynd o nerth i nerth. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gwella cynllunio a datblygu darpariaeth addysg Gymraeg yn y sir trwy roi’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym yn parhau i weithio ar ein cynllun strategol 10 mlynedd a gweithio gyda'n clystyrau o ysgolion.  Mae’r meysydd presennol i’w datblygu ar gyfer blwyddyn academaidd 2024 i 2025 fel a ganlyn:<br>• Datblygu darpariaeth Cylch Chwarae Cymraeg trwy Plethu Croesi’r Bont mewn ychydig o leoliadau i gefnogi ysgolion categori T2 Cymraeg (trosiannol Cymraeg Saesneg) ar eu taith Gymraeg.<br>• Cefnogi'r holl ysgolion Cymraeg categori T2 ymhellach i sicrhau bod eu darpariaeth Gymraeg ar darged ar gyfer 50% o'r cwricwlwm.  Sicrhau bod marchnata a chyfathrebu â budd-ddeiliaid yn dryloyw.  Defnyddio budd-ddeiliaid allanol (Yr Urdd/Menter Iaith) i wella darpariaeth achlysurol.<br>• Cefnogi ychydig o ysgolion ar hyd y Continwwm Iaith e.e. rhai yn symud o gategori iaith Gymraeg T2 i T3 mewn dosbarthiadau babanod (cyfrwng Cymraeg). Sicrhau bod marchnata a chyfathrebu â budd-ddeiliaid yn dryloyw.<br>• Cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i wella eu hethos a'u diwylliant Cymreig.<br>• Gwella mynediad dysgu Cymraeg i staff ar draws y sector.<br>• Cynllunio'n strategol i wella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ar lefel uwchradd.<br>• Bydd cynnydd yn erbyn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru. |

## 7.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a’r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi’r flaenoriaeth hon.

### 7.3.1 Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Hybu'r Gymraeg Newydd ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ei hystyried. Mae Ein Llais Cymraeg, 2024 i 2029. yn adeiladu ar ein harferion da blaenorol ac yn rhan bwysig o helpu i dyfu’r defnydd o’r Gymraeg ledled Conwy. Mae’r Strategaeth wedi’i seilio ar hyrwyddo’r Gymraeg yn y Teulu, Gweithle a Chymuned, a bydd yn ein cynorthwyo i hyrwyddo a hwyluso’r Gymraeg ledled y sir. Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu a’i monitro dros y pum mlynedd nesaf a bydd yn ein cefnogi gyda’n dysgu Cymraeg drwy bob cefndir.

### 7.3.2 Siarter Iaith Cymraeg – Ysgol Aberconwy

Roedd yn bleser gennym adrodd ym mis Gorffennaf mai Ysgol Aberconwy oedd yr ysgol uwchradd gyntaf yng Ngogledd Cymru i ennill gwobr arian y Siarter Iaith Gymraeg Campws Uwchradd. Mae hyn yn dyst i holl waith caled a brwdfrydedd disgyblion i gynyddu eu defnydd o’r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae gan Ysgol Aberconwy fentrau gwych, gan gynnwys Gwobrau Iaith Adrannol, cynllun pwrpasol sy’n darparu fframwaith clir i athrawon hybu a chynyddu’r defnydd o’r Gymraeg o ddydd i ddydd gyda dysgwyr. Mae’r ysgol hefyd yn cynnal Eisteddfod Ysgol yn flynyddol ym mis Mawrth a gall dysgwyr o bob oed gyfarfod yn ystod amser cinio yn y Caban, ystafell liwgar, unigryw a modern, i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg y tu hwnt i’r ystafell ddosbarth.

### 7.3.3 Uned Drochi Iaith Gymraeg

Ym mis Ebrill. Penododd y Cabinet gontractwr ar gyfer datblygu Uned Drochi Iaith Gymraeg yn Ysgol y Creuddyn. Bydd yr uned yn cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer trochi disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch lleol. Ariennir y prosiect gyda chyllid grant Llywodraeth Cymru.

# 8. Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a'u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a'i barchu

Mesurau: Dim statws

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 8.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Nid oes unrhyw ddata newydd i'w gyflwyno i gefnogi'r canlyniad hwn yn yr adroddiad hwn.

### Mesurau Blynyddol

| Teitl | 2022 i 2023 | 2023 i 2024 |
|---|---|---|
| Canran y camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol – **cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 |
| Canran y camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn y Cynllun LHDTC+ – **cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 |
| Canran camau gweithredu Conwy Gynhwysol sy'n cael eu cyflawni ac y dylid eu cyflawni yn flynyddol – **cyfrif yn unig** | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2023 i 2024 | Amherthnasol<br>Newydd ar gyfer 2024 i 2025 |

## 8.2 Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pedwar cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae dau ar y trywydd iawn a dau yn gyflawn.

## Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Parhau i wneud ein cyfathrebiadau yn hygyrch. Byddwn yn defnyddio Plain English a Chymraeg Clir ac yn darparu cymorth cyfieithu a dehongli er mwyn sicrhau fod pobl yn deall yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud a sut allent gyfrannu. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Rydym wedi cyflwyno "Strategaeth Gyfathrebu 2024-26", sy'n cynnwys cyfeiriad penodol at wneud ein Cyfathrebiadau yn hygyrch i bawb. Mae hefyd yn cyfeirio at ein hymrwymiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau ac yn ein gweithle. Cefnogir y strategaeth hon gan gynllun gweithredu sy'n cynnwys tasgau penodol, megis sicrhau bod y Canllaw Steil Brand a'r "Writing Guide: How we Sound" yn cael eu diweddaru a'u dosbarthu i'r awdurdod ehangach i helpu i lunio ein neges i'r gymuned ehangach. |
| Parhau i adeiladu ein perthynas a mentrau cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Fe wnaethom gyfarfod â nifer o Gynghorau Tref a Chymuned ym mis Mehefin (yn bersonol ac ar-lein) i drafod syniadau a materion. O ganlyniad i hyn rydym yn gweithio'n agosach gyda swyddogion a Chynghorau Tref a Chymuned i fynd i'r afael â chyfathrebu.<br><br>Mae modiwlau hyfforddi Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned a Chlercod (ac unigolion yn y gymuned os yn briodol) wedi bod yn rhedeg ers mis Gorffennaf 2024. Mae pawb oedd yn bresennol wedi gwerthfawrogi'r cyfle, ond mae'r nifer sy'n manteisio arno wedi bod yn siomedig, o bosibl oherwydd yr amser o'r flwyddyn. |
| Gan ddatblygu cynlluniau i gefnogi ein hymrwymiad i Amrywiaeth mewn Democratiaeth, strategaeth annog y cyhoedd a hygyrchedd a thryloywder wrth wneud penderfyniadau. | Wedi'i gwblhau | Mae'r gweithgaredd hwn bellach wedi'i ymgorffori fel arfer busnes-fel-arfer. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn croesawu a chefnogi amrywiaeth drwy weithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb eraill megis cynlluniau gweithredu Cymru Wrth-Hiliol ac LHDTC+ Llywodraeth Cymru. | Wedi'i gwblhau | Mae ein Cynllun Conwy Gynhwysol bellach wedi'i fabwysiadu, gan gynnwys ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy ddiweddariadau rheolaidd i ddemocratiaeth. Bydd monitro ac ysgogiad strategol yn digwydd drwy'r Grŵp Llywio Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant. Fel sefydliad rydym yn parhau i ddysgu ac adolygu ein harferion gwaith i sicrhau ein bod yn gynhwysol. Mae staff wedi cael cynnig sesiynau ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth a sesiynau aflonyddu gwrth-rywiol yn ddiweddar. Gall yr holl staff nawr gael mynediad at 6 modiwl Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant ar ein platfform Diwylliant Hyfforddi ac mae'r hyfforddiant hwn, a sesiynau gloywi 3 blynedd, bellach yn rhan o'n cyfres o ddysgu hanfodol. Rydym bellach yn aelodau o Gyflogwyr Cynhwysol, gan agor adnodd enfawr o daflenni ffeithiau a gweminarau i bob aelod o staff. Mae rhaglenni gwaith o ddiwrnodau ymwybyddiaeth hefyd wedi'u threfnu, gan ddechrau gyda'r Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant. |

## 8.3. Crynodeb o eitemau newyddion ag eitemau pwyllgor

Cafwyd y newyddion a'r eitemau pwyllgor ychwanegol canlynol yn ystod y cyfnod diwethaf i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

### 8.3.1. Cefnogi Democratiaeth

Buom yn gweithio'n galed yn y cyfnod hwn i gefnogi etholiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ym mis Mai, a'r Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Cyhoeddwyd yr hysbysiad o Etholiad Seneddol y DU gennym ym mis Mai, gyda'r sir yn disgyn i etholaethau Bangor Aberconwy (a weinyddir gennym ni) a Gogledd Clwyd (a weinyddir gan Gyngor Sir Ddinbych). Gwahoddwyd enwebeion i gyflwyno eu papurau erbyn 4pm ar 7 Mehefin, gyda'r Datganiad Personau Enwebedig a'r Hysbysiad Pleidleisio yn cael eu cyhoeddi'r un diwrnod, gan gynnwys manylion am sefyllfa gorsafoedd pleidleisio. Anogwyd aelodau'r cyhoedd i gofrestru i bleidleisio erbyn Mehefin 18, ac fe'u hatgoffwyd eto am yr angen i gyflwyno dull adnabod ar gyfer yr etholiad a'u hannog i wneud cais am ID pleidleisiwr am ddim os oes angen erbyn Mehefin 26. Yng

nghyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor, diolchodd yr Arweinydd a’r Prif Weithredwr i'r holl staff ac am eu cymorth i gefnogi'r etholiadau. Yn benodol, diolchwyd yn bersonol i’r timau Etholiadau a Gwasanaethau Democrataidd am eu gwaith caled yn prosesu 4,000 o geisiadau cofrestru ychwanegol, miloedd o geisiadau am bleidlais bost ac yn ateb dros fil o alwadau cyn yr Etholiad Cyffredinol.

Ym mis Medi fe wnaethom gynnal ein canfasiad blynyddol i wirio manylion cofrestru pleidleiswyr. Mae’r canfasiad blynyddol yn ein galluogi i gadw’r gofrestr etholiadol yn gyfredol, i nodi pwy sydd mewn perygl o golli eu llais mewn etholiadau, ac i’w hannog i gofrestru cyn ei bod hi’n rhy hwyr. Anogwyd y rhai sydd wedi symud tŷ yn ddiweddar yn arbennig i wirio eu manylion. Os nad ydych wedi cofrestru ar hyn o bryd ac eisiau bod, y ffordd hawsaf yw ar-lein yn [www.gov.uk/register-to-vote](http://www.gov.uk/register-to-vote).

Yn ddiweddar buom yn helpu i hyrwyddo galwad am aelodau cyfetholedig i ymuno â Phanel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru o fis Tachwedd 2024 i fis Hydref 2028. Y rôl heriol hon fydd craffu a chefnogi gwaith Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Gwahoddwyd ceisiadau erbyn Medi 27 gan bobl â diddordeb sy'n deall pwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus, sut y cânt eu darparu, ac sydd â diddordeb mewn diogelwch cymunedol, plismona, a materion cyfiawnder troseddol. Mae'r panel yn awyddus i adlewyrchu ehangder cymunedau Gogledd Cymru a chroesawyd ceisiadau gan bawb cymwys ac o bob rhan o'r gymuned.

Ym mis Medi hefyd gwahoddwyd gwirfoddolwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd a phrofiadau i ymuno â'n Panel Apêl Annibynnol sy'n ystyried lleoliadau ysgol. Os gwrthodir lle i blentyn mewn ysgol oherwydd bod y grŵp blwyddyn yn llawn neu gyda gormod ar y rhestr aros, gall rhiant neu ofalwr apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw. Mae’r panel yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried gwybodaeth gan yr ysgol a rhiant neu ofalwr i benderfynu a ddylid dyfarnu lle yn yr ysgol honno ai peidio yn unol â Chod Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Caiff aelodau panel eu cefnogi gan glerc hyfforddedig ym mhob gwrandawiad, er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan.

### 8.3.2. Cyfamod y Lluoedd Arfog

Rydym ni wedi pwysleisio ein hymrwymiad i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog drwy ail-lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Nod y Cyfamod yw annog cymunedau lleol i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hardal; hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o faterion sy'n effeithio ar gymuned y lluoedd arfog; a chydnabod a chofio'r

aberthau a wnaed.  Fe wnaethom arwyddo'r cyfamod gyntaf yn 2013, a dyfarnwyd y Lefel Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn 2019.

### 8.3.3. Llais Ieuenctid

Ym mis Mehefin gwahoddwyd pobl ifanc i gymryd rhan mewn materion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymuned.  Mae Cyngor Ieuenctid Conwy yn tyfu ac yn croesawu pobl ifanc 13-25 oed.  Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn awyddus i glywed gan bobl ifanc sydd â phrofiad o fyw mewn tai dros dro, yn ddigartref neu sy'n dymuno bod yn rhan o wella tai, i ymuno â grŵp newydd.   I ddarganfod mwy, ewch i'n Gwefan Gwasanaeth Ieuenctid neu dewch o hyd i ni ar Facebook yn www.facebook.com/CyngorIeuenctidConwyYouthCouncil.

Ym mis Mehefin fe wnaethom roi benthyg ein cefnogaeth i Wythnos Gwaith Ieuenctid 2024, a oedd yn ceisio tynnu sylw at effaith anhygoel ac amrywiaeth gwaith ieuenctid ledled Cymru.  Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau a dathliadau ar-lein, yn ogystal â channoedd o weithgareddau a mentrau sydd fel arfer yn cael eu cynnal bob wythnos. Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i weithwyr ieuenctid ledled y wlad rannu arfer da ac annog mwy o bobl i gymryd rhan. Nododd Gwasanaeth Ieuenctid Conwy y digwyddiad gydag amrywiaeth o weithgareddau at ddant pawb, gan gynnwys prosiectau celf a chrefft, sesiynau e-feicio, a gweithgareddau chwaraeon.

### 8.3.4. Senedd yr Ifanc Cymru

Roeddem yn falch bod ein Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i gyhoeddi fel partner penodol ar gyfer trydedd Senedd yr Ifanc Cymru.  Bydd y rhestr derfynol o 20 o sefydliadau partner yn cynnal etholiadau i ddewis person ifanc 11 i 17 oed i gynrychioli barn pobl ifanc dros y tymor dwy flynedd nesaf.  Mae ein cyfranogiad yn sicrhau bod lleisiau llawer o bobl ifanc o bob rhan o Gonwy yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli yng ngwaith Senedd yr Ifanc Cymru ar lwyfan cenedlaethol.

### 8.3.5. Cronfa Cydlyniant Cymunedol

Mae Cronfa Cydlyniant Cymunedol Gogledd Orllewin Cymru, a weinyddir gan Dîm Cydlyniant Cymunedol Gogledd Orllewin Cymru, yn gynllun grant bach a all ddarparu cyfleoedd i grwpiau cymunedol trydydd sector, i gyflawni gwaith, hyrwyddo cydlyniant a mynd i'r afael â thensiynau cymunedol. Ym mis Awst gwahoddwyd sefydliadau i wneud cais am gyllid o rhwng £500 a £5,000 ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau neu

lenyddiaeth gefnogol sy'n hyrwyddo a meithrin cydlyniant o fewn cymunedau. Daeth ceisiadau i ben ar 9 Medi.

### 8.3.6. Strategaeth Gyfathrebu

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Mai, cymeradwyodd y Caninet ym mis Gorffennaf ein Strategaeth Gyfathrebu newydd, sy'n nodi ein cynllun ar gyfer marchnata a chyfathrebu mewnol ac allanol. Y gobaith yw y bydd y strategaeth yn cefnogi cyfathrebiadau sy'n hawdd i'n trigolion, staff, partneriaid, a'r gymuned ehangach ymgysylltu â nhw. Amcanion y strategaeth yw:

1. Cryfhau cyfleoedd i bobl leol a grwpiau ddylanwadu ar bolisïau, darpariaeth gwasanaethau a'r hyn sy'n digwydd yn eu cymunedau a datblygu a chynnal y cyfleoedd hynny.
2. Adeiladu ar enw da Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy osod ein gwerthoedd corfforaethol yn ganolog i bopeth a wnawn a chyflawni ein gwaith yn gyson â fframwaith y brand.
3. Datblygu strwythur cynlluniedig ar gyfer yr holl waith cyfathrebu ac ymgysylltu a phennu hierarchaeth bendant o negeseuon strategol sydd â chysylltiadau uniongyrchol â gweledigaeth a chanlyniadau ein Cynllun Corfforaethol.
4. Cyflwyno deunydd cyfathrebu cydgysylltiedig, rhagweithiol a chadarnhaol ynghylch y negeseuon strategol â blaenoriaeth.
5. Meithrin hyder a chymhwysedd y sefydliad wrth reoli'r gwaith ymgysylltu a chyfathrebu yn rhagweithiol ac yn effeithiol.
6. Gweithio â chymunedau i'w helpu i ddeall sut ariennir Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a pha wasanaethau y mae'n eu darparu.
7. Ein helpu i gyflawni ein hamcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2022-27).

Cadarnhawyd bod grŵp strategaeth gyfathrebu ategol wedi'i sefydlu i helpu i gyflawni'r strategaeth. Gellir gweld y strategaeth derfynol ar ein gwefan.

### 8.3.7. Llais Lleol: Graeanu

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, ystyriodd y Cabinet argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle yn dilyn Galwad gan Gynghorydd i Weithredu. Gofynnwyd iddynt ystyried darparu graeanu ar Ffordd Tŷ Gwyn ar y Gogarth. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai hyn yn golygu cost ychwanegol o rhwng £100k a £200k, prynu

cerbyd addas i gael mynediad i'r llwybr, a chyflogi staff ychwanegol. Am y rheswm hwn, cytunodd y Cabinet na fyddent yn cefnogi'r argymhelliad. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r drefn bresennol o raeanu tractor yn graeanu'r llwybr yn ystod amodau difrifol yn parhau.

# 9. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn

Mesurau: Dim statws

Camau Gweithredu: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

## 9.1. Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Fesurau

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod fel rhan o'n fframwaith Cynllun Corfforaethol er mwyn cefnogi'r canlyniad hwn. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r mesurau allweddol wrth i ni drafod blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol ymhellach yn ystod 2024 i 2025 a'n cadernid fel cyngor gan alinio'r flaenoriaeth hon yn agos â'r Cynllun Cadernid Conwy. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i rai mesurau ariannol allweddol ynghylch amrywiant gyda'r gyllideb, yr arbedion a gyflawnwyd a'n balansau wrth gefn.

## 9.2.1. Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae pum cam gweithredu wedi'u rhestru o fewn y canlyniad hwn yn y Cynllun Corfforaethol. Mae pob un ar y trywydd iawn.

### Camau Gweithredu

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gan gydnabod mai ein gweithwyr yw ein hadnodd pwysicaf byddwn yn ysbrydoli perfformiad da yn ogystal â chefnogi eu hiechyd, lles a datblygiad personol a phroffesiynol drwy fframwaith rheoli perfformiad gweithwyr newydd (Sgwrs Conwy). | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Fe wnaethom fonitro'r defnydd o, a gwrando ar adborth yn dilyn gweithredu Sgwrs Conwy. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno modiwl iTrent newydd i gefnogi rheolwyr a gweithwyr i reoli eu perfformiad, codi unrhyw heriau'n gynnar fel y gellir eu rheoli'n briodol, a chynnal nodiadau a myfyrdodau cyfredol ar sgyrsiau. Mae canllawiau ar ddefnyddio'r modiwl wedi'u hychwanegu at hyfforddiant iTrent i reolwyr, ac mae dogfennau canllaw wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Dal i ddatblygu ffyrdd i siarad gyda'n staff a gwrando arnynt. | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae'r Prif Weithredwr, a'r Cyfarwyddwyr Strategol yn cynnal cyfres o gyfarfodydd staff ddwywaith y flwyddyn i wrando a siarad â staff.<br>Cynhaliwyd Caffi Menopos hefyd yn y cyfnod hwn, a oedd â phresenoldeb da a chafwyd adborth cadarnhaol.<br>Mae Rheolwyr Gwasanaeth o fewn y Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad wedi dechrau adolygiad o'n gweithgarwch ymgysylltu i nodi unrhyw fylchau neu welliannau i'w gwneud. |
| Gweithredu'r prosiect recriwtio corfforaethol er mwyn gwella ein dull tuag at recriwtio a chadw staff | Gwyrdd<br>Ar y trywydd iawn | Mae Cam 2 o'r prosiect yn datblygu'n dda.<br>Mae'r Tîm Marchnata wedi datblygu ymgyrch farchnata 12 mis sy'n cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r tîm wedi bod yn adolygu ac yn creu tudalennau gwe newydd, gan gynnwys y dudalen Gyrfaoedd mewn Gofal Cymdeithasol sydd i'w lansio'n fuan. Maent hefyd yn defnyddio dulliau marchnata mwy traddodiadol, megis dosbarthu hysbysebion ar gefn drysau toiledau mewn gwahanol leoliadau.<br>Mae'r Ffrwd Waith Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant wedi canolbwyntio ar weithredu offeryn deallusrwydd artiffisial hawdd ei ddarllen a Plain English. Yn ogystal, maent yn adolygu polisïau, gweithdrefnau a dulliau hyfforddi i sicrhau bod ein proses recriwtio yn parhau i fod yn rhydd rhag gwahaniaethu. Mae'r Ffrwd Waith ar hyn o bryd yn aros i'r Rheolwr Amrywiaeth, Ecwiti a Chynhwysiant ddechrau yn ei swydd.<br>Mae Ffrwd Waith y Broses AD wrthi'n adolygu'r Polisi Recriwtio a Dethol cyffredinol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r tîm yn edrych ar ba gymorth sydd ar gael i ymgeiswyr.<br>Disgwylir i Ffrwd Gwaith y Gymraeg gau ym mis Ionawr 2025 unwaith y bydd yr offeryn asesu'r Gymraeg ar gyfer ymgeiswyr wedi'i lansio. |

| Teitl | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu ein Fframwaith Doethwaith a’r model gweithio’n hybrid, gyda’r nod o ddatblygu’r ffyrdd buddiol o weithio a gyflawnwyd yn ystod y cyfnodau clo a manteisio i’r eithaf arnynt, a gwneud pethau’n wahanol er budd gostwng allyriadau carbon, er lles staff, y gwasanaethau a ddarperir i’r cyhoedd ac effeithlonrwydd ledled y sefydliad. | Wedi’i gwblhau. | Mae'r gweithgaredd hwn bellach wedi'i ymgorffori. Mae'n amlwg i'r holl staff fod ganddynt swyddfa, gyda chaniatâd i weithio gartref. Mae'r ffocws ar ryngweithio personol yn cael ei wneud yn glir i'r holl staff. Mae gan bob gwasanaeth gytundebau tîm sy'n nodi sut y bydd y tîm yn gweithio i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar fusnes. Mae paratoadau'n cael eu gwneud i addasu'r cynllun parthau gweithio hybrid yng Nghoed Pella ar gyfer staff Bodlondeb. |

### 9.2.2. Gwaith Trawsnewid: Diweddariad ynglŷn â chamau gweithredu

Mae’r wyth cam gweithredu canlynol wedi’u nodi i gefnogi ein rhaglen drawsnewid. Mae pob un ar y trywydd iawn. Rydym nawr yn bwriadu datblygu rhaglen er mwyn cael dull mwy strwythuredig a throsolwg corfforaethol. Rydym hefyd yn nodi pa adnoddau sydd eu hangen fel buddsoddiad tymor byr i wireddu arbedion. Mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad yn rhan o rwydwaith trawsnewid Cymdeithas Llywodraeth Leol a byddant yn mynychu cynhadledd trawsnewid Cymdeithas Llywodraeth Leol ar-lein rhad ac am ddim yn 2025. Mae cydweithwyr o bob maes gwasanaeth yn gweithio ar y cyd ar draws y rhanbarth i nodi cyfleoedd ac i rannu arfer da.

#### 9.2.2.1. Cynllun Gwytnwch

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar y Cynllun Gwytnwch i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Medi 2024 ac fe’i cymeradwywyd wedi hynny gan y Cabinet. Yn dilyn cylch cyllideb heriol i osod cyllideb 2024 i 2025, ac yn dilyn ymlaen o ddysgu ar draws y DU, trefnwyd i ni dderbyn cyflwyniad gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Yn dilyn hyn a chyda chymeradwyaeth y Cabinet, mae'r Gwasanaeth Cyllid wedi bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda CIPFA i fyfyrio ar eu harbenigedd a'u harweiniad ac elwa arnynt, yn ogystal ag adolygu gwybodaeth meincnodi. Mae CIPFA wedi cefnogi Comisiynwyr a benodwyd gan y Llywodraeth mewn Awdurdodau Lleol yn Lloegr, sydd wedi cyhoeddi rhybudd Adran 114, yn ogystal Awdurdodau Lleol eraill yn Lloegr sydd wedi ceisio Cymorth Ariannol Brys gan Lywodraeth y DU.

Mae'r Cynllun Gweithredu Adolygiad Cymheiriaid wedi'i ddiweddaru a'i gwmpasu mewn Cynllun Gweithredu Gwytnwch newydd sy'n adlewyrchu'r amrediad o waith sydd ar y gweill.

I sicrhau cyflawnder, yn ogystal a chymorth ac arweiniad cyffredinol gan CIPFA, maen nhw hefyd wedi bod yn cynorthwyo â gwaith penodol cysylltiedig â Gofal Cymdeithasol. Rheoli Asedau ag agweddau ar ein gweinyddiaeth. Bydd y Cynllun Gwytnwch yn cael ei ddiweddaru pan fydd y gwaith hwn yn arwain at gamau gweithredu ychwanegol penodol sy'n berthnasol.

Er gwaethaf y setliad gan Lywodraeth Cymru, ac yng ngoleuni ein sefyllfa wrth gefn, nid oes amheuaeth nad yw ein sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn ansicr. Mae'r Cynllun Gwytnwch yn nodi camau gweithredu hanfodol bwysig y bydd yn rhaid i ni eu cymryd o sicrhau llwybr tuag at wytnwch. Fodd bynnag, nid yw'n gwarantu unrhyw beth a bydd, mewn unrhyw achos, yn gofyn bod pob aelod o'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau anodd wrth osod cyllidebau heriol iawn yn y blynyddoedd i ddod.

### 9.2.2.2. Technology One (T1)

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Mae'r prosiect wedi cyflwyno system ariannol graidd newydd i Gonwy, a aeth yn 'Fyw' ym mis Hydref 2023. Roedd y modiwlau newydd a gyflwynwyd yn cynnwys Prynu, Cyfriflyfr Cyffredinol, Cyfrifon Taladwy, Storfeydd a Bilio a Dyledwyr. Mae Cam 1 y prosiect bellach wedi'i gwblhau ac mae'r system wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus.

Mae Cam 2 yn cynnwys cyflwyno modiwlau pellach, gan gynnwys Cyllideb a Rhagolygon, Rheoli Contractau, a Chardiau Prynu. Dechreuodd y gwaith ar y rhain ym mis Awst, a byddant wedi'u cwblhau erbyn mis Ebrill 2025. Mae Cam 2 eisoes wedi cyflawni gweithrediad system Rheoli Arian Parod a Chysoniad Banc newydd a ddarperir gan Civica, ac aeth hon yn fyw ym mis Hydref 2024.

Mae cychwyn y modiwl Cyllideb a Rhagolygon yn gam arwyddocaol mewn rheolaeth ariannol, gan sicrhau dull safonol ar draws gwasanaethau amrywiol. Mae Cyfrifwyr Gwasanaeth wedi gweithio gyda T1 i ddylunio'r modiwl ac wedi dechrau ar y gwaith adeiladu. Yn dilyn profi ym mis Rhagfyr, mae'r dyddiad 'Mynd yn Fyw' wedi'i gynllunio ar gyfer Ebrill 2025. Mae dylunio ac adeiladu modiwl y Cerdyn Prynu wedi'i gwblhau. Mae Defnyddwyr Terfynol y mae angen eu hyfforddi i gyfrannu at y modiwl wedi'u nodi ac mae

hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Ionawr, gyda dyddiad 'Mynd yn Fyw' ar ddiwedd Ionawr 2025. Mae dyluniad y modiwl Contractau a Chaffael hefyd wedi dechrau gyda dyddiad ‘Mynd yn Fyw’ wedi’i gynllunio ar gyfer dechrau mis Chwefror 2025.

### 9.2.2.3. Rheolaethau Gwario

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Dechreuodd proses rheoli gwariant corfforaethol i sicrhau bod gwariant yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb ym mis Hydref 2024. Ni ddylid gosod unrhyw Archeb Brynu neu Gontract uwchlaw trothwy diffiniedig heb iddo gael ei gymeradwyo gan y Panel Rheoli Gwariant neu'r Bwrdd Caffael. Mae Paneli Gwariant Rheolaidd yn adolygu ac yn cymeradwyo gwariant dros £1k i £25k, a £25k i £50k. Mae’r Bwrdd Caffael yn adolygu gwariant arfaethedig dros £50k, ochr yn ochr â’r llwybr caffael arfaethedig.

Ym mis Tachwedd, derbyniodd yr aelodau gyflwyniad gan CIPFA ar yr heriau ariannol. Ym mis Rhagfyr a mis Ionawr 2025 bydd pob deiliad cyllideb yn cael hyfforddiant i ddeiliaid cyllidebau gan CIPFA.

Mae'r tîm Rheoli Swyddi Gwag yn cyfarfod bob wythnos i adolygu'r holl swyddi gwag, estyniadau i gontractau, honoraria ac ailstrwythuro bach. Mae argymhellion Rheoli Swyddi Gwag yn cael eu hadolygu gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Adnoddau.

### 9.2.2.4. Rhaglen Tai

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Sefydlwyd a chymeradwywyd y Bwrdd Rhaglen Tai a Digartrefedd gan y Ddemocratiaeth ym mis Chwefror 2023. Roedd hyn o ganlyniad uniongyrchol i gael ffocws penodol yn y Cynllun Corfforaethol ar lety fforddiadwy, priodol ac o ansawdd da, a’r ‘argyfwng tai’ ar draws y Sir. Roedd hefyd yn amlwg nad oedd ‘Tai’ yn fater i’r Gwasanaethau Tai yn unig, ond yn hytrach yn faes corfforaethol. Mae angen cefnogaeth gan nifer o wahanol wasanaethau i gyflawni amcanion penodol yn y Strategaeth Tai Lleol a’r Cynllun Corfforaethol o ran cyflenwad tai, polisi tai, grantiau tai ac ansawdd tai. Felly sefydlwyd y Rhaglen Tai a Digartrefedd i gyflawni'r amcanion hyn a sicrhau bod cefnogaeth ar draws yr awdurdod a chan bartneriaid allanol.

Mae’r prosiectau sy’n rhan o’r rhaglen ac yn cyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus y weledigaeth fel a ganlyn:

**1. Tai Fforddiadwy: Prosiect Safleoedd sy’n Eiddo i’r Cyngor**

Mae'r prosiect hwn yn darparu trosolwg o gyflenwi nifer o asedau tir awdurdodau lleol ar gyfer tai fforddiadwy ar draws y fwrdeistref sirol mewn cydweithrediad partneriaeth â phartneriaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Mae'r ffocws ar ddarparu'r safleoedd hynny sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan aelodau i'w gwaredu, y mae ffrydiau ariannu credadwy yn bodoli neu y gellir eu nodi ar eu cyfer.

Mae Gweithgor Tai Fforddiadwy wedi'i sefydlu er mwyn gyrru safleoedd ymlaen i'r cam cais cynllunio yn fwy effeithlon a chyflym. Mae dau safle yn mynd drwy'r broses hon ar hyn o bryd – Dwygylfylchi a safle Tŷ Hapus yn Llandudno. Mae safle Nant y Coed hefyd wedi’i gytuno i’w waredu i Cartrefi Conwy gan y Cabinet. Mae Arbenigwr Cynllunio wedi’i gaffael i gael Cais Cynllunio ar gyfer Tŷ Mawr erbyn Rhagfyr 2025.

**2. Prosiect Ansawdd, Caffaeliadau ac Addasiadau Tai**

Mae’r prosiect hwn yn nodi ac yn darparu ystod o lety fel rhan o’r Rhaglen Tai a Digartrefedd gyffredinol, gan ganolbwyntio ar:

- Caffaeliadau eiddo marchnad agored o bwysigrwydd strategol, gan gynnwys eiddo gwag.
- Llety dros dro (o ran y safle neu eiddo) – presennol a newydd (gan gynnwys modiwlaidd).
- Addasu ac adnewyddu ein heiddo
- Model gweithredu (bydd hwn yn llinyn cyffredin sy'n rhedeg trwy'r holl themâu uchod).

**3. Prosiect Gwella Gwasanaeth**

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau o fewn y Gwasanaeth Tai cyffredinol trwy adolygu a gweithredu newidiadau yn ymwneud â TG, polisïau a gweithdrefnau, llwybrau cyfeirio, trefniadau partneriaeth allanol, a threfniadau partneriaeth fewnol. Mae gan y prosiect ffocws penodol ar ymyrraeth gynnar ac atal gan y Gwasanaeth Tai. Mae cynnydd sylweddol wedi’i wneud hyd yma o ran atal a darparu, gan gynnwys:

- Mae canolfan gyswllt yn cael ei sefydlu ar gyfer y tîm datrysiadau tai, sydd wedi cynyddu opsiynau mynediad trwy gwe-sgwrs a ffurflenni cyswllt ar-lein, sy'n golygu bod y tîm yn gallu cyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd.
- Rhaglen waith i gryfhau trefniadau monitro contractau a les landlordiaid i wella’r modd y caiff y cynllun llety dros dro ar les ei ddarparu. Bu gwell canlyniadau symud ymlaen, gyda phum aelwyd yn symud ymlaen bob mis ar gyfartaledd, ac amserau trosglwyddo unedau gwag sylweddol i lawr i gyfartaledd o 41 diwrnod, a thros 90% o rent wedi’i gasglu dros y cyfnod o 6 mis.
- Ffocws ar leihau cost llety gwely a brecwast, a dull caffael newydd yn cael ei roi ar waith i sicrhau ein bod yn sefydlu’r gwerth gorau pan fyddwn yn defnyddio llety gwely a brecwast.

Mae'r holl brosiectau uchod wedi datblygu cynlluniau prosiect cadarn a phapurau opsiynau, a fydd yn cefnogi Bwrdd y Rhaglen a democratiaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ar gyfeiriad strategol ar gyfer darparu tai yn y Sir. Yng nghyfarfod y Bwrdd Rhaglen ym mis Tachwedd, darparwyd diweddariadau ar bob safle sy'n rhan o'r prosiect Tai Fforddiadwy ac Ansawdd Tai, Caffaeliadau ac Addasiadau (TACA) ac mae nifer o ddatblygiadau wedi'u gwneud mewn perthynas â safleoedd penodol.

Cytunwyd ar achos busnes cyfalaf ar gyfer tai ar gyfer 2023 i 24, sef £2.4 miliwn ac mae gwariant wedi dechrau yn erbyn y cyllid hwn. Sicrhawyd bod cyllid Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro (TACP) Llywodraeth Cymru ar gael yn 2023 i 2024 i Awdurdodau Lleol gael mynediad ato ac fe’i hystyriwyd gan brosiect TACA, a wnaeth gais ac a lwyddodd i sicrhau cyllid ar gyfer 4 eiddo. Cwblhawyd gwaith adnewyddu yn un o'n heiddo ym mis Gorffennaf 2024, a chafodd ei feddiannu o fis Awst 2024. Rydym yn gweithio i adnewyddu'r 3 eiddo a gaffaelwyd sy'n weddill, gyda'r tendr wedi'i ddosbarthu ym mis Gorffennaf 2024, gwaith yn dechrau ar y safle ym mis Hydref 2024, ac wedi'i gwblhau erbyn canol mis Chwefror, 2025. Darparodd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro yn 2023 i 2024 67 eiddo ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol parhaol tai, naill ai drwy'r cyngor neu LCC.

Gwnaethpwyd cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ddiwedd Mehefin 2024 yn nodi bod Sir Conwy yn ei chyfanrwydd wedi derbyn £5.1 miliwn mewn TACP ar gyfer 2024 i 2025. Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb mewn perthynas â chyflawni’r swm Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i Lywodraeth Cymru yn gynnar ym mis Awst 2024, ac roedd hyn yn cynnwys yr hyn yr oeddem ni a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar draws Conwy

yn ei gynnig. Rydym yn bwriadu defnyddio'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro i ddechrau gwaith adnewyddu ar 4 eiddo sydd eisoes yn eiddo iddynt rhwng 2024 a 2025.

#### 9.2.2.5. Strategaeth Swyddfeydd 2 (OAS2) a Rheoli Asedau

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Roedd ein Strategaeth Swyddfeydd wreiddiol yn canolbwyntio ar adeiladu Coed Pella a lleihau ein hystâd swyddfeydd gwasgaredig, nad oedd y rhan fwyaf ohono yn ofod swyddfa pwrpasol. Arweiniodd at gau swyddfeydd mawr yn swyddfeydd Dinerth Road, y swyddfeydd Dinesig, adeilad Glan y Don, yr anecs, a phorthdy'r gofalwr. Yn ogystal, caewyd 12 o swyddfeydd llai eraill oedd yn heneiddio ac yn aneffeithlon ym Mae Colwyn a Llandudno hefyd.

Mae cam 2 y Strategaeth Swyddfeydd felly yn ddilyniant naturiol, nawr bod gweithio hybrid wedi'i hen sefydlu, i leihau'r ystâd swyddfeydd i un adeilad swyddfa pwrpasol, modern ac effeithlon.

Yn dilyn ein gwahoddiad ym mis Mawrth ar gyfer datganiadau o ddiddordeb ynglŷn â defnydd ein swyddfa ym Modlondeb yn y dyfodol, ym mis Gorffennaf bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau yn ystyried opsiynau ar gyfer cael gwared trwy brydles atgyweirio ac yswirio llawn 250 mlynedd i gynigydd a ffafrir. Fel rhan o hyn, bu'r pwyllgor yn ystyried a oedd costau adleoli swyddogaethau o Fodlondeb yn golygu bod ein strategaeth un swyddfa yn hyfyw. Yn ei gyfarfod ym mis Awst, dyfarnodd y Cabinet y brydles i Ideas Forums Ltd o Gaerdydd, a fydd yn adnewyddu'r swyddfeydd fel Canolfan Fusnes ac Arloesi. Cafodd y cynnig ei ffafrio gan ei fod yn cynnig dyfodol cynaliadwy i'r adeilad, ac yn darparu cyfleoedd datblygu economaidd i dref Conwy a'r ardal ehangach. Bydd lle a chymorth am ddim ar gael i'r rhai sydd am ddod yn entrepreneuriaid. Trwy drawsnewid Bodlondeb yn ganolfan entrepreneuriaeth o safon fyd-eang, nod Ideas Forums yw creu cannoedd o swyddi newydd a degau o filiynau o bunnau i'r economi leol dros y pum mlynedd nesaf.

Ar ôl cytuno ar y brydles hirdymor, cymeradwyodd y Cabinet ym mis Medi y rhybuddion gweithdrefnol sydd eu hangen i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o faint o dir a fydd yn cael ei drosglwyddo. Nid yw'r man agored sydd wedi'i gynnwys yn y brydles yn cynnwys y senotaff, y lawnt, y coetir, y cae criced, y cyrtiau tenis, a'r man chwarae i blant, a bydd y cyhoedd yn dal i allu cael mynediad i'r llwybrau troed a'r ffordd. Byddai'r lesddeiliad yn gyfrifol am gynnal a chadw'r holl ardaloedd ar brydles, ac nid yw'n fwriad gan y cynigydd a

ffafrir i ddatblygu ardaloedd sy’n hygyrch i’r cyhoedd.  Yn ogystal, wrth gwrs, byddai unrhyw ddatblygiad hefyd yn amodol ar y broses gynllunio.

Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i ddemocratiaeth yn cadarnhau'r achos busnes llawn, gyda chostau tendro, ar gyfer adleoli swyddogaethau o Bodlondeb.

Mae'r holl gymeradwyaeth ddemocrataidd bellach i law i symud ymlaen gyda throsglwyddo Bodlondeb a'r gwaith yng Nghoed Pella i gyflawni'r strategaeth.  Mae trosglwyddo Bodlondeb yn amodol ar bedair dogfen gyfreithiol ar wahân sy'n agos at fersiwn derfynol, ac yn dilyn hynny gall CBSC ymrwymo i gontract gyda Quidos Investments Limited (QIL); ar ôl i'r rhain gael eu llofnodi, gall CBSC wedyn anfon llythyr o fwriad fel y gall SWG Construction Ltd symud ymlaen i alluogi'r gwaith adeiladu yng Nghoed Pella.  Yna gellir cytuno a chyhoeddi rhaglen ffurfiol ar gyfer cyflwyno’r gwaith fesul cam, a fydd wedyn yn llywio’r broses o drosglwyddo swyddogaeth i Goed Pella, fel y gall CBSC ddarparu meddiant gwag o Bodlondeb erbyn 30 Mai 2025 (sef dyddiad trosglwyddo’r ased i QIL).  Fel rhan o gyflenwi meddiant gwag mae'r broses o dacluso yn mynd rhagddi ac yn gynnar yn 2025 bydd y broses o wagio Bodlondeb o'i gynnwys yn mynd rhagddi.  Mae cyfathrebu gyda staff yn parhau a bydd y parthau yng Nghoed Pella yn cael eu rhannu yn gynnar yn 2025, ynghyd â rhaglen yn nodi pryd y bydd symudiadau amrywiol yn digwydd.

Mae Strategaeth Rheoli Asedau wedi'i diweddaru yn cael ei drafftio ar hyn o bryd. Rhoddwyd trosolwg lefel uchel i'r Tîm Arwain Strategol o sut y byddai datblygu Cynllun Rheoli Asedau newydd yn digwydd. Gwnaethpwyd arweiniad ynghylch canolbwyntio ar dderbyniadau cyfalaf a lleihau refeniw a sut y gellid symleiddio'r broses. Y bwriad yw cyflwyno cynnig gyda'r Cabinet Anffurfiol yn y Flwyddyn Newydd, a datblygu Strategaeth Waredu newydd fel blaenoriaeth, gyda'r Cynllun Rheoli Asedau i ddilyn yn ddiweddarach. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet Anffurfiol ddiwedd mis Chwefror gydag opsiynau ynghylch y Strategaeth Waredu.

### 9.2.2.6. Trawsnewid Digidol

Statws: Oren O fewn goddefiant

Mae trawsnewid gwasanaethau digidol yn parhau gyda'n trafodion digidol craidd yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2020.  Mae gwasanaethau sy'n cwmpasu archebion canolfannau ailgylchu, hawliadau cynhaliaeth, ceisiadau cludiant ysgol, grantiau gwisg ysgol, e-filio treth gyngor, ac archebion gwersi cerddoriaeth ysgol wedi cyfrannu i gynnydd i 250,000 o geisiadau yn 2024, i fyny o 222,000 yn 2023.  Nid yw hyn yn cynnwys ehangu

opsiynau gwasanaeth digidol ar-lein sylweddol pellach gan wasanaethau, gan gynnwys Ffit Conwy, Bwrdd Swyddi, a Riportiwch O. Byddwn yn parhau i adolygu'r meysydd lle mae'r galw mwyaf am wasanaethau digidol ac yn blaenoriaethu datblygiadau ar sail yr adborth hwnnw.

Yn ogystal â datblygiadau ar y we, sy'n amlwg i'w gweld, mae gwaith gydag ymgynghorwyr allanol (Triple Value Impact) wedi ein helpu i nodi ystod o atebion technoleg a all ein helpu i wneud y mwyaf o'r effeithlonrwydd a'r arbedion a gyflawnwyd eisoes drwy wasanaethau digidol dros y ddwy neu dair mlynedd nesaf. Ni fydd pob un o'r atebion yn gweithio i ni, ond rydym ar hyn o bryd yn pwyso a mesur dadansoddiad cost a mantais nifer o'r opsiynau.

Mae'r atebion sy'n cael eu hystyried yn cynnwys systemau sy'n seiliedig ar Ddeallusrwydd Artiffisial i achub y blaen ar y galw, symleiddio gweinyddiaeth, technoleg yn y cartref, recriwtio gofalwyr maeth, rheoli dyled, atal twyll, canfod twyll, ceisiadau cynllunio, awtomeiddio treth y cyngor, cyd-beilot, Hawdd i'w Ddarllen, pwyntiau gwefru cerbydau trydan, mabwysiadu technolegau robotig ymhellach, a rhannu gwybodaeth i hysbysu dinasyddion yn well o'u cymhwysedd i gael cymorth. Mae gwasanaethau ar hyn o bryd yn cael arddangosiadau o atebion a nodwyd fel rhai blaenoriaeth uchel.

Rydym yn parhau i ehangu a phrofi technolegau newydd, gan gynnwys ymelwa ar rwydwaith LoraWAN yr ardal sydd ar gael yn agored, i ddefnyddio synwyryddion mewn mannau anodd eu cyrraedd at ddibenion megis monitro llifogydd, gwiriadau oergelloedd, ac fel offer i helpu dinasyddion diamddiffyn i fyw'n annibynnol yn hirach.

### 9.2.2.7. Trawsnewid Gofal Cymdeithasol ac Addysg

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Mae ein Rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol yn cael ei llywodraethu a'i chefnogi gan Grŵp Noddi Rhaglen sy'n cyfarfod bob 2 fis, a Bwrdd Rhaglen sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae yna arweinwyr a thimau prosiect, gyda rhai prosiectau â Byrddau ar wahân. Cyflwynir adroddiadau cynnydd ar y rhaglen i'r pwyllgorau craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ac Addysg a Sgiliau yn flynyddol. Mae'r rhaglen yn parhau i gyflawni ei hamcanion drwy ddatblygu amrywiol ddatblygiadau gwasanaeth, o gymorth busnes i feysydd gwasanaeth rheng flaen, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer "Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Addysg Cynaliadwy ac Integredig". Mae'r datblygiadau presennol o dan y rhaglen yn cynnwys:

**1. Datblygu Gwasanaeth Cefnogi Busnes Integredig**

Diben y ffrwd waith hon yw datblygu gwasanaeth busnes integredig a chadarn ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Addysg, a ddarperir drwy'r gyllideb weithredol bresennol. Mae'r prif ailstrwythuro, gan gynnwys penodiadau i rolau rheolwr gwasanaeth, adran a thîm (Haenau 1 i 3), ac ailalinio timau a rheolwyr atebol, wedi'i gwblhau. Er bod y rhan fwyaf o swyddogaethau gwasanaeth wedi'u trosglwyddo (fel goruchwylio rhyddid gwybodaeth, mewnrwyd a gwefan y gwasanaeth, cwynion gwasanaeth, ceisiadau gwrthrych am wybodaeth a thîm systemau ar y cyd), mae angen trosglwyddo un tîm o hyd (yn dilyn prosesau AD). Mae dau reolwr haen tri wedi cael cyfle i ddatblygu eu meysydd gwasanaeth ymhellach.

**2. Trawsnewid Lleoliadau Preswyl a Gofal Maeth i Blant a Phobl Ifanc**

Mae’r rhaglen waith hon yn cyfrannu at gyflawni ein strategaeth lleoli, agenda dileu elw Llywodraeth Cymru, ac yn ymateb i’r pwysau sylweddol ar gyllideb lleoliadau gwasanaethau plant.

- **Lleoliadau Preswyl Lleol:** Gyda’r tri phrosiect cyfredol i fod i gael eu cwblhau o fewn wyth mis i’w gilydd, rhwng Hydref 2024 a Mai 2025 (gan greu 13 o leoliadau lleol), rydym yn cynnal cyfnod o fyfyrio ac yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd. Bydd yr ymarfer hwn yn cadarnhau unrhyw gamau blaenoriaeth presennol ac unrhyw rai newydd y mae angen eu datblygu o fewn y 6 i 12 mis nesaf ar gyfer lleoliadau maethu a phreswyl.

  Mae recriwtio staff wedi bod yn rhan allweddol o'r rhaglen dros y 9 mis diwethaf a bydd yn parhau i mewn i 2025, gyda llwybr dilyniant staff newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer y Gwasanaeth Preswyl Plant. At ei gilydd, mae tua 60 o staff i'w recriwtio, eu hyfforddi a'u cefnogi (gan gynnwys rheolwyr cofrestredig, dirprwy reolwyr, a gweithwyr preswyl plant).

- **Lleoliadau gofal maeth mewnol:** Er mwyn cadw a chynyddu lleoliadau gofal maeth, mae’r tîm, gyda chefnogaeth grant dileu elw Llywodraeth Cymru a chyllid y cyngor, wedi canolbwyntio ar y gweithgareddau canlynol:

  - Cyflwyno ffi gofalwr maeth uwch ar gyfer pob gofalwr maeth mewnol cyffredinol.

- Mwy o adnoddau staffio wedi'u neilltuo i ddatblygu lleoliadau maeth i blant ag anableddau.
- Cyflwyno polisi Ystyrlon o Faethu newydd. Cytunodd y Cabinet ar ryddhad treth y cyngor o 100% i Ofalwyr Maeth (Awdurdod Lleol cyntaf yng Ngogledd Cymru i gynnig hyn), gwyliau blynyddol ychwanegol i weithwyr Conwy sy'n neu'n dod yn ofalwyr maeth, a thrwyddedau parcio.
- Mwy o weithgareddau marchnata yn y gymuned, cyfryngau cymdeithasol, a digwyddiadau ar gyfer gofalwyr maeth, ac ati.
- Mwy o staff i gefnogi rhyddhau gorchmynion gofal a gwella'r cynnig a ddarperir ar gyfer Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGOs). Mae hyn wedi cynnwys Gweithiwr Cymdeithasol ar gyfer gwaith ailuno a rhyddhau, cydlynydd person cysylltiedig ychwanegol, a gweithiwr cyswllt amser teulu.

Mae arweinydd trawsnewid penodedig wedi'i benodi i gefnogi'r gwaith hwn, a ariennir drwy gyllid grant dileu elw Llywodraeth Cymru.

**3. Prosiect Unigolyn Cyfrifol y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (RISCA)**

Mae hyn yn cyflwyno model newid sefydliadol parhaol i weithredu ein dyletswyddau "Unigolyn Cyfrifol" RISCA ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cartref yn fewnol, a lleoliadau preswyl ar draws Gofal Cymdeithasol. Y diben yw cynyddu ein gallu i gyflawni dyletswyddau rheoledig y rôl uwch Unigolyn Cyfrifol i hyrwyddo, monitro a gwella ansawdd gwasanaeth. Mae'r model a'r trefniadau ariannu wedi'u cytuno, sy'n cynnwys creu swydd Unigolyn Cyfrifol benodedig newydd.

Penodiad yr Unigolyn Cyfrifol (Mai 2024) oedd carreg filltir gyntaf y prosiect hwn. Mae'r cam presennol yn cynnwys trosglwyddo swyddogaethau'r Unigolyn Cyfrifol o'r Unigolion Cyfrifol presennol i'r Unigolyn Cyfrifol penodedig newydd. Mae hyn yn cynnwys 6 lleoliad preswyl cofrestredig ac amrywiol ddarpariaeth gofal cartref o dan un cofrestriad. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cymryd drosodd rôl arweiniol yr Unigolyn Cyfrifol ar gyfer proses gofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer Bwthyn y Ddôl, Llys Elian, Bron y Nant, a'n gwasanaethau gofal cartref, wedi'u cwblhau fel y cynlluniwyd.

**4. Newid y ffordd rydym yn comisiynu gofal cartref yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn**

Mae'r prosiect hwn yn gwella'r ffordd yr ydym yn comisiynu gofal cartref. Gan symud ymlaen o 'Amser a Thasgau', i weithio gydag ymagwedd 'Canolbwyntio ar Ganlyniadau Lles a Phobl'. Mae'r gwaith o gyflwyno'r model newydd yn unol â'r 5 Tîm Adnoddau Cymunedol wedi'i gwblhau. Blaenoriaeth bresennol y timau yw trosglwyddo'r rhai sy'n derbyn pecyn gofal i'r cynlluniau gofal newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y cam olaf, sef cyflwyno taliadau wedi'u cynllunio a bilio blynyddol, yn gofyn am drosglwyddo'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth i'r cynlluniau gofal newydd cyn y gellir bwrw ymlaen ag ef.

**5. Ymgynghori ar "elfen ddewisol" ein Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol**

Roedd y dasg hon yn cynnwys ymgynghori â budd-ddeiliaid ar y polisi, sydd wedi'i gwblhau. Ystyriwyd adborth yr ymgynghoriad wrth gynnig newidiadau polisi, a gefnogwyd gan y Cabinet dros yr haf. Dechreuodd cyfathrebu i hysbysu budd-ddeiliaid am y newidiadau polisi (sy'n dod i rym o 1 Medi, 2025) ym mis Medi 2024.

**6. Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rydym yn edrych ar greu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd y prosiect yn cael ei gyflawni yn unol â'r 8 amcan strategol rhanbarthol (Cydweithio, Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu, datblygu'r gweithlu, y Blynyddoedd Cynnar, Addysg Ôl-orfodol, Iechyd, TGCh a Dwyieithrwydd).

Yn unol â deddfwriaeth newydd ac egwyddorion y Cod ADY newydd, mae hwn yn ceisio:

- Sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r holl ddysgwyr ag ADY i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial yn llawn.
- Gwella'r gwaith o gynllunio a darparu cefnogaeth i ddysgwyr 0-25 sydd ag ADY, gan roi anghenion, barn, dymuniadau a theimladau dysgwyr yng nghanol y broses.
- Canolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn fuan a sicrhau ymyrraeth amserol ac effeithiol sy'n cael ei fonitro a'i addasu i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

Cychwynnwyd y prosiect ym mis Ebrill 2019 gyda “mynd yn fyw” o fis Medi 2021. Rydym yn gweithio yn unol ag Amserlen Weithredu Llywodraeth Cymru hyd at Awst 2025. Mae’r cyfrifoldeb am ddyletswyddau ADY ôl-16 a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (ALP) yn trosglwyddo i awdurdodau lleol yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys y cyfrifoldeb am ariannu) o 1 Medi, 2025.

**7.** Canolfan Seibiant i Bobl Anabl Bron y Nant

Yn dilyn gwagio safle uchaf Bron y Nant fel rhan o’r Strategaeth Swyddfeydd, sefydlwyd prosiect Canolfan Seibiant i Bobl Anabl Bron y Nant a Phlanhigfa a Chaffi Bryn Euryn i:

- Ddatblygu’r safle uchaf yn llety seibiant newydd, gan ddarparu gwasanaeth seibiant a gomisiynwyd ar y cyd (Gofal Cymdeithasol Anableddau ac Iechyd), cefnogi pobl ag anableddau a’r rhai ag anghenion iechyd cymhleth.
- Adnewyddu/datblygu’r safle isaf, sef Planhigfa Bryn Euryn a’r Gerddi, ynghyd â chaffi a siop newydd i’r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a staff fynd iddynt.

Nodwyd nifer o fanteision fel rhan o ddatblygiad y prosiect, gan gynnwys:

1. Mwy o Seibiant Gwasanaeth Anabledd ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth i oedolion sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Anabledd.
2. Cyfraddau is o oedolion sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Anabledd sy'n gorfod cael eu lleoli mewn cyfleusterau preswyl neu driniaeth y tu allan i'r ardal.
3. Mwy o ofal seibiant ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Anabledd ag anghenion gofal cymhleth.
4. Cynyddu sgiliau Staff Planhigfa Gorfforaethol Tan Lan trwy weithio a hyfforddi gyda'r Timau Cyfleoedd Gwaith.
5. Mwy o Gyfleoedd Gwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Anabledd.
6. Cynnydd yn nifer y nosweithiau seibiant i ddefnyddwyr gwasanaeth Anabledd sydd ar gael yn y Sir.

Daeth y cyfleuster seibiant yn weithredol, ynghyd â Chymorth Dydd Integredig. Mae ganddo argaeledd i 5 unigolyn aros y noson o'i gymharu â'r cyfleuster seibiant blaenorol oedd â dim ond 3 gwely. Ers dod yn weithredol mae 1,029 o nosweithiau o seibiant wedi'u neilltuo i unigolion sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Anabledd. Nifer y

bobl sy'n defnyddio Bron y Nant yw 59, ac mae gan nifer ohonynt anghenion gofal cymhleth ac angen mewnbwn DN yn ystod eu harhosiad. Agorodd y Caffi a'r Siop yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2024.

Yn sgil cyflwyno prosiectau newydd, mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r rhaglen Trawsnewid Gofal Cymdeithasol yn esblygu. Gyda'r rhaglen waith newydd i drawsnewid lleoliadau gofal preswyl a maeth (sy'n cefnogi cyflawni ein strategaeth lleoli ar gyfer 2022 i 2027) a'r cynllun cyflawni ar gyfer lleoliadau preswyl yn mynd â ni i 2030 i 2031. Mae'r rhaglen a'i phrosiectau yn dasg sylweddol, yn ddibynnol ar gymorth gan staff presennol ar draws ystod eang o wasanaethau a disgyblaethau'r cyngor. Nodir y statws capasiti fel 'oren – o fewn goddefiant' ac mae'n parhau i fod yn her, gan reoli darpariaeth gwasanaeth o ddydd i ddydd ochr yn ochr â rhaglen waith newid sylweddol. Mae gan y rhaglen Reolwr Rhaglen, sydd hefyd yn darparu cymorth rheoli prosiect ysgafn ar sail angen pan nad oes cymorth rheoli prosiect ar gael. Croesewir y penodiadau i'r swyddi Arweinydd Trawsnewid (a ariennir drwy grant dileu elw Llywodraeth Cymru) a'r Rheolwr Prosiect.

Mae'r brif risg ar gyfer y rhaglen yn ymwneud ag argaeledd cyllid dileu elw Llywodraeth Cymru ar ôl mis Mawrth 2025, heb unrhyw gyhoeddiadau ffurfiol hyd yma. Pe bai cyllid yn dod i ben bydd canlyniadau ar gyfer parhad y staffio sydd ei angen i gefnogi cyflawni ein cynllun 10 mlynedd.

### 9.2.2.8. Gweithgaredd Gwella: Adolygu'r Cynllun Corfforaethol

Statws: Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

Nododd yr Hunanasesiad Perfformiad ar gyfer 2023 i 2024, gan gyfeirio at argymhellion o asesiadau eraill dan arweiniad cymheiriaid, yr angen i gynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o'r Cynllun Corfforaethol, gan gydnabod bod y dirwedd ariannol wedi newid yn aruthrol ers y cytunwyd ar uchelgais y cynllun gwreiddiol. Mae'r Tîm Perfformiad a Gwelliant yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, gan weithio tuag at weithdy gyda'r Uwch Dîm Rheoli a'r Cabinet ym mis Tachwedd, a chyflwyno cynllun diwygiedig i'r ddemocratiaeth yn y Flwyddyn Newydd. Bydd y cynllun diwygiedig yn canolbwyntio'n gadarn ar ein gwytnwch ariannol fel awdurdod.

# 10. Swyddogaethau Llywodraethu

Gyda chefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i fod yn wydn mae’r penodau i ddilyn yn ystyried y camau i wella a’r datblygiadau (yn cynnwys eitemau newyddion a phwyllgorau) sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod 2023 i 2024 er mwyn cefnogi saith maes llywodraethu, yn bennaf Cynllunio Corfforaethol, Cynllunio Ariannol, Rheoli Perfformiad, Rheoli Risg, Cynllunio’r Gweithlu, Rheoli Asedau a Chaffael.

## 10.1. Cynllunio Corfforaethol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi’r maes llywodraethu hwn. Mae Cynllunio Corfforaethol yn ymwneud â sut rydym yn gosod ac yn gwneud trefniadau i gyflawni ein hamcanion strategol.

### 10.1.1. Archwilio Cymru: Gosod Amcanion Lles

Argymhellodd adroddiad Archwilio Cymru ar sut yr oeddem wedi gosod ein Hamcanion Lles yn 2022 ein bod yn ystyried yn fwy penodol sut yr ydym yn cefnogi ac yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni amcanion. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth i ni fwrw ymlaen â diwygiadau sydd i ddod i'r Cynllun Corfforaethol yn yr hydref, a bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd.

### 10.1.2. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i’w gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf. Yn ogystal â’r ddogfen yr oedd y Cod Llywodraethu Lleol a’r Fframwaith Llywodraethu. Mae’r ddogfen yn ceisio darparu sicrwydd o brosesau llywodraethu cadarn a chyflwyno’r achosion o flaenoriaeth fwyaf sy’n cael eu rheoli gennym ni fel cyngor. Er bod yr adroddiad heb gyflwyno unrhyw achosion llywodraethu sylweddol cafodd pryderon eu codi ynghylch anawsterau gydag adnoddau a lles staff. Roedd y datganiad yn nodi’r camau gwella canlynol wedi’u hunanasesu:

1. Adolygu Canlyniad 9 y Cynllun Corfforaethol i gryfhau gwydnwch yn y tymor byr, tymor canolig a’r hirdymor.
2. Datblygu’r gwaith cynllunio ariannol tymor canolig ymhellach, yn enwedig i nodi camau gweithredu i gryfhau gwydnwch ariannol.
3. Adolygu’r dull ar gyfer caffael i gynyddu capasiti ac i wella cydlyniant gweithgareddau caffael.

4. Symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau i ddileu rhwystrau biwrocrataidd ac i wella prydlondeb penderfyniadau, gan wella effeithiolrwydd y prosesau.

Bydd y camau hyn yn cael eu datblygu yn yr adolygiad sydd i ddod o'r Cynllun Corfforaethol.

### 10.1.3. Trefniadau Democrataidd

Dechreuodd y Cyngor etholedig ei flwyddyn ym mis Mai pan etholwyd ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd, gyda'r cynghorwyr Susan Shotter a Sharon Doleman yn cael eu hethol i'r rolau. Gwnaethpwyd penodiadau i bwyllgorau allweddol; a chytunwyd ar y tâl i'w dalu i gadeiryddion pwyllgorau ac aelodau cyfetholedig, yn dilyn cyngor Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Penodwyd dau riant lywodraethwr ar gyfer y sectorau uwchradd ac ysgolion arbennig am dymor o dair blynedd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau, a gofynnir am ddatganiadau pellach o ddiddordeb gan y sector ysgolion cynradd i lenwi swyddi gwag.  Cytunodd y Cyngor hefyd ar amserlen cyfarfodydd pwyllgor am y flwyddyn, yn amodol ar aildrefnu cyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyn etholiad ym mis Mehefin a dechrau Gorffennaf.  Yn dilyn ymgynghori ag aelodau, mabwysiadodd y Cyngor ym mis Gorffennaf ddisgrifiadau rôl newydd ar gyfer Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Safonau, ac ar gyfer Arweinwyr Grwpiau.  Gwnaethpwyd penodiadau pellach i'r Pwyllgor Safonau ym mis Awst; ac yn olaf ym mis Medi penododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio aelodau i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

Rhannwyd newidiadau a wnaed i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion hefyd gyda'r Cyngor ym mis Gorffennaf.  Roedd y newidiadau a wnaed yn fân, ac yn cynnwys gwallau teipio, anghysondebau, a newidiadau canlyniadol o ganlyniad i weithredu penderfyniadau, megis y rhai a wnaed gan yr Uwch Bwyllgor Cyflogaeth wrth benodi i uwch swyddi.

Mewn cyfarfod o'r Cabinet ym mis Ebrill, croesawodd yr Arweinydd y Cynghorydd Emily Owen, yr Aelod Cabinet dros Dai a Rheoleiddio a'r Dirprwy Arweinydd, yn ôl o gyfnod mamolaeth a rhoddodd eglurder ar gyfrifoldebau portffolio o fewn y Cabinet.  Bydd y Cynghorydd Owen yn cadw'r briff ar gyfer Tai a Digartrefedd, tra'n cymryd cyfrifoldeb am ffyrdd newydd o weithio ar draws y cyngor. Bydd yr Aelod Cabinet Archwilio, Polisi a Pherfformiad yn cadw cyfrifoldeb dros dro am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd; bydd yr Aelod Cabinet dros Gymdogaeth a'r Amgylchedd yn cadw cyfrifoldeb interim dros Wasanaethau Rheoleiddio; a bydd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Llywodraethu a TG yn cymryd cyfrifoldeb am y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

## 10.2. Cynllunio Ariannol

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.  Mae cynllunio ariannol yn ymwneud â rheoli ein hincwm a'n gwariant.

### 10.2.1 Datganiad Cyfrifon 2023 i 2024

Mae dyletswydd statudol ar bob cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifeg a gymeradwyir.  Mae'r Datganiad Cyfrifon blynyddol yn adrodd ar drafodion y flwyddyn a'n sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.  Cymeradwywyd y Datganiad Cyfrifon terfynol ar gyfer 2022 i 2023 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai. Cyflwynwyd adroddiad ar y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2023 i 2024 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi, yn amodol ar her archwilio allanol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn nodi bod ein cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu £8.4m i £57.7m, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y cronfeydd cyfalaf wrth gefn sy'n gwrthbwyso'r gostyngiad yn y cronfeydd refeniw a glustnodwyd.  Gostyngodd balans ein cronfa £1.396m i £2.772m wrth iddo amsugno'r gorwariant diwedd blwyddyn.  Mae camau'n cael eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol i ganoli nifer o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a chynyddu balans ein cronfa i ddarparu mwy o wytnwch. Gwelodd balansau ysgolion ostyngiad o £3.2 miliwn i ychydig dros £7 miliwn yn ystod y flwyddyn. Parhaodd casglu Treth y Cyngor yn gryf gyda chasgliadau yn ystod y flwyddyn o 97.14%, y bedwaredd gyfradd gasglu uchaf yng Nghymru. Bydd unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r adroddiad gan yr archwilwyr yn cael eu hadrodd i'r aelodau cyn i gymeradwyaeth ffurfiol gael ei rhoi.

### 10.2.2. Diweddariad Ariannol

Cyflwynwyd diweddariad ariannol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf i roi gwybod iddynt am yr heriau a wynebwyd a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ymateb i'r rhain.  Derbyniodd y Cabinet hefyd ym mis Awst adroddiadau ar ein halldro ariannol ar gyfer 2023 i 2024 (fel yr adroddwyd yn flaenorol), ac adroddiad monitro cyllideb refeniw ar gyfer chwarter 1.  Rhannwyd y rhain hefyd â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Mae'r adroddiad monitro yn nodi ein bod eisoes yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol yn ystod y flwyddyn gydag ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, galw cynyddol am wasanaethau, dyfarniadau cyflog yn y dyfodol, a phwysau chwyddiant parhaus yn parhau i fod yn risgiau sylweddol i ni. Mae ein gwasanaethau yn ymwybodol o'r angen i reoli sefyllfa'r gyllideb ac mae rheolaethau gwariant cadarn wedi'u rhoi ar waith

yn ystod y cyfnod hwn.  Rydym yn dal i ragweld diffyg yn y gyllideb o tua £32m dros y cyfnod 2025 i 2026 a 2026 i 2027.

### 10.2.3 Sefyllfa Derfynol Rheoli'r Trysorlys a'r Gwir Ddangosyddion Darbodus

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024, cyflwynwyd Sefyllfa Derfynol Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023 i 2024.  Nododd yr adroddiad fod benthyca wedi gostwng £2.6 miliwn (o £205.9 miliwn i £203.3 miliwn) yn ystod 2023 i 2024; ac ar gyfer buddsoddiadau, bu gostyngiad hefyd o £4.6 miliwn (o £32.2 miliwn i £27.6 miliwn).

Mewn cyfarfod diweddarach ym mis Medi 2024, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys ein gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod tri mis cyntaf 2024 i 2025. Adroddwyd bod benthyca allanol wedi gostwng £24.2 miliwn (o £203.3 miliwn i £179.1 miliwn) yn ystod y cyfnod Ebrill i Fehefin 2024, a bu gostyngiad mewn buddsoddiadau o £16.0 miliwn (o £27.6 miliwn i £11.6 miliwn) yn ystod yr un cyfnod. Bydd adroddiadau yn parhau i gael eu monitro gan ein haelodau bob chwarter.

### 10.2.4 Rhaglen Gyfalaf

Ym mis Awst, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet adroddiadau yn nodi'r sefyllfa derfynol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2023 i 2024 (£43.176m, sy'n cynnwys gwariant ymlaen llaw o £193k yn ymwneud â chynlluniau cyfalaf cyllidebol 2024 i 2025), a diwygiadau i'r rhaglen 2024 i 2025.  Cytunwyd i ddwyn ymlaen y gyllideb gyfalaf sy'n weddill o £81.958m i raglen 2024 i 2025, a gwnaed addasiadau fel y bo'n briodol, yn bennaf i ddarparu ar gyfer cyllid grant ychwanegol. Rhoddwyd cymeradwyaeth ar gyfer ychwanegiad net o £4.085miliwn i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gan gynyddu'r cyfanswm i £101.643m.  Yn ogystal, cytunwyd i adolygu'r cynlluniau a gariwyd ymlaen o 2023 i 2024, gyda phwyslais ar y rhai sy'n ymwneud â benthyca.

## 10.3. Rheoli Perfformiad

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.  Mae rheoli perfformiad yn cyfeirio at y strwythurau a'r prosesau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud gan fynd ati i annog her a chyfranogiad gweithredol gan bob rhan o'r sefydliad a'n preswylwyr.

### 10.3.1. Monitro’r Cynllun Corfforaethol

Rydym wedi cyflwyno nifer o adroddiadau trwy gydol y flwyddyn ar gynnydd y Cynllun Corfforaethol. Cyflwynwyd cynigion ar gyfer mesurau perfformiad a thargedau'r Cynllun Corfforaethol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, y Cabinet a’r Cyngor ym mis Gorffennaf, a chyflwynwyd yr adroddiad Hunanasesu Perfformiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi. Nododd yr Hunanasesiad chwe cham gwella, ac mae diweddariadau arnynt wedi'u cynnwys o fewn y penawdau priodol yn yr adroddiad hwn.

Yr adroddiad perfformiad presennol hwn, sy'n ymdrin ag Ebrill i Fedi, yw'r cyntaf o dair dogfen a fydd yn rhan o'n hunanasesiad blynyddol o berfformiad yn erbyn ein swyddogaethau ar gyfer 2024 i 2025. Bydd yr ail ddogfen yn ymdrin â mis Hydref i fis Mawrth, a bydd y drydedd yn darparu crynodeb gweithredol yn erbyn ein hamcanion perfformiad a'n meysydd llywodraethu. Mae hyn yn cefnogi ein hymagwedd at hunanasesiad 'parhaus', fel yr anogir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yn yr adroddiad hwn rydym wedi dechrau cofnodi gweithgarwch rheoleiddio yn ystod y flwyddyn a chynnydd i roi sicrwydd ynghylch rheoli a monitro argymhellion archwilio. Rydym hefyd wedi dechrau dod â'n hamserlen adrodd ymlaen fel bod yr adroddiadau hyn yn fwy amserol.

### 10.3.2. Gweithgaredd Gwella: Safbwynt Defnyddwyr

Nododd ein Hunanasesiad ar gyfer 2023 i 2024 weithgaredd gwella i gryfhau ein prosesau i gael ac ystyried safbwyntiau defnyddwyr am ein perfformiad yn erbyn ein swyddogaethau. Mae’r Tîm Perfformiad a Gwella yn ystyried opsiynau i symud hyn ymlaen, sy’n cynnwys y posibilrwydd o fabwysiadu’r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol a gynhelir gan Data Cymru neu i greu ein harolwg pwrpasol ein hunain, sy’n canolbwyntio ar ein hanghenion penodol a’n gofynion deddfwriaethol. Rydym yn y broses o bwyso a mesur opsiynau yn erbyn y capasiti sydd gennym.

### 10.3.3. Gweithgaredd Gwella: Meincnodi Cynllun Corfforaethol

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhyngddibynnol â'n gweithgaredd i ailgyfeirio Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027. Ar ôl sicrhau consensws eang gan yr Uwch Dîm Rheoli a’r Cabinet ar gyfeiriad y Cynllun Corfforaethol diwygiedig ar gyfer 2025 i 2027, bydd y Tîm Perfformiad a Gwella yn edrych i adolygu’r Fframwaith Rheoli Perfformiad sy’n gorwedd o dan y cynllun, gan ddefnyddio unrhyw ddata meincnodi addas o ffynonellau a gyhoeddir

yn genedlaethol, gan gynnwys offeryn Proffil Perfformiad Awdurdodau Lleol newydd Data Cymru.

### 10.3.4. Gweithgaredd Gwella: Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth

Mae Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth yn chwarae rhan hanfodol yn ein Fframwaith Rheoli Perfformiad ac maent yn brosesau sydd wedi'u hen sefydlu ar gyfer adolygu perfformiad lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n amserol inni ystyried fformat yr adolygiadau a cheisio tynhau eu ffocws ar faterion a heriau perfformiad. Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arwain Strategol a'r Cabinet yn y Gwanwyn gyda chynigion ar gyfer yr Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth diwygiedig.

### 10.3.5. Gweithgaredd Gwella: Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhyngddibynnol ar nifer o'r gweithgareddau a ddisgrifir uchod, sef diwygiadau i'r Cynllun Corfforaethol a'i fframwaith perfformiad, ein gwaith ar feincnodi a gwybodaeth am safbwyntiau defnyddwyr, a'n cynigion ar gyfer y broses Adolygu Perfformiad Gwasanaeth. Y gobaith yw y byddwn mewn sefyllfa i ddiweddaru ein Fframwaith Rheoli Perfformiad trosfwaol erbyn dechrau haf 2025.

### 10.3.6. Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022 i 2023

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2023 i 2024 i’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a’r Cabinet ym mis Gorffennaf. Roedd yr adroddiad yn dangos sut roedd Gofal Cymdeithasol wedi hybu lles ac wedi rhoi cyfrif am gyflawni safonau lles, ac yn darparu gwybodaeth am feysydd datblygiad newydd, ynghyd â gwerthusiad o ba mor dda yr ydym yn cyflawni dyletswyddau Gofal Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn rhybuddio am amseroedd heriol o'n blaenau o ran cyllid. Gyda'r gwasanaethau a'r nifer fwyaf o weithwyr, mae gan Ofal Cymdeithasol gyfraniad sylweddol i'w wneud i helpu i sicrhau ein sefydlogrwydd ariannol cyffredinol. Mae ein meysydd gwariant mawr yn cael eu harolygu'n sylweddol ac mae cynlluniau ar waith i helpu i reoli costau cynyddol mewn rhai meysydd. Mae’n bosib darllen yr adroddiad terfynol ar ein gwefan.

### 10.3.7. Diweddariadau ar Weithgareddau Rheoleiddio

Cyflwynwyd diweddariadau ar ein cynnydd yn erbyn argymhellion rheoleiddio allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mai, gan roi sicrwydd bod camau y cytunwyd arnynt yn cael eu monitro, eu datblygu a'u hadrodd yn ddigonol. Ym mis Medi, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynllun archwilio amlinellol Archwilio Cymru ar gyfer 2024 i 2025.

### 10.3.8. Archwilio Mewnol

Ym mis Mai, cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y tîm i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhoddodd Archwilio Mewnol 28 o farnau archwilio yn ystod y flwyddyn, gydag 16 o Sicrwydd Uchel, wyth yn Boddhaol, a phedair o Sicrwydd Cyfyngedig. Ni chafodd adroddiadau eu dychwelyd gyda chyfradd Dim Sicrwydd. Cyflwynwyd adroddiad cynnydd pellach i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf, lle nodwyd y bu cynnydd mewn adroddiadau sicrwydd cyfyngedig gan fod meysydd risg uchel wedi'u targedu drwy'r map sicrwydd. Cyflwynodd Archwilio Mewnol eu Siarter a'u Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025 yn yr un cyfarfod hefyd.

### 10.3.9. Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi: Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Cynhaliodd Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi arolygiad ar y cyd o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych ym mis Ionawr 2024 a chyhoeddodd ei adroddiad ym mis Mai. Ystyriwyd hwn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Amlygodd yr adroddiad dri maes o berfformiad da, saith maes yr oedd angen eu gwella, a dau faes a oedd yn annigonol (llywodraethu ac arweinyddiaeth; a phartneriaethau a gwasanaethau). Gwnaed saith argymhelliad i gyd, pedwar ohonynt yn ymwneud â'r awdurdodau lleol. Nodwyd bod yr arolygiad wedi dod ar yr adeg anoddaf i'r gwasanaeth, pan fu newidiadau a heriau sylweddol. Er gwaethaf hyn, canfu'r arolygwyr fod tîm arwain cryf a gwybodus ar waith a oedd wedi bod yn allweddol wrth weithio gyda staff i ddarparu gwasanaeth i blant a phobl ifanc tra'n profi prinder staff sylweddol a heriau strategol sylweddol. Amlygodd yr arolygwyr hefyd enghreifftiau cadarnhaol o waith sy'n cael ei gyflwyno gyda phlant. Cytunwyd ar gynllun gwella sy'n canolbwyntio'n benodol ar gryfhau trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a gwaith partneriaeth y Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid. Cymeradwywyd y cynllun gwella gan y Cabinet ym mis Gorffennaf, lle cytunwyd hefyd y dylem ni fel cyngor chwarae mwy o ran

yn dal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn atebol am y gwasanaethau y mae'n eu darparu i blant sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### 10.3.10. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor

Cafodd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei ystyried gan aelodau'r pwyllgor ym mis Mai a'i gyflwyno i'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Mae'r pwyllgor bellach wedi'i hen sefydlu ac yn ddiamau bu gwelliannau i'r modd yr adroddir ar risgiau a materion, materion trysorlys, a chyflwyniad y cyfrifon blynyddol. Fodd bynnag, mae diffyg goruchwyliaeth gan y Pwyllgor o hyd o feysydd fel y Cynllun Corfforaethol, strategaeth ariannol a chyllidebau. Mae cynlluniau bellach wedi'u sefydlu i unioni hyn yn y flwyddyn i ddod. Mae llawer o waith i'w wneud hefyd o ran gwella perthnasoedd gwaith proffesiynol a chyflwyno ymgysylltiadau mwy rheolaidd â swyddogion ac aelodau'r Cabinet. Bellach mae mwy o eglurder ynghylch rolau priodol y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ond mae angen gwella ymgysylltiad ymhellach i sicrhau bod y pwyllgorau'n ategu ei gilydd yn eu rhaglenni gwaith ac i wella llywodraethu cyffredinol ymhellach.

Hefyd ym mis Gorffennaf, derbyniodd y Cyngor ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau, a oedd yn rhoi rhywfaint o gefndir i waith y pwyllgor yn ystod 2023 i 2024. Nodwyd bod y pwyllgor wedi parhau â'i raglen ar gyfer ymweliadau gan aelodau annibynnol â chyfarfodydd cynghorau tref a chymuned; delio â sawl cais am oddefeb ac adolygu cofrestrau buddiannau aelodau a datganiadau rhoddion a lletygarwch wedi'u diweddaru; ystyried cwynion a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon; a chyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau i drafod eu cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau.

### 10.3.11. Canmoliaethau a Chwynion

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad blynyddol ar y cyd ar Gwynion Corfforaethol a Gwasanaethau Cymdeithasol. Hwn oedd yr ail adroddiad a ddaeth â Chwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol ac adroddiadau Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno crynodeb o'r gwaith a wnaed gan yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth yn ystod 2023 i 2024.

Derbyniwyd 321 o ganmoliaethau yn ystod y flwyddyn (i lawr o 346). Derbyniwyd 189 o ganmoliaethau o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol (i fyny o 151).

Derbyniwyd 363 o gwynion corfforaethol yn ystod 2022 i 2023 (i fyny o 346). Cadarnhawyd 135 (i fyny o 98), 204 heb eu cadarnhau (i lawr o 223), daethpwyd â 17 i ben (i fyny o 15), ac ni theilyngwyd chwe ymchwiliad a benderfynwyd (i lawr o 7). Ymdrinwyd â 68% o gwynion Cam 1 o fewn 10 diwrnod gwaith (i fyny o 64%), ac ymdriniwyd â 41% o gwynion Cam 2 o fewn 20 diwrnod gwaith (i lawr o 47%).

O ran Gwasanaethau Cymdeithasol roedd 15 o gwynion ffurfiol (i lawr o 22), gyda 14 o'r rhain yn cael eu datrys yng Ngham 1, ac 1 yng Ngham 2. Cafodd 79% o gwynion Cam 1 eu datrys. Dim ond 1 Ymchwiliad Annibynnol Cam 2 a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, na chafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen o 25 diwrnod gwaith. Trosglwyddwyd 14 o gwynion i'r Ombwdsmon (i fyny o 5), ond heblaw am un, ni ymchwiliwyd ymhellach iddynt, fe'u barnwyd yn gynamserol, neu daethant allan o gylch gwaith yr Ombwdsmon.

Yn ystod 2023 i 2024 cawsom 108 o ddigwyddiadau data, ac ystyriwyd bod un ohonynt yn hysbysadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach yn ein herbyn.  Derbyniwyd 1,097 o geisiadau am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Ymatebwyd i 49% o fewn yr amserlen, gan amlygu bod capasiti adnoddau o fewn yr Uned Llywodraethu Gwybodaeth yn fater sylweddol.  Ymyrrodd yr ICO ac ymateb i 5 achos, gan gadarnhau un gŵyn gan ein bod wedi methu ag ymateb o fewn yr amserlen.

Mae'r gwersi mwyaf sylweddol o ganlyniad i gwynion yn ystod 2023 i 2024 yn cynnwys y pwysigrwydd o adnabod unrhyw anfodlonrwydd; bod yr holl gyfathrebiadau a gweithdrefnau yn glir a bod swyddogion yn eu deall; a'r angen i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar y cwynion yn cael ei gasglu, ac i ddilyn i fyny ar unrhyw gamau gweithredu y cytunir arnynt. Yn ogystal, yn dilyn cwyn camweinyddu yr ymchwiliwyd iddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae nodyn atgoffa a thaflen gyfarwyddiadau yn amlinellu'r broses o ymateb i gŵyn wedi'u hanfon at bob rheolwr. Cymeradwywyd yr adroddiad cyfunol ar gwynion a llywodraethu gwybodaeth gan y Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Awst.

Ym mis Medi, ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.  Mae'r llythyr yn nodi bod yr Ombwdsmon wedi derbyn 36 o gwynion am Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystod 2023 i 2024, ac wedi cau 37 (rhai cwynion yn cael eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol). Nodir bod un argymhelliad yn weddill i weithredu arno.

### 10.3.12. Asesu Perfformiad Panel

Bydd papurau sy'n amlinellu'r trefniadau ar gyfer Asesiad Perfformiad y Panel yn dod gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried ym mis Tachwedd, ac yna'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyngor ym mis Ionawr. Yna bydd gwaith yn dechrau ar ein dogfen gwmpasu ar gyfer yr asesiad, gan dderbyn mewnbwn swyddogion ac aelodau. Cytunir ar gwmpas a phenodiad panelwyr ym mis Gorffennaf, a chynhelir yr asesiad ei hun ym mis Medi.

### 10.3.13. Archwilio Cymru: Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad lleol o sut rydym yn defnyddio gwybodaeth safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn ein hadroddiadau. Cynhaliwyd yr adolygiad yn ystod 2023, a daethpwyd i'r casgliad bod uwch arweinwyr yn cael gwybodaeth sy'n eu helpu i ddeall pa mor dda y mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, ond mae gwybodaeth am ganlyniadau ei weithgareddau yn gyfyngedig, gan gyfyngu ar eu gallu i reoli perfformiad yn effeithiol. Cododd tri argymhelliad o'r adolygiad:

1. **Gwybodaeth am safbwynt defnyddiwr y gwasanaeth:** Dylem sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i'n huwch arweinwyr yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth ar ystod ehangach o wasanaethau a pholisïau. Dylai hyn gynnwys cryfhau ein trefniadau i sicrhau ein hunain bod y wybodaeth hon yn dod o amrywiaeth y defnyddwyr gwasanaeth.
2. **Gwybodaeth am ganlyniadau:** Dylem gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a ydym yn cyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau arfaethedig.
3. **Cywirdeb Data:** Dylem sicrhau bod ein trefniadau sicrhau ansawdd data yn cynnwys gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth a chanlyniadau fel y gallwn sicrhau ein hunain bod y wybodaeth hon yn gywir.

Datblygwyd cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion ac adroddwyd arno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf. Mae'r cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd.

## 10.4. Rheoli Risg

Mae rheoli risg yn cyfeirio at y dull rydym wedi'i gynllunio ar gyfer nodi, asesu, rheoli a monitro risgiau a chyfleoedd sy'n wynebu'r cyngor. Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn.

### 10.4.1. Cofrestrau Risg a Materion Corfforaethol

Mae'r Cofrestrau Risg a Materion Corfforaethol yn cael eu diweddaru ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2024. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf rhwng Tachwedd 2023 a Ionawr 2024, ac fe'i hadroddwyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Ebrill 2024. Bydd crynodeb o'r diwygiadau i'r gofrestr yn cael eu darparu yn ein hadroddiad nesaf.

### 10.4.2. Gweithgaredd Gwella: Fframwaith Rheoli Risg

Mae gennym ddull rheoli risg aeddfed a chadarn fel cyngor, ond rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig cymryd cam yn ôl ac adolygu pa mor ddefnyddiol yw'r wybodaeth yr ydym yn ei chasglu. Bydd y Rheolwr Strategaeth, Perfformiad ac Ymgysylltu yn arsylwi adolygiad yr hydref o risg i gael gwell dealltwriaeth o sut mae ein proses bresennol yn gweithio, ac yn y Flwyddyn Newydd bydd yn bwrw ymlaen â thrafodaethau gyda swyddogion ac aelodau ar ein hymagwedd at Risgiau a Materion Corfforaethol.

### 10.4.3. Rolau a Chyfrifoldebau Pwyllgorau

Arweiniodd cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at ofyniad ar ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Cynhaliwyd adolygiad i sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygu rolau ac i egluro cyfrifoldebau. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac fe'i cymeradwywyd wedi hynny gan y Cyngor ym mis Mai 2024. Cadarnhaodd yr adroddiad y byddai rheoli risg yn cael ei adrodd yn unig i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn ei gyflwyno i'r Cabinet. Yn ogystal, byddai adroddiadau rheoleiddio allanol yn cael eu hadolygu gan y pwyllgor craffu perthnasol, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro cynnydd y camau gweithredu a wnaed ar yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau. Rhoddodd y newidiadau hyn sicrwydd i'r aelodau y byddai adroddiadau'n cael eu dyblygu cyn lleied â phosibl.

## 10.5. Cynllunio’r Gweithlu

Gweler isod gamau gwella sydd wedi’u nodi i gefnogi’r maes llywodraethu hwn. Cynllunio’r gweithlu yw’r broses a ddefnyddir gennym i ddadansoddi, rhagweld a chynllunio cyflenwad a galw am weithwyr ac asesu bylchau i sicrhau bod gennym y bobl a’r sgiliau - rŵan ac yn y dyfodol - i ddarparu ein gwasanaethau a chyflawni ein hamcanion strategol.

### 10.5.1. Recriwtio Gwaith Cymdeithasol

Yn ogystal â recriwtio’n uniongyrchol i swyddi gwaith cymdeithasol, mae gennym ni lwybr ‘tyfu ein hunain’ llwyddiannus mewn unrhyw le ar gyfer ein gweithwyr. Ym mis Medi 2024, lansiwyd ein swyddi Gwaith Cymdeithasol Hyfforddeion Graddedig. Mae’r rhain yn ddwy swydd llawn amser ar gytundebau cyfnod penodol o 2 flynedd, a bydd y ddau unigolyn a benodir i’r swyddi yn cystadlu am Radd Meistr yn y Celfyddydau (MA) mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Drwy gydol y ddwy flynedd bydd yr unigolion yn cael eu cefnogi gan wasanaeth y gweithlu i'w lleoli o fewn timau gwaith cymdeithasol, a'u goruchwylio gan Reolwr Tîm gwaith cymdeithasol.

### 10.5.2. Recriwtio Therapyddion Galwedigaethol (ThG)

Rydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â BIPBC, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), a Phrifysgol Wrecsam i fynd i’r afael â recriwtio therapyddion galwedigaethol ers amser maith i ofal cymdeithasol. O ganlyniad i’r gwaith hwn ar y cyd, mae HEIW wedi cydnabod yr angen i gynyddu cyllid ar gyfer lleoedd gradd ym Mhrifysgol Wrecsam ac i’r lleoedd ychwanegol gael eu neilltuo ar gyfer hyfforddeiaethau awdurdodau lleol. Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio i'n swydd Hyfforddeiaeth ThG Conwy.

### 10.5.3. Llwybr Preswyl Plant

Mae cydnabod ein bod yn ehangu ein darpariaeth breswyl i blant yn gofyn am weithlu hyblyg sydd wedi'i hyfforddi’n briodol. Rydym wedi datblygu llwybr dilyniant ar gyfer gweithwyr preswyl plant. Mae'r llwybr yn cynnig pwynt lefel mynediad (lefel 1) i'r rhai sydd â phrofiad cyfyngedig o weithio ym maes gofal cymdeithasol. Gan weithio ar y cyd â Choleg Llandrillo, rydym wedi datblygu rhaglen ar gyfer gweithwyr lefel 1 lle byddant yn mynychu'r coleg am chwe mis i ennill cydran graidd y cymhwyster gofynnol ac ymgymryd â chofrestriad gweithlu. Bydd cwblhau'r rhan hon o'r llwybr yn arwain at symud ymlaen yn awtomatig i lefel 2 y llwybr.

### 10.5.4. Templed a Chanllaw Cynllunio'r Gweithlu

Mae templed gweithlu a dogfen ganllaw wedi'u drafftio ac mae pob Pennaeth Gwasanaeth wedi cael adroddiad gan iTrent i alluogi pob gwasanaeth i ddeall rolau eu staff, eu hoedran a'u swyddi hanfodol.

### 10.5.5. Rhaglen Pobl a Pherfformiad

Derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Mai adroddiad diwedd rhaglen ar gyfer y Rhaglen Pobl a Pherfformiad. Dechreuodd y rhaglen ym mis Ebrill 2023 a gwelwyd uno prosiectau moderneiddio a thasgau yn ymwneud â phrosesau Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch. Mae'r rhaglen wedi cyflawni ei hamcan yn llwyddiannus a chefnogodd y Cabinet adroddiad diwedd y rhaglen yn ei gyfarfod y mis hwnnw. Bydd cynnydd ar y Strategaeth Pobl yn cael ei gyflwyno i Ddemocratiaeth yn y Flwyddyn Newydd.

### 10.5.6. Adolygu’r Polisi Cwynion Corfforaethol

Ym mis Mai, bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau yn ystyried adolygiad o'n Polisi Cwynion Corfforaethol. Adolygwyd y polisi (diweddarwyd ddiwethaf yn 2017) mewn ymgynghoriad â’r Undebau Llafur a’r Uwch Dîm Rheoli i sicrhau ei fod yn dal yn addas i’r diben ac yn unol â chanllawiau ACAS (Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu). Wrth graffu ar yr adroddiad, cododd y pwyllgor nifer o bwyntiau a phleidleisiodd i gefnogi argymhelliad diwygiedig bod aelodau etholedig a chynrychiolwyr Undebau Llafur yn cael eu hadfer fel rhan o baneli apêl achwyniad cam 2. Rydym yn allanolyn o ran apeliadau cwynion cam 2 gyda chynrychiolaeth o blith aelodau etholedig a phanel Undebau Llafur o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. Fodd bynnag, cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad a bydd hwn yn cael ei adolygu pan fydd y Polisi Cwynion Corfforaethol yn cael ei adolygu eto.

### 10.5.7. Darpariaeth Gwasanaeth a Reolir ar gyfer Gweithwyr Asiantaeth a Gweithwyr Dros Dro

Ym mis Awst, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu a sefydlu'r Ddarpariaeth Gwasanaeth a Reolir (MSP) ar gyfer Gweithwyr Asiantaeth a Gweithwyr Dros Dro. Lansiwyd yr MSP ym mis Rhagfyr 2023 ac amlygodd yr adroddiad amrywiaeth eang o rolau, gwasanaethau a ddarperir ac anghenion cyfnewidiol. Hysbyswyd yr aelodau bod tua 90% o wasanaethau

bellach wedi'u cofrestru i ddefnyddio'r ddarpariaeth a bod gwaith hefyd ar y gweill gyda rhai gwasanaethau i ddarparu ar gyfer mwy o swyddi gwag arbenigol neu eithriedig. Dywedodd yr adroddiad hefyd fod cyflwyno'r MSP wedi darparu mwy o reolaeth, cysondeb, cydymffurfiad, a throsolwg o weithwyr asiantaeth, gan gynnwys gwerth am arian a gostyngiad mewn gofynion gweinyddol ac adnoddau.

### 10.5.8. Gwaith Cymdeithasol a'i Gynaliadwyedd

Ym mis Medi, derbyniodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a'r Cabinet adroddiad yn nodi trosolwg o broffil y gweithlu o fewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghonwy, gan gynnwys yn benodol argymhellion i sicrhau gwytnwch yn y dyfodol. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod recriwtio a chadw yn her genedlaethol o fewn gofal cymdeithasol ac yn rhoi cipolwg o absenoldeb salwch, cyfraddau swyddi gwag a throsiant. Roedd hefyd yn rhoi trosolwg o lwyth gwaith a gwybodaeth am berfformiad / galw fel ffactorau cysylltiedig â recriwtio, cadw, a gwytnwch.  Cefnogodd y Cabinet y gwaith o archwilio trefniadau partneru ehangach gyda lleoliadau Addysg Bellach (AB) ac Addysg Uwch (AU) eraill, a datblygu data digonol i lywio cynllun 5 mlynedd.  Cefnogwyd gwerthusiad o lwyddiant y rhaglen 'meithrin ein staff' hefyd, ynghyd â chaniatâd i archwilio adnoddau ychwanegol i recriwtio uwchlaw ein sefydliad er mwyn sicrhau gwytnwch.

### 10.5.9. Partneriaeth Gymdeithasol

Daeth Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd i rym ym mis Ebrill, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023.  Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod Undebau Llafur neu gynrychiolwyr eraill o staff cyrff cyhoeddus yn cael eu cynnwys yn llawn ac yn briodol pan fydd corff cyhoeddus yn pennu ei Amcanion Lles, neu wrth wneud penderfyniadau strategol am y camau rhesymol y mae'r corff yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon wedi rhoi cyfle inni ffurfioli'r gwaith a'r arferion da sydd gennym eisoes yn y maes hwn.  Eisoes yng Nghonwy mae perthynas weithio gref rhwng swyddogion ac Undebau Llafur cydnabyddedig trwy'r:

- Cyfarfodydd Cydbwyllgorau Ymgynghorol bob chwarter
- Cyfarfod AD bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Cyfarfod Addysg bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Cyfarfod Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau bob 6 wythnos gydag Undebau Llafur
- Presenoldeb mewn cyfarfod Cyngor Cyswllt Cymru ddwywaith y flwyddyn

- Cydweithio ar Baneli Gwerthuso Swyddi
- Cysylltu a chyfryngu anffurfiol ynghylch materion ymddygiad
- Trafodaethau ffurfiol a chefnogaeth ar gyfer staff o ran materion ymddygiad ffurfiol

Ein bwriad yn yr hydref yw rhannu gyda'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Corfforaethol ein hadroddiad Hunanasesu Perfformiad blynyddol diweddaraf, ar gyfer 2023 i 2024; a bydd yr adroddiad presennol hwn yn cael ei rannu gyda'r grŵp ym mis Chwefror cyn mynd i'r Cabinet am gymeradwyaeth. Byddwn hefyd yn rhannu gyda'r pwyllgor ein diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Corfforaethol am eu mewnbwn.

### 10.5.10. Adroddiad Archwilio Cymru -  Llamu Ymlaen

Roedd adroddiad Archwilio Cymru o’r enw ‘Llamu Ymlaen’ yn cydnabod bod gennym Gynllun Rheoli Asedau clir ar waith a gweledigaeth ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol. Gwnaeth yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

1. Ein bod yn datblygu ymagwedd hirdymor i’n hasedau a’n gweithlu sydd wedi integreiddio gyda chynlluniau allweddol eraill a’u cefnogi gan gynlluniau cyflawni wedi’u costio; a
2. Datblygu ymhellach y defnydd o feincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor ei fentrau asedau a gweithlu.

Mae ymateb y rheolwyr i'r rhain a'r cynllun gweithredu eisoes wedi'u rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae gwaith i fynd i'r afael â'r ddau argymhelliad yn parhau. Bydd y cynnydd a wneir ar yr argymhellion hyn yn cael ei adrodd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2025 ac yna’n cael ei rannu yn yr adroddiad perfformiad hwn yn y dyfodol.

## 10.6. Rheoli Asedau

Isod mae diweddariadau ar lywodraethu ein hasedau.  Mae’r term asedau yn cyfeirio at ein rheolaeth o bortffolio’r ystâd (yn cynnwys adeiladau swyddfa ac isadeiledd priffyrdd sy’n eiddo i ni/neu’n cael eu rheoli gennym) ac asedau digidol.

### 10.6.1. Portffolio Eiddo

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i reoli asedau allweddol yn ein portffolio yn rhagweithiol, gan wneud penderfyniadau anodd i waredu, prydlesu, neu hyd yn oed brynu

eiddo.  Ym mis Gorffennaf, cymeradwyodd y Cabinet gael gwared ar rydd-ddaliad Neuadd Gymunedol Llanfairfechan i Bwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan am swm y cytunwyd arno.  Ym mis Awst cytunwyd i gael gwared ar rydd-ddaliad Yr Heath, hefyd yn Llanfairfechan; felly hefyd cael gwared ar fferm Plas Newydd, Llanfairtalhaiarn ar y farchnad agored.  Rhoddwyd prydles hir i Llain 5, De Branwen, Tir Llwyd, Bae Cinmel gan y Cabinet ym mis Ebrill; ac ym mis Medi, cytunwyd i brynu, ac yn amodol ar gaffael, rhoi prydles 10 mlynedd ar gyfer Gorsaf Heddlu Llanrwst.

Yn dilyn adleoli Clwb Ieuenctid Abergele i Ganolfan Deuluol Canolfan Dinorben, caewyd hen Ganolfan Ieuenctid Abergele ddiwedd mis Medi 2023 ac ers hynny rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau dyfodol i'r adeilad rhestredig Gradd II hwn.  Ym mis Ebrill, yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau, cytunodd y Cabinet y dylid rhoi les tymor canolig i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Abergele am ddim rhent, ar yr amod bod arian grant yn cael ei sicrhau gan yr ymddiriedolaeth o fewn 18 mis.

Ym mis Medi, ystyriodd y Cabinet opsiynau ar gyfer cael gwared ar safle Ysgol Llannefydd a chymeradwyo ei drosglwyddo i grŵp cymunedol, yn amodol ar gyflwyno cytundeb ariannu ac achos busnes priodol o fewn y chwe mis nesaf. Os na fydd y grŵp yn gallu cymryd yr ased, caiff y safle ei gynnig ar y farchnad agored.

### 10.6.2. Parc Masnach Mochdre

Rhoddwyd diweddariad ar Barc Masnach Mochdre i gynghorwyr mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ym mis Medi.  Mae ein prydles ar yr eiddo yn destun ymgyfreitha parhaus ac rydym yn derbyn cyngor proffesiynol.  Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu i'r Pwyllgor ym mis Mai, 2025.

### 10.6.3. Archwilio Cymru:  Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad lleol o'n Strategaeth Ddigidol yn ystod 2023 a daeth i'r casgliad ein bod wedi nodi ein huchelgais ar gyfer defnyddio technoleg ddigidol, ond nid yw wedi'i chostio'n llawn a bod gwendidau yn y trefniadau monitro a gwerthuso.  Cododd dau argymhelliad o'r adolygiad:

1. **Ymgysylltu gyda phreswylwyr:** Er mwyn helpu i sicrhau bod ein hymagwedd strategol at ddod yn ddigidol yn ystyried anghenion ei holl gymunedau, dylem sicrhau ein hunain bod ein gweithgarwch ymgysylltu yn cynnwys amrywiaeth lawn y

rhai yr effeithir arnynt wrth helpu i lunio ein hymagwedd strategol at ddod yn ddigidol.

2. **Adolygu trefniadau ariannu:** Er mwyn helpu i sicrhau bod ein hymagwedd strategol at ddod yn ddigidol yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael ac i'n galluogi i gymryd cipolwg hirdymor ar ei gostau a'i fanteision, dylem nodi'r adnoddau llawn sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth ddigidol.

Datblygwyd cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion ac adroddwyd arno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf, ac mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd.

### 10.7. Caffael

Gweler isod gamau gwella sydd wedi'u nodi i gefnogi'r maes llywodraethu hwn. Caffael yw'r broses y mae cynghorau yn ei defnyddio i fodloni ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian a chanlyniadau da i gymdeithas, diwylliant a'r economi gan hefyd gyfrannu at ddatgarboneiddio ac adfer natur.

#### 10.7.1. Deddfwriaeth Caffael

Mae'r dirwedd caffael yng Nghymru wedi newid yn dilyn cyflwyno tri maes o ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio'r ffordd y mae caffael cyhoeddus yn cael ei gynnal yng Nghymru. Y rhain yw:

- Deddf Caffael 2023
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Caffael Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024

Mae'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn disgwyl i'r rheiny sy'n ymwneud â chaffael yn y sector gyhoeddus i wneud pethau yn dra gwahanol. Mae llawer iawn o waith wedi mynd i baratoi ar gyfer gweithredu a'r newidiadau sydd ar y gweill a fydd yn gyrru trawsnewidiad o ran ymddygiad a diwylliant ledled ein holl wasanaethau i wella'r ffordd y mae contractau ar gyfer gwaith, nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael. Bydd y newid yn her gan fod y cymhwysedd yn annigonol ac mae wedi cael ei nodi fel risg corfforaethol. Rydym yn gweithio ar ffyrdd o leihau'r risg, a bydd y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn cael ei adrodd i'r Cabinet ym mis Tachwedd.

### 10.7.2. Adnewyddu Contract System AD / Cyflogres

Ym mis Mai cymeradwyodd y Cabinet adnewyddu'r contract ar gyfer y system AD / Cyflogres. Cytunwyd i ddyfarnu'r contract yn uniongyrchol i'r cyflenwr a ffefrir am gyfnod contract o bum mlynedd.

### 10.7.3 Cysylltu Gofal

Yn ei gyfarfod ym mis Awst, cafodd y Cyngor y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Cysylltu Gofal, a gofynnwyd iddo gymeradwyo cyllideb o £1.2m (drwy gymysgedd o gyllid refeniw a chyfalaf) i'n galluogi i gymryd rhan mewn ymarfer caffael cenedlaethol ar gyfer system cysylltu gofal. Mae'n bosibl na fydd angen y swm hwn yn rhannol neu'n llawn pe bai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid, ac yn amodol ar y contractwr llwyddiannus.

## 11. Camau Gwella

Trwy gydol y penodau uchod yn yr adroddiad hwn rydym wedi darparu naratif ar gamau gwella yr ydym yn gweithio arnyn nhw. Byddwn yn parhau i weithio ar y rhain dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth yr ydym yn eu hwynebu. Lle mae gwaith yn mynd rhagddo byddwn yn parhau i adrodd ar ein cynnydd yn yr ardaloedd hynny trwy rifynnau o'r adroddiad hwn yn y dyfodol; yn ogystal â thrwy ein proses adrodd ar Risgiau a Phroblemau Corfforaethol sy'n cynnwys yr ardaloedd mwyaf sylweddol o bwysau sydd arnom ac yn cofnodi'r camau yr ydym yn eu cymryd.

Ni nodwyd unrhyw gamau gwella ychwanegol drwy gynhyrchu'r adroddiad hwn. Mae diweddariadau ar gamau gwella a nodwyd yn flaenorol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn uchod, a byddwn hefyd yn parhau i gynnwys unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn ystod y flwyddyn o Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth a gwaith rheoleiddio allanol.

## 12. Cloi

Ar ôl cwblhau hunanasesiad trylwyr o'n perfformiad a'n penderfyniadau democrataidd, gallwn ddod i'r casgliad bod y Cyngor yn parhau i arfer ei swyddogaethau'n effeithiol; yn defnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac mae ganddo arferion effeithiol da ar gyfer sicrhau perfformiad da. Gobeithiwn fod yr adroddiad hwn yn dangos, yn ystod y cyfnod hwn o chwe mis, ein bod wedi parhau i gyflawni ein hamcanion a'n swyddogaethau allweddol yn ystod yr hyn sy'n parhau i fod yn amgylchiadau ariannol anodd. Wrth gloi'r adroddiad hwn mae'n rhaid i ni gydnabod a diolch o galon i'n staff am

eu hymrwymiad parhaus a’u gwaith caled wrth iddyn nhw geisio ymdrechu i ddarparu gwasanaethau o safon ragorol i’n cymunedau.